# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | **GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 25 MEHEFIN 2026 am 2:00 y. p.** | **THURSDAY, 25 JUNE 2026 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL AR ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY ON ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts, *Sedd Wag/Vacant Seat*

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Paul Ellis, Kenneth Hughes

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Adam Jones, Geraint Jones, William Maund, William Parry

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

***Dygir sylw Aelodau at baragraff 3.4.8.2.2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor sy'n dweud "Mae'n rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg ac ni fydd yr Is-Gadeirydd yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith na'n gynorthwy-ydd i'r Pwyllgor Gwaith."***

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 14 Mai 2026.

**4 LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 9 - 12)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**5 ARCHWILIAD MEWNOL O GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD**

Pennaeth y Gwasanaethau Tai i roi diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r camau gweithredu sy'n weddill.

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2025/26** (Tudalennau 13 - 40)

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2025/26** (Tudalennau 41 - 60)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**8 SIARTER ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 61 - 78)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**9 STRATEGAETH A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27** (Tudalennau 79 - 96)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**10** **ASESIAD PANEL PERFFORMIAD** (Tudalennau 97 - 128)

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr.

**11** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH 2026/27** (Tudalennau 129 - 136)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 14 Mai, 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Euryn Morris (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Kenneth Hughes, Gwilym O. Jones, Keith Roberts, Margaret Roberts.<br><br>Aelodau Lleyg: Dr Geraint Jones, William Parry. |
| **WRTH LAW:** | Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 7)<br>Prif Archwilydd (NW)<br>Rheolwr Perfformiad a Phrosiectau Strategol (GP) (ar gyfer eitem 9 a 10)<br>Rheolwr Gwasanaeth Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi (ar gyfer Eitem 7))<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr William Maund (Aelod Lleyg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer), Rachel Freitag (Rheolwr Archwilio Ariannol - Archwilio Cymru), Lora Williams (Arweinydd Archwilio Perfformiad - Archwilio Cymru), Cara Owen (Archwilio Cymru), Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (HP) (CSYM), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO) (CSYM)<br>Uwch Archwilydd (AM) (CSYM) |

---

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Cafodd Mr Dilwyn Evans ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

### 2. DIRPRWY GADEIRYDD

Cafodd y Cynghorydd Euryn Morris ei ethol yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

### 3. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.



DRAFFT

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 3 Chwefror, 2026 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 5. LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys log gweithredoedd y pwyllgor, i'w ystyried. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar statws a chynnydd y camau a gytunwyd.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod cam gweithredu rhif 24 ar y log yn gysylltiedig â datblygu polisi AI bron â chael ei gwblhau a bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi derbyn y polisi AI ar 15 Ebrill, 2026 yn amodol ar fân newidiadau. Unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol bydd yn cael ei lasio ar borth polisi'r Cyngor lle mae'n rhaid i staff ddarllen a derbyn pob polisi mandadol. Bydd y tîm TG yn lansio'r polisi ynghyd â'r canllawiau ar ddefnyddio AI.

**Penderfynwyd nodi'r camau gweithredu a oedd wedi'u nodi ar y log a chadarnhau bod y Pwyllgor yn hapus bod y camau wedi cael eu gweithredu'n foddhaol.**

## 6. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn nodi canlyniad yr adolygiad blynyddol o gylch gorchwyl y pwyllgor, i'w ystyried gan y pwyllgor. Amlygodd yr adroddiad yr angen i ddiwygio'r amodau penodi ar gyfer aelodau lleyg.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg a eglurodd bod cylch gorchwyl presennol y pwyllgor yn nodi y bydd aelodau lleyg yn gwasanaethu am dymor penodol yn unol â thymor y cyngor, h.y. pum mlynedd, a bod modd iddynt wasanaethu am uchafswm o ddau dymor. Fodd bynnag, nid yw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 na'r canllawiau statudol yn mynd i'r afael ag aelodau lleyg a benodir yng nghanol tymor y cyngor. Yr unig beth y mae'r ddeddfwriaeth yn ei nodi yw na ddylid penodi aelod lleyg am fwy na dau dymor llawn. Cyfeiriodd at ganllawiau CIPFA sy'n argymell penodi aelodau cyfetholedig i wella dealltwriaeth a phrofiad cynrychiolwyr etholedig ynglŷn â meysydd penodol a sicrhau cysondeb y tu allan i'r cylch gwleidyddol, yn enwedig pan fo aelodaeth pwyllgorau'n newid yn flynyddol neu yn dilyn etholiadau.

Er mwyn cadw at yr egwyddor o gyfyngu tymor aelodau lleyg i ddau dymor pum mlynedd a chryfhau cysondeb y tu allan i'r cylch gwleidyddol, argymhellir bod y gofyniad i sicrhau bod y tymor penodi'n cyd-fynd â thymor y cyngor yn cael ei ddileu o gylch gorchwyl y pwyllgor. O ganlyniad byddai aelodau lleyg yn cael eu penodi am ddau dymor pum mlynedd yn ddilynol, ni waeth be fo cylch etholiadol y cyngor. Mae manteision y dull hwn yn cynnwys, llai o faich recriwtio a chyd-fynd â threfniadau ehangach y cyngor ar gyfer penodi i rolau annibynnol. Nodwyd yr anfanteision yn cynnwys yr angen i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor, a thymhorau amrywiol sydd ddim o reidrwydd yn cyd-fynd â'r cylch etholiadau na threfniadau hyfforddi a chynefino'r pwyllgor. Darparwyd copi o'r cylch gorchwyl diwygiedig gyda newidiadau wedi'u holrhain er gwybodaeth.

**Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gefnogi'r diwygiadau arfaethedig i'w gylch gorchwyl i ddileu'r cyswllt rhwng y tymor penodi ar gyfer aelodau lleyg a thymor y cyngor.**

## 7. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn rhoi diweddariad hyd at 28 Ebrill 2026 o'r archwiliadau a gwblhawyd ers 21 Ionawr 2026 i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu llwyth gwaith presennol y tîm Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig wrth symud ymlaen. Darparwyd copïau ar wahân i'r aelodau o'r pum adroddiad sicrwydd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod dan sylw yn gysylltiedig â Systemau Ariannol - Rheoli Trysorlys (Sicrwydd Sylweddol), Systemau Ariannol - y Gyflogres (Sicrwydd Rhesymol), Rheoli Risgiau Strategol - Diogelu (YM10) - Adroddiad Dilynol Cyntaf (Sicrwydd Rhesymol, Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - Ail Adroddiad Dilynol (Sicrwydd Cyfyngedig), a Rheolaeth Ariannol (Sicrwydd Rhesymol).

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg a roddodd grynodeb o ganlyniadau'r adolygiadau archwilio a gwblhawyd yn ystod y cyfnod. Tynnodd sylw at y raddfa sicrwydd sylweddol a roddwyd i'r adolygiad Rheoli Trysorlys, a nododd bod y lefel sicrwydd yma'n anghyffredin ac mai dim ond un cam gweithredu cymedrol oedd wedi'i nodi.

Adroddodd bod yr ail adolygiad dilynol o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl wedi derbyn barn Sicrwydd Cyfyngedig. Mae rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud i wella'r trefniadau ar gyfer gweinyddu'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl; fodd bynnag, mae gwendidau gweinyddol yn bodoli o hyd yn benodol yn gysylltiedig â'r gronfa ddata ganolog sydd yn anghyflawn a heb ei chysoni â data ariannol. Mae hyn wedi achosi gwallau yn yr wybodaeth a ddarparwyd i'r Gwasanaethau Cyfreithiol, gan beri risgiau'n gysylltiedig â phridiannau tir anghywir neu phridiannau tir nad oes modd eu gorfodi. Bwriedir cynnal adolygiad dilynol pellach ym mis Medi 2026.

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg amlinelliad o'r archwiliadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd i gefnogi gwasanaethau i fynd i'r afael â'r materion a risgiau sy'n weddill. Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr ar wahân i'r cyfarfod ynglyn â'r mater hwn. Nododd y blaenoriaethau tymor byr a chanolig yn ogystal, yn cynnwys cwblhau'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26, paratoi'r farn archwilio flynyddol erbyn mis Mehefin 2026, ymgynghori ar y strategaeth ar gyfer 2026/27 a bwrw 'mlaen â'r Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd. Mae'r blaenoriaethau tymor hwy yn cynnwys cwblhau asesiad cydymffurfiaeth llawn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau Archwilio Mewnol Byd Eang newydd yn 2026/27.

Ystyriodd y pwyllgor y lefel Sicrwydd Cyfyngedig a roddwyd yn sgil yr ail adolygiad dilynol o'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a chwestiynodd y cynnydd hyd yma i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y tîm Archwilio Mewnol. Gofynnodd yr aelodau am sicrwydd bod cynllun ar waith i sicrhau bod y materion sy'n weddill yn cael eu datrys yn llawn a bod gwelliannau'n cael eu cyflwyno.

Fe wnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Tai gydnabod bod y cynnydd yn arafach na'r disgwyl. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud, yn cynnwys cryfhau'r rheolaethau'n gysylltiedig â thaliadau er mwyn atal taliadau dyblyg: Fodd bynnag, ychydig iawn o gynnydd sydd wedi cael ei wneud gyda phrosesau gweinyddol, gyda dim ond un swyddog yn gwneud gwaith a oedd yn arfer cael ei gwblhau gan dîm o weithwyr. Cadarnhaodd bod y swyddog bellach yn derbyn mwy o gymorth gweinyddol a goruchwyliaeth. Er nad oedd y cynnydd cystal â'r disgwyl, pwysleisiodd bod y ffocws ar sicrhau bod y gwelliannau gweinyddol yn cael effaith. Dywedodd y byddai'r adolygiad dilynol ym mis Medi yn cadarnhau hyn.

Mewn ymateb i ymholiadau pellach gan y pwyllgor, eglurodd y Pennaeth Archwilio a risg bod y tîm wedi ymgynghori â Phrif Archwilydd Mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o'r adolygiad dilynol o drefniadau Diogelu, gan mai un o'r materion a godwyd oedd diffyg sicrwydd ynglyn â gweithrediad effeithiol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Cyngor Sir Ddinbych yw'r

awdurdod lletya ar gyfer y Bwrdd ac mae'r protocol ar gyfer trefniadau rhanbarthol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod lletya archwilio materion rhanbarthol. Mae Prif Archwilydd Mewnol Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau bod disgwyl iddynt ddarparu'r sicrwydd hwn yn y misoedd nesaf. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg hefyd y bydd yr archwiliad Rheoli Asedau TG, sydd wedi cael ei ohirio ar gais y Prif Swyddog Digidol, yn cychwyn ym mis Mehefin neu Orffennaf 2026. Dywedodd y byddai'r pwyllgor yn cael ei ddiweddaru yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2026.

**Penderfynwyd nodi canlyniad y gwaith Archwilio Mewnol, y sicrwydd a ddarparwyd a'r blaenoriaethu wrth symud ymlaen.**

## 8. MATERION, RISGIAU A CHYFLEOEDD ARCHWILIO MEWNOL SYDD ANGEN SYLW

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn rhoi diweddariad ar statws y materion, risgiau a chyfleoedd sy'n weddill a godwyd gan y tîm Archwilio Mewnol, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd diweddariad statws manwl ar y materion, risgiau a chyfleoedd sylweddol ar gael yn Atodiad 1.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Archwilydd, a nododd bod 78 o gamau gweithredu'n parhau i fod angen sylw ar 31 Mawrth 2026. Mae 6 yn "sylweddol" (ambr) a 72 yn "gymedrol" (melyn). Does dim camau gweithredu "critigol". Mae rheolwyr wedi cwblhau 77% o'r camau gweithredu a gytunwyd ac mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi dilysu 76% ohonynt. Mae'r 1% sydd heb gael eu dilysu'n ffurfiol eto yn ymwneud â dau archwiliad - Rheoli Cyflenwyr TG a Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd. Bydd adolygiadau dilynol o'r archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn ystod chwarter cyntaf 2026/27.

Mae tri cham gweithredu'n gysylltiedig â'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn weddill ac maent yn cael eu trafod yn fanylach yn y Diweddariad Archwilio Mewnol. Nid yw nifer o gamau gweithredu yn dilyn archwiliadau diweddar wedi cyrraedd eu dyddiad cwblhau eto, fel y nodir ym mharagraff 16 yn yr adroddiad. Nid oes unrhyw faterion, risgiau a chyfleoedd sylweddol cyn 2024/25, sy'n dangos bod rheolwyr yn rhoi blaenoriaeth i ddatrys materion risg uwch.

Cyfeiriodd y Prif Archwilydd at Atodiad 1 sy'n crynhoi hynt y chwe mater a risg sylweddol sy'n weddill a nododd bod adolygiadau dilynol ar y gweill ac y bydd y pwyllgor yn cael diweddariad yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2026.

Wrth ystyried yr adroddiad, nododd y pwyllgor ei bod hi'n bwysig bod rheolwyr yn cymryd perchnogaeth o'r risgiau a godwyd gan y tîm Archwilio Mewnol. Yn y cyd-destun hwn cyfeiriwyd at yr ail adolygiad dilynol o'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod sydd wedi derbyn barn sicrwydd cyfyngedig oherwydd y cynnydd araf wrth fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Roedd yr aelodau'n dymuno gwybod p'un a oedd y Gwasanaeth Tai, ym marn y tîm Archwilio Mewnol, wedi derbyn perchnogaeth lwyr o'r camau gweithredu a nodwyd nad ddylai'r tîm Archwilio fod yn gyfrifol am gynnal trydydd adolygiad dilynol. Fe wnaeth yr aelodau hefyd gwestiynu pa gamau pellach y gallai'r pwyllgor eu cymryd pe byddai'r cynnydd yn parhau i fod yn annigonol.

Cynghorodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod y Pennaeth Gwasanaethau Tai wedi cydnabod bod y cynnydd yn arafach na'r disgwyl. Cadarnhaodd, o dan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, bod rhaid i'r tîm Archwilio Mewnol ddilyn hynt a dilysu'r camau gweithredu a gytunwyd yn ffurfiol. Gan fod yr ail adolygiad dilynol wedi arwain at farn sicrwydd cyfyngedig, roedd rhaid i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai, yn unol â chylch gorchwyl y pwyllgor, ddarparu sicrwydd i'r pwyllgor wyneb yn wyneb. Pe byddai canlyniad yr adolygiad dilynol pellach ym mis Medi yn golygu bod angen sicrwydd pellach gan y

Pennaeth Gwasanaeth yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Rhagfyr, byddai'n rhaid i'r pwyllgor benderfynu ar unrhyw gamau pellach angenrheidiol ar yr adeg honno.

Fe wnaeth aelodau hefyd gwestiynu a yw'r diffyg adnoddau, yn enwedig cymorth gweinyddol, yn broblem ehangach neu fynych a pha opsiynau oedd ar gael i reolwyr i ail flaenoriaethu llwyth gwaith.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod yr arbedion effeithlonrwydd dros nifer o flynyddoedd wedi lleihau'r capasiti gweinyddol, a bod adnoddau a gwasanaethau ledled y Cyngor yn gorfod gwneud mwy gyda llai. Y Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am benderfynu sut i flaenoriaethu cyllideb y gwasanaeth. Er nad oedd yn meddwl bod tuedd gynyddol, nododd bod gan y Cyngor, fel awdurdod llai, nifer o swyddi un pwynt unigol o fethiant lle mae absenoldeb un swyddog yn cael effaith ar berfformiad a chanlyniadau.

Gan na fydd adroddiad ar y trydydd adolygiad dilynol arfaethedig o'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor tan fis Rhagfyr 2026, gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Medi. Cynghorwyd y pwyllgor y gellid cynnwys diweddariad ar y camau gweithredu'n gysylltiedig â'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn adroddiad y tîm Archwilio Mewnol ar y camau gweithredu sy'n weddill os na fydd yr adolygiad dilynol ffurfiol wedi cael ei gwblhau.

Dan yr amgylchiadau roedd yr aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol hefyd cael diweddariad llafar gan y Pennaeth Tai yng nghyfarfodydd y pwyllgor ym mis Mehefin a Gorffennaf er mwyn edrych ar y cynnydd wrth fynd i'r afael â'r camau gweithredu sy'n weddill. Fe wnaethant ofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth fynychu i'r perwyl hwn.

**Penderfynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn bod y cynnydd wrth fynd i'r adael â'r materion, risgiau a chyfleoedd Archwilio Mewnol yn foddhaol ar y cyfan, a nodi pryder ynglyn â'r ail adolygiad dilynol o'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae'r pwyllgor yn dymuno osgoi trydydd adolygiad dilynol a nodwyd ei gais am ddiweddariadau gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai ynglyn â chwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill.**

**Cam Gweithredu - y Pennaeth Archwilio Mewnol i ofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai roi diweddariad i'r pwyllgor ar hynt y camau gweithredu sy'n weddill yn gysylltiedig â'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yng nghyfarfodydd y pwyllgor ym mis Mehefin a Gorffennaf**

**9. ARCHWILIO MEWNOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN - CYNLLUN ARCHWILIO 2026**

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru a oedd yn amlinellu ei raglen archwilio ariannol a pherfformiad arfaethedig ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2026/27 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynodd Rachel Freitag, Arweinydd Archwilio Ariannol Archwilio Cymru drosolwg o'r archwiliad arfaethedig o ddatganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2025/26. Cadarnhaodd lefel perthnasedd yr archwiliad a rhoddodd amlinelliad o'r prif feysydd risg ynghyd â'r ymateb arfaethedig. Bydd yr archwiliad ariannol hefyd yn ymdrin ag ardystio grantiau ac adolygu ffurflen ardystio cyfrifon y Llywodraeth Cyfan. Nododd bod y gwaith o ardystio cymhorthdal budd-dal tai 2024/25 yn mynd rhagddo. O ganlyniad, mae'r ffi ardystio grantiau o £67,000 ar gyfer 2025 yn is na'r amcan a nodwyd yn y cynllun archwilio'r llynedd ac mae'n adlewyrchu'r asesiad diwygiedig o'r gost o gwblhau'r gwaith.

Cyflwynwyd manylion y ffi archwilio ar gyfer 2026, cyfanswm o £440k - cynnydd o 4.7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol sy'n is na'r cynnydd cyfartalog o 5.3% a nodir yn y Cynllun Ffioedd oherwydd cymysgedd sgiliau diwygiedig ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol. Cafodd yr aelodau hefyd wybod am yr amserlen archwilio sy'n ceisio ardystio'r cyfrifon erbyn

diwedd mis Medi 2026, fis yn gynharach na'r flwyddyn flaenorol a dychwelyd i'r cylch archwilio a oedd yn bodoli cyn y pandemig. Cadarnhaodd bod y gwaith archwilio mewnol dros dro wedi cael ei gwblhau eleni, gan weithio â Thîm Ariannol y Cyngor, i leihau'r llwyth gwaith yn ystod y cam archwilio terfynol.

Rhoddodd Lora Williams, Arweinydd Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru amlinelliad o'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2026/27 sy'n cynnwys tri adolygiad arfaethedig - trefniadau rheoli risg y Cyngor, effeithlonrwydd canlyniadau prosiectau'n gysylltiedig â Chynllun y Cyngor; a rheoli a datblygu eiddo buddsoddi'r Cyngor. Bydd y gwaith yn asesu p'un a yw'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n economaidd, effeithlon ac effeithiol ac mae disgwyl i'r archwiliad gael ei gwblhau erbyn Mehefin 2027.

**Penderfynwyd nodi'r gwaith archwilio arfaethedig a ffioedd cysylltiedig ar gyfer 2026.**

## 10. ARCHWILIO MEWNOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN - RHEOLI PERFFORMIAD AILGYLCHU

Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Cymru ar ganlyniadau ei adolygiad o'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli ei wasanaeth ailgylchu i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cara Owen, Archwilio Cymru a nododd bod yr archwiliad yn canolbwyntio ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer deall ei berfformiad ailgylchu, cynllunio strategol a gweithredolo a chyfathrebu a gwerth am arian. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau clir a chadarn ar waith i reoli ei berfformiad ailgylchu yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau strategol a gweithredol diweddar i ymateb i dargedau ailgylchu, adroddiadau cyfnodol a manwl i helpu'r Cyngor ddeall ei berfformiad ailgylchu a meincnodi; cynnwys trigolion yr ynys yn ei ymgais i sicrhau dyfodol diwastraff, ac arolygu canlyniadau a gwariant contractau.

Cadarnhaodd nad oedd unrhyw argymhellion gan fod y Cyngor wedi darparu digon o dystiolaeth bod ei drefniadau'n effeithiol. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad yn nodi y bydd sicrhau gwerth am arian yn dibynnu ar ba mor effeithiol yw ymyraethau yn y dyfodol i wella cyfraddau ailgylchu a lleihau'r risg o ddirwyon posib am fethu targedau cenedlaethol.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn sicrwydd o ganfyddiadau'r archwiliad o'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad ei wasanaeth ailgylchu.**

## 11. ADRODDIAD YSWIRIANT BLYNYDDOL 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Yswiriant Blynyddol ar gyfer 2024/25 i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad blynyddol yn amlinellu yswiriant presennol y Cyngor, gweithgareddau'n gysylltiedig â hawliadau a thueddiadau a heriau allweddol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg a nododd bod y Cyngor yn defnyddio cyfuniad o hunan-yswiriant ac yswiriant allanol i fynd i'r afael â goblygiadau ariannol y risg. Er mwyn cwrdd ag elfen hunain yswiriant unrhyw hawliad, mae gan y Cyngor Gronfa Yswiriant mewn cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi a Chyfrif Darpariaeth Yswiriant. Mae'r gronfa'n cael ei hadolygu'n flynyddol i sicrhau ei bod yn ddigonol i gwrdd â'r rhwymedigaethau heb fod â gormod o adnoddau. Gan weithio â'r broceriaid yswiriant, Marsh, cynhaliwyd ymarfer tendro cynhwysfawr yn 2024 a dyrannwyd y contract 3 blynedd i Zurich Municipal, y darparwr cyfredol. Amlygodd y broses dendro bod elfennau o'r symiau yswiriedig a ddarparwyd wedi dyddio, a arweiniodd at adolygiad cynhwysfawr i ailbrisio symiau adeiladu wedi'u hyswirio yn ystod blwyddyn gyntaf y polisi er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol. Yn dilyn adnewyddu'r polisi ym mis Hydref 2025, cynyddodd premiymau allanol

oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau yn y sector cyfan a pherfformiad hawliadau, yn enwedig yn gysylltiedig ag eiddo.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod hawliadau, at ei gilydd, yn sefydlog a bod cyfraddau gwrthod yn gadarn, er bod pwysau mewn meysydd penodol. Mae hawliadau atebolrwydd cyhoeddus yn gyson ac mae cyfraddau gwrthod yn uchel a setliadau'n gymedrol, er bod 71% o hawliadau 2025/26 heb eu cwblhau. Mae hawliadau modur yn sefydlog, ac roedd 53% o hawliadau yn ystod 2025/26 oherwydd bod gyrwyr y Cyngor ar fai; ac i liniaru'r risg mae gwrthdrawiadau'n cael eu monitro'n barhaus ac mae asesiadau'n cael eu cynnig i yrwyr. Mae nifer yr hawliadau eiddo, a'u costau, wedi bod yn hynod gyfnewidiol a'r maes hwn sy'n cynrychioli amlygiad ariannol mwyaf y Cyngor. Difrod stormydd a thanau mewn tai yw'r ffactorau amlycaf. Er bod nifer yr hawliadau eiddo yn 2025/6 wedi lleihau'n sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd y difrod a brofwyd, yn ogystal â chyfanswm costau'r hawliadau, yn sylweddol.

Amlygodd y risgiau a'r heriau cynyddol, yn cynnwys effaith newid hinsawdd, gofynion y SATC 2023 newydd, chwyddiant a hanes hawliadau'r Cyngor, sydd yn debygol o gynyddu'r premiymau yn y dyfodol. Bydd yn hanfodol dangos i'n hyswirwyr ein bod wedi dysgu gwersi yn dilyn hawliadau sylweddol a bod gan y Cyngor reolaethau ar waith i liniaru'r risgiau er mwyn lleihau cynnydd yn y premiwm yn y dyfodol.

Roedd y pwyllgor yn awyddus i gael gwybod sut y caiff symiau cychwynnol hawliadau yswiriant posib eu cyfrifo wrth osod y gyllideb flynyddol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod gan y Cyngor gyllideb ar gyfer premiymau yswiriant a symiau cychwynnol posib sydd yn cael ei gefnogi â darpariaeth ar y fantolen sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r ddarpariaeth yn cynyddu neu ostwng yn unol â gwerth hawliadau dyledus a phan fo rhaid addasu premiymau. Nododd mai'r premiymau yw'r brif gost tra bo'r ddarpariaeth yn amrywio bob blwyddyn yn unol â'r hawliadau.

Hysbyswyd y pwyllgor hefyd, gan mai Ynys Môn yw'r unig awdurdod yn y rhanbarth sy'n cyhoeddi adroddiad yswiriant blynyddol, nad oes data meincnodi cymaradwy ar gael.

**Penderfynwyd nodi'r tueddiadau a mesurau lliniaru yn yr Adroddiad Yswiriant Blynyddol ar gyfer 2025/26.**

## 12. ADOLYGIAD O'R FLAEN RAGLEN WAITH AR GYFER 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, a oedd yn cynnwys y flaen raglen waith ar gyfer 2026/27 a oedd wedi'i diwygio i adlewyrchu'r newidiadau mwyaf diweddar, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd y rhaglen ddatblygu ar gyfer aelodau etholedig ar gael yn Atodiad B.

Fe wnaeth y Pennaeth Archwilio ar Risg atgoffa'r aelodau i gysylltu os oes ganddynt unrhyw ofynion hyfforddi penodol.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Flaen Raglen Waith ar gyfer 2026/27 yn cwrdd â chyfrifoldebau'r pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.**

**Mr Dilwyn Evans**
**(Cadeirydd)**

*Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf Mr Dilwyn Evans fel Cadeirydd ac aelod lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mynegodd ei ddiolch i'r holl aelodau a swyddogion am eu*

*cymorth a'u cefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd a nododd ei fod wedi bod yn brofiad gwerthfawr. Dymunodd yn dda i'r pwyllgor yn y dyfodol.*

*Yn dilyn y cyfarfod ffurfiol cynhaliwyd cyfarfod preifat rhwng aelodau'r pwyllgor a'r archwilwyr.*

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 25 Mehefin 2026 |
| **Pwnc:** | Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm Dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddaru cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

## 2. Argymhellion

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

## Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | 08/05/25 | 9 | Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i godi'r mater o ganllawiau polisi ar ddefnydd Deallusrwydd Artiffisial o fewn y Cyngor gyda'r Tîm Arweinyddiaeth. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Mae polisi wedi'i ddrafftio, a'i ddiweddaru'n ddiweddar yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Swyddog Diogelu Data. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried ac yn mabwysiadu pryd y gallent ddyrannu slot. | Ar y gweill. |
| | 26/06/25 | 4 | | | DIWEDDARIAD: Ystyriodd y Tîm Arweinyddiaeth y polisi drafft yn ei gyfarfod ar 17/06/25 ac wedi gofyn iddo gael ei adolygu ymhellach. | |
| | 03/02/26 | 3 | | | DIWEDDARIAD: Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd ar y polisi drafft, ei bod wedi penderfynu rhannu'r ddogfen wreiddiol yn ddau bolisi ar wahân - un sy'n cwmpasu defnydd cyffredinol o DA (e.e. ar gyfer ymholiadau) ac un arall sy'n mynd i'r afael â'r defnydd o DA o fewn systemau a phrosesau ffurfiol y cyngor. Mae'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth wedi adolygu'r ddau bolisi, a fydd yn cael eu hystyried eto gan y Tîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2026. | |
| | 14/05/26 | 5 | | | DIWEDDARIAD: Derbyniodd y Tîm Arweinyddiaeth y polisi DA ar 15/04/26 yn amodol ar fân ddiwygiadau. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth derfynol, mae trefniadau wedi'u gwneud i'r polisi gael ei lansio trwy borth polisi'r cyngor, lle mae'n ofynnol i staff ddarllen a derbyn polisïau gorfodol. Bydd y Tîm TG yn lansio ynghyd â chanllawiau ar ddefnyddio DA. | |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 26/06/26 | | | | DIWEDDARIAD: Mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi rhoi cymeradwyaeth derfynol i'r polisi. Mae grŵp gweithredol wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r tîm Digidol, y tîm Perfformiad a Moderneiddio, tîm y Gymraeg a Pholisi, Cyfathrebu, ac Adnoddau Dynol (gan gynnwys Hyfforddiant) er mwyn alinio'r lansiad polisi ag adnoddau, cyfathrebu a hyfforddiant perthnasol. Ar hyn o bryd yn aros am aliniad â'r elfennau hyfforddi, sy'n dibynnu ar ffactorau allanol. | |
| 29 | 30/09/25 | 5 | Y Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd i ddod â'r cynllun strategol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol tair blynedd wedi'i gwblhau, sy'n ymgorffori camau gweithredu SMART, i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol. | Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd | Bwriad i gyflwyno i gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026. | |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 | 04/12/25 | 8 | Cytunodd y pwyllgor bod adroddiad a chynllun gweithredu Diogelwch TGCh Ysgolion Uwchradd (Sicrwydd Cyfyngedig) yn cael eu hystyried yn fanwl yng nghyfarfod Gorffennaf 2026 yn dilyn adolygiad cynnydd yr Archwilio Mewnol a gofynnodd i Brif Swyddog Digidol y Cygor fynychu. | Pennaeth Archwilio a Risg / Prif Swyddog Digidol | Bwriad i gyflwyno i gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026. | |
| 34 | 14/05/26 | 8 | Pennaeth Archwilio Mewnol i ofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai ddiweddaru cyfarfodydd Mehefin a Gorffennaf y pwyllgor ar y cynnydd o ran cwblhau'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r DFG sy'n weddill. | Pennaeth Archwilio a Risg / Pennaeth Tai | | |

Tudalen 12

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 25 Mehefin 2026 / 24 Medi 2026 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025-26 – Adroddiad y Cadeirydd |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor adrodd i'r cyngor llawn ('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu') yn flynyddol ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y pwyllgor ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a fframweithiau rheolaeth fewnol y cyngor; trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol. (3.4.8.3.1)<br><br>Mae'n ofynnol hefyd i'r pwyllgor adrodd ar effeithiolrwydd y pwyllgor o ran cyflawni ei ddiben a'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno, gan gynnwys casgliad ar gydymffurfiaeth â Datganiad Sefyllfa Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) [1]. (3.4.8.3.2)<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofynion hyn ac mae'n allbwn allweddol i'r pwyllgor. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ymroddedig ac effeithiol yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn ac i roi sicrwydd annibynnol i 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol a chyfanrwydd y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu. Mae hefyd yn allweddol i gefnogi archwilio mewnol ac allanol effeithiol.

1.2. Gall y Cyngor Sir gymryd sicrwydd bod trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y cyngor wedi parhau'n gyffredinol effeithiol yn ystod 2025-26, wedi'u cefnogi gan farn archwilio mewnol ddiamod, barn archwilio allanol ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2024-25 a llythyr cadarnhaol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar y modd y mae'n trin cwynion.

[1] Mae Datganiad Sefyllfa'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022) yn nodi barn CIPFA am rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.

1.3. Cyflawnodd y pwyllgor ei brif gyfrifoldebau drwy saith cyfarfod, gan gynnal goruchwyliaeth effeithiol dros lywodraethu, adrodd ariannol, rheoli'r trysorlys, archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg, gweithgarwch gwrth-dwyll a thrin cwynion.

1.4. Roedd cryfderau allweddol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys craffu amserol ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Datganiad Cyfrifon, monitro gweithredol o argymhellion archwilio mewnol, cyfrifoldebau cryfach i'r pwyllgor dros gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a sicrwydd cadarnhaol ar draws sawl maes rheoli corfforaethol. Cadwodd y pwyllgor hefyd ffocws ar risgiau newydd a rhai oedd yn datblygu, gan gynnwys seiberddiogelwch, capasiti llywodraethu gwybodaeth, caffael a chomisiynu, rheoli risg strategol, a chyflawni rhai camau gwella a oedd wedi'u gohirio.

1.5. Yn gyffredinol, mae'r pwyllgor yn fodlon ei fod wedi cyflawni ei gylch gorchwyl yn effeithiol ac wedi darparu sicrwydd annibynnol i'r cyngor, gan gydnabod ar yr un pryd fod angen sylw rheolaethol parhaus yn y meysydd penodol a nodwyd er mwyn cynnal a chryfhau trefniadau llywodraethu.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2025-26 cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Sir ar 24 Medi 2026.

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025-26

Mehefin 2026






## Adroddiad y Cadeirydd

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys


Cyflwyniad 1
Cyfansoddiad a threfniadau 2
Trefniadau Atebolrwydd 3
Llywodraethu 3
Rheoli Trysorlys 4
Gwerth am arian 4
Fframwaith sicrwydd 5
Rheoli risgiau 6
Atal twyll a llygredd 6
Archwilio Mewnol 7
Archwilio Mewnol 8
Adroddiadau ariannol 9
Delio â chwynion 10
Adroddiad hunanasesu 10
Asesiad perfformiad gan banel 11
Archwiliad gan yr Archwilydd Cyffredinol 11
Atodiad A – Amlder cyfarfodydd a phresenoldeb 12
Atodiad B – Hyfforddiant Aelodau Cyfredol 2022-26 a Gwybodaeth a Rannwyd 13
Atodiad C – Crynodeb o Ganlyniadau Cyfarfodydd 15




# Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethiant da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn (3.4.8.1.1).

2. Ei bwrpas yw rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor llawn *("y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant")* ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol a chyfannedd y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu (3.4.8.1.2).

3. Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, mae canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) [1] yn datgan y dylai pwyllgorau archwilio adrodd yn rheolaidd ar ei waith 'i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant', er mwyn rhoi sicrwydd ei fod yn cyflawni ei bwrpas, ei fod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau a'i fod yn gallu dangos ei effaith.

4. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad hwnnw drwy asesu gweithgareddau'r pwyllgor yn ystod 2025-26 yn erbyn ei gylch gorchwyl, sydd wedi'i ymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor, fersiwn 2.101 a ddiweddarwyd ar 27 Ebrill 2026. Mae cyfeiriadau at rannau perthnasol y Cyfansoddiad mewn cromfachau.

[1] Datganiad Sefyllfa CIPFA: Mae Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022) a'r canllawiau cysylltiedig yn nodi barn CIPFA ynglŷn â rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.

## Cyfansoddiad a threfniadau

5. Yn ystod y flwyddyn, roedd y pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a phedwar aelod lleyg, yn unol â'i gylch gorchwyl.

6. Newidiodd aelodaeth y pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Gadawodd y Cynghorydd Ieuan Williams y pwyllgor er mwyn ymuno â'r Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2025. Yn drist, bu farw'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes cyn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2025. Ymunodd Aelodau Lleyg newydd â'r pwyllgor ym mis Medi 2025, sef Dr Geraint Jones a Mr William Maund, ac ailymunodd y Cynghorydd Gwilym O Jones ym mis Rhagfyr 2025, er mwyn llenwi seddi gwag. (3.4.8.2.2).

7. Mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, hyd y gellir, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor (3.4.8.2.2) ac roedd yn bresennol ym mhob un o'r saith cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd yn ystod 2025-26. (Atodiad A).

8. Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelod lleyg ac felly nid oedd yn gynghorydd etholedig nac yn aelod o grŵp oedd yn ffurfio rhan o Bwyllgor Gwaith y cyngor (3.4.8.2.3).

9. Cynhaliodd y pwyllgor ei fusnes yn anwleidyddol trwy gydol y flwyddyn a chadwyd at reolau cydbwysedd gwleidyddol (3.4.8.2.1).

10. Fe wnaeth pob aelod ddatgan buddiannau mewn cyfarfodydd pan oedd hynny'n briodol (3.4.8.2.2).

11. Yn ystod y flwyddyn, pan alwyd ar swyddogion i fynychu cyfarfod pwyllgor ar gais aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fe wnaeth pawb hynny (3.4.8.2.4).

12. Mae'n ofynnol i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn (3.4.8.2.5). Cyfarfu'r pwyllgor yn ffurfiol (cyfarfodydd hybrid) ar saith achlysur, yn cynnwys un cyfarfod arbennig er mwyn ystyried y Datganiad Cyfrifon drafft 2024-25, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2024-25 ac adroddiad yr Archwilydd Allanol ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar gyfer 2024-25 (adroddiad ISA 260).

13. Roedd presenoldeb yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2025-26 yn dda, gyda phresenoldeb o 75% ar gyfartaledd (Atodiad A).

14. Lle bo angen, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 wedi darparu cyngor ac roedd ganddo fynediad uniongyrchol a dilyffethair i'r pwyllgor (3.4.8.2.7).

15. Ni fu'n rhaid i'r archwilwyr allanol na mewnol ofyn i'r Cadeirydd ystyried unrhyw fater y dylid ei ddwyn i sylw'r cyngor ym marn yr archwilwyr (3.4.8.2.9).

16. Derbyniodd aelodau presennol hyfforddiant parhaus a gwybodaeth am ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil (Atodiad B) (3.4.8.2.10).

17. Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn cynnwys holl swyddogaethau craidd y pwyllgor.

18. Ystyriwyd newidiadau i'w gylch gorchwyl a'u cymeradwyo yn:

- Rhagfyr 2025 - trosglwyddo'r hawl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y cyngor yn derfynol.
- Chwefror - trosglwyddo'r hawl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y cyngor yn derfynol.
- Mai 2026 - newidiadau mewn perthynas â chyfnod aelodau lleyg yn y swydd, gan ddileu'r cyswllt â'r tymor gwleidyddol.

# Trefniadau Atebolrwydd

19. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adrodd i'r Cyngor llawn ('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant') ac mae ei rôl yn gwbl ar wahân i rôl y pwyllgorau sgriwtini. Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw ceisio sicrwydd bod systemau rheoli mewnol y cyngor yn gweithio, a bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau. (3.4.8.1.4).

20. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn ('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant') ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol y cyngor, ei drefniadau adrodd ariannol, a'i swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol (3.4.8.3.1). Y mae hefyd yn bodloni'r gofyniad i adrodd ar effeithiolrwydd y Pwyllgor o ran cyflawni'i bwrpas a'r cylch gorchwyl a gytunwyd. (3.4.8.3.2).

21. Bu i'r pwyllgor ystyried ei fusnes yn gyhoeddus, ac eithrio, lle bo'n briodol, pan gyfarfu'n breifat i ystyried eitemau o dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[23].

22. Yn ystod 2025-26, ystyriwyd dwy eitem gan y Pwyllgor mewn sesiwn breifat:

    - Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol 2024-25 (Medi 2025)

23. Cyflwynwyd y Profion Budd y Cyhoedd priodol ac fe wnaeth y pwyllgor eu derbyn.

24. Cyhoeddwyd rhaglenni ac adroddiadau yn unol ag amserlenni statudol ac roeddent ar gael i'w harchwilio (3.4.8.3.3).

25. Mae'r pwyllgor yn cadw log gweithredoedd er mwyn monitro cynnydd gweithredoedd / penderfyniadau a gytunwyd ac a gawsant eu cwblhau ai peidio. Mae'r log yn cael ei ddiweddaru a'i ystyried gan y Pwyllgor ym mhob cyfarfod.

26. Gall y Pwyllgor gyfeirio materion allweddol at bwyllgorau eraill y cyngor neu'r Tîm Arweinyddiaeth os yw'n barnu bod hynny'n briodol. Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

# Llywodraethu

27. Fe wnaeth y Pwyllgor adolygu ac asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y cyngor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft, a drafodwyd ganddo yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2025 (3.4.8.4.2/3). Roedd y drafodaeth yn rhoi sylw i nifer o agweddau, gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi casgliadau ynghylch rheoli perfformiad, y dangosyddion statws Coch/Ambr/Gwyrdd (CAG) ar gyfer materion llywodraethu a chyfraddau cadw staff ar draws y cyngor. Penderfynodd y pwyllgor gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft a fyddai'n ffurfio rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2024-25.

28. Derbyniodd y pwyllgor fersiwn derfynol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ym mis Tachwedd 2025 ac yn dilyn trafodaeth bellach ar dargedau cwblhau ar gyfer materion llywodraethu a nodwyd, penderfynodd argymell y datganiad i'r Cyngor llawn fel arfarniad teg o drefniadau llywodraethu'r cyngor. (3.4.8.4.1).

29. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026, derbyniodd y pwyllgor adroddiad oedd yn amlinellu cynnydd yn erbyn y meysydd gwella a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac adroddiadau Hunanasesu a Pherfformiad (Llesiant) ar gyfer 2024-25. Yn dilyn

Eitemau o dan Atodlen 12A, Paragraff 14: Gwybodaeth yn gysylltiedig â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth honno) a Pharagraff 18: Gwybodaeth yn gysylltiedig ag unrhyw gamau a gymerwyd, neu y byddir yn eu cymryd, mewn cysylltiad ag atal, ymchwilio neu erlyn trosedd.

trafodaeth, penderfynodd y pwyllgor dderbyn yr ymatebion a'r diweddariadau fel adlewyrchiad cywir o waith y Cyngor yn erbyn y meysydd gwella a nodwyd (3.4.8.4.2).

30. O dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mae'n ofynnol iddo adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu drefniadau cydweithio sylweddol (3.4.8.4.4) ac adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth (3.4.8.8.1).

31. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2024-25 i'r pwyllgor yn ei gyfarfod ym Mehefin 2025, i ddarparu sicrwydd bod corff penodedig yn mynd ati'n rhagweithiol i graffu a derbyn sicrwydd o ran llywodraethu partneriaethau a threfniadau cydweithio sylweddol. (3.4.8.4.4).

32. Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y pwyllgor gwestiynau mewn perthynas â threfniadau i lenwi swyddi gwag ar gyfer aelodau cyfetholedig ar y pwyllgor safonau a'i allu i archwilio materion mewn digon o fanylder, o ystyried y llwyth gwaith trwm a'r rhaglenni llawn. Ar ôl derbyn sicrwydd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â'r materion a drafodwyd, penderfynodd y pwyllgor nodi'r adroddiad.

33. Yn ei gyfarfod ym Mehefin 2025 gofynnwyd i'r pwyllgor hefyd enwebu aelod lleyg i wasanaethu ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Penderfynodd y pwyllgor enwebu Mr William Parry i wasanaethu yn y rôl hon.

## Rheoli Trysorlys

34. Mae'r Cyngor llawn wedi enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys yn cael eu craffu'n effeithiol (3.4.8.5.1). Yn unol â hynny, mae'r pwyllgor yn cyflawni rôl craffu yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, cyn i'r Cyngor llawn eu cymeradwyo (3.4.8.5.2).

35. Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2025, adolygodd y pwyllgor yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2024-25 oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau benthyca a buddsoddi'r cyngor yn ystod y flwyddyn, gan amlygu perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y cyngor.

36. Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y pwyllgor nodi'r adroddiad a'i anfon ymlaen at y Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau ychwanegol (3.4.8.5.1/2/3/4).

37. Trafododd y pwyllgor yr adolygiad canol blwyddyn o weithgareddau a sefyllfa rheoli'r trysorlys yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y tebygolrwydd o wario'r gyllideb gyfalaf yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn. Penderfynodd y pwyllgor nodi a derbyn yr adolygiad canol blwyddyn (3.4.8.5.1/2/3/4).

38. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a nodi'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2026-27. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar opsiynau ar gyfer rhai benthyciadau presennol, monitro perfformiad y cyngor yn erbyn dangosyddion darbodus a thrysorlys, y gyllideb isafswm darpariaeth refeniw (MRP) ar gyfer 2026-27, yr achos sylfaenol ar gyfer gwariant cyfalaf ac adolygiad o'r contract ymgynghorol ar gyfer rheoli'r trysorlys (3.8.4.5.1/4).

## Gwerth am arian

39. Mae'r pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau cadarn i wneud yn siŵr bod y cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau, a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth am arian ardderchog (3.4.8.6.1).

40. Adolygodd y pwyllgor ddull cyffredinol y cyngor o ddarparu gwerth am arian wrth adolygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft y Cyngor (3.4.8.6.2) yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2025.

41. Fe wnaeth y pwyllgor ystyried Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2025, a sicrwydd ac asesiadau o effeithiolrwydd trefniadau'r cyngor ar gyfer sicrhau gwerth am arian (3.4.8.6.3) yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026. Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r pwyllgor fod Archwilio Cymru wedi cwblhau gwaith yn ystod 2024-25 i fodloni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i ystyried a oedd y cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau a'i fod wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, roedd Archwilio Cymru wedi cwblhau prosiectau penodol, sef adolygiad o Reolaeth Strategol y cyngor o Falansau ac Arian wrth Gefn, yn ogystal â'i Drefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau.

42. Wrth asesu a oedd y cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian, cyfeiriodd Archwilio Cymru at ei waith ar ddatganiadau ariannol 2024-25, pan roes yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor.

43. Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd fod Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y cyngor wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod, ac â gwybodaeth yr Archwilydd am yr Awdurdod.

44. Penderfynodd y pwyllgor nodi Crynodeb Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2025 ac asesiad o pha un a oedd y cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian.

## Fframwaith sicrwydd

45. Mae cael trosolwg o fframwaith sicrwydd y cyngor yn cynorthwyo'r pwyllgor i gymeradwyo'r strategaeth archwilio mewnol ar sail risg. Mae hefyd yn helpu i sicrhau eglurder ynghylch pa sicrwydd a roddir, a bod cyfrifoldeb am ddarparu sicrwydd yn cael ei ddyrannu'n glir gan osgoi dyblygu gwaith (3.4.8.7.1/2).

46. Yn ogystal â sicrwydd ynglŷn ag archwilio mewnol ac allanol, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, derbyniodd y pwyllgor adroddiadau gan ddarparwyr sicrwydd llinell gyntaf ac ail linell, fel a ganlyn. (3.4.8.7.1).

47. Derbyniodd y Pwyllgor yr **Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2024-25** yn ei gyfarfod ym Medi 2025. Edrychwyd ar nifer o faterion yn ystod y drafodaeth, gan gynnwys yr achosion sydd wrth wraidd digwyddiadau iechyd a diogelwch, y defnydd o ddata digwyddiadau i nodi materion hyfforddi, mireinio'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer iechyd a diogelwch 2025-26, rhesymau dros y gostyngiad yn yr adroddiadau RIDDOR, monitro perfformiad yn ystod y flwyddyn, cofnodi digwyddiadau'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a chynlluniau diogelwch ar gyfer gwasanaethau penodol. Penderfynodd y pwyllgor dderbyn yr adroddiad, gan dderbyn sicrwydd fod mesurau rhesymol ar waith i reoli risgiau iechyd a diogelwch i lefel dderbyniol. Croesawodd y pwyllgor hefyd fwriad y cyngor i lunio cynllun Iechyd a Diogelwch strategol tair blynedd a gofynnodd i'r cynllun gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r pwyllgor ar ôl ei gwblhau (3.4.8.7.3).

48. Yn yr un cyfarfod derbyniodd y pwyllgor yr **Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol 2024-25**, mewn sesiwn breifat. Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o'r materion seiberddiogelwch sy'n wynebu'r cyngor a'r camau a gymerwyd i oresgyn yr heriau hyn, ymdrin â rhybuddion diogelwch a sut y cawsant eu datrys, ynghyd â phrosiectau seiberddiogelwch cyfredol (3.4.8.7.3).

49. Codwyd nifer o bwyntiau i'w trafod gan y pwyllgor, gan gynnwys gofynion o ran adnoddau a chyfyngiadau sy'n effeithio ar ymdrechion seiberddiogelwch, tueddiadau parhaus o ran bygythiadau seiber, allanoli cyfleoedd fel modd o leihau pwysau tymor hir ar y cyngor, y gydberthynas rhwng buddsoddi mewn seiberddiogelwch a lleihau effaith risgiau, darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth seiber, achrediad PSN a pholisïau a dulliau gweithredu mewn perthynas â chyfrineiriau. Penderfynodd y pwyllgor nodi'r adroddiad ac roedd yn derbyn bod

gweithgareddau'n gysylltiedig â seiberddiogelwch yn rhoi sylw priodol i'r risg a blaenoriaethau'r cygor.

50. Ystyriodd y pwyllgor **Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) 2024-25** ym mis Rhagfyr 2025 a oedd yn darparu datganiad y SIRO a throsolwg o gydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion cyfreithiol a chodau ymarfer perthnasol wrth ymdrin â gwybodaeth gorfforaethol (3.4.8.7.3).

51. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar berfformiad o ran ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ymyrraeth a dargedir a hyfforddiant ar gyfer swyddogion Rhyddid Gwybodaeth a mesurau arfaethedig i fonitro cydymffurfiaeth gwasanaethau â rhwymedigaethau statudol yn fwy manwl. Penderfynodd y pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi argymhellion y SIRO mewn perthynas â'r ddarpariaeth hyfforddiant a chanllawiau, monitro perfformiad ac asesiadau o gynlluniau cyhoeddi gwasanaethau.

52. Derbyniodd y pwyllgor yr **Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion 2024-25** yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026. Roedd yr adroddiad yn amlinellu materion llywodraethu gwybodaeth allweddol mewn perthynas ag ysgolion Ynys Môn ar gyfer y cyfnod. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y cynllun hirdymor ar gyfer sicrhau capasiti yn y rôl Swyddog Diogelu Data ysgolion, prinder data i dystiolaethu allbynnau, sydd yn creu heriau o ran mesur cynnydd neu welliant, a diffyg risgiau mesuredig yn y wybodaeth a gyflwynwyd. (3.4.8.7.3).

**53.** Mynegodd aelodau'r pwyllgor bryderon ynghylch cadernid y trosolwg presennol oherwydd y trefniadau dros dro oedd ar waith ar gyfer y rôl Swyddog Diogelu Data ysgolion. Ar ôl derbyn sicrwydd ynghylch y materion a drafodwyd, penderfynodd y pwyllgor nodi'r sicrwydd a ddarparwyd gan yr adroddiad, ar yr amod ei bod yn glir fod y sicrwydd yn ymwneud â chyfnod dros dro, ac y byddai cefnogaeth ychwanegol yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

54. Fe wnaeth y pwyllgor ystyried yr **Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2025-26** yn ei gyfarfod ym mis Mai 2026. Roedd yr adroddiad yn amlinellu trefniadau yswiriant presennol y cyngor, gweithgareddau'n gysylltiedig â hawliadau a thueddiadau a heriau allweddol. Yn dilyn trafodaethau ynghylch dulliau cyfrifeg ar gyfer ymdrin â gordaliadau hawliadau yswiriant wrth osod cyllideb, risgiau a heriau yswiriant presennol, gan gynnwys effaith newid hinsawdd, a gwybodaeth feincnodi ranbarthol cyfyngedig, penderfynodd y pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad (3.4.8.7.3).

## Rheoli risgiau

55. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu trefniadau rheoli risg o fewn y Cyngor (3.4.8.8.1).

56. Ystyriwyd y Datganiad Polisi Rheoli Risg a'r Canllawiau Rheoli Risg atodol diwygiedig gan y pwyllgor ym mis Rhagfyr 2025. Cyflwynwyd diweddariad i'r pwyllgor hefyd ar y gwaith sy'n mynd rhagddo â Zurich Risk Solutions, a gomisiynwyd i weithio gyda'r cyngor ar adolygiad cyflawn o'i drefniadau rheoli risg. Penderfynodd y pwyllgor nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd fel rhan o'r adolygiad cyflawn o'r fframwaith rheoli risg a'r gofrestr risgiau strategol (3.4.8.8.1).

57. Ym mis Chwefror 2026, derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad oedd yn cynnwys y gofrestr risgiau strategol ddiwygiedig, ar ôl cynnal adolygiad cynhwysfawr yn 2025. Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn, yn ogystal â sgorio risgiau a newidiadau yn y tebygolrwydd a'r effaith rhwng risgiau cynhenid a gweddilliol, penderfynodd y pwyllgor nodi'r gwaith a gyflawnwyd fel rhan o'r adolygiad llawn o'r gofrestr risgiau strategol. (3.4.8.8.3).

## Atal twyll a llygredd

58. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2025, ystyriodd y Pwyllgor **Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2024-25** y Pennaeth Archwilio a Risg (3.4.8.9.4/5/6). Roedd yr adroddiad yn amlinellu gweithgareddau a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn

ystod y flwyddyn er mwyn lleihau’r risg bod twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn digwydd o fewn y cyngor ac yn ei erbyn.

59. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at weithgareddau i ymladd twyll, cynnydd wrth wireddu’r cynllun cyflawni atal twyll, yn ogystal â chanlyniadau Offeryn Adrodd Twyll y cyngor a lansiwyd ym mis Tachwedd 2024 (3.4.8.9.2/3).

60. Yn yr un cyfarfod, adolygodd y pwyllgor Ganlyniadau’r Fenter Twyll Genedlaethol - adroddiad cynnydd 2024-26, a oedd yn nodi’r canlyniadau diweddaraf o’r Fenter Twyll Genedlaethol mewn perthynas â Chynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor, Budd-dal Tai, rhestrau aros Tai a thenantiaethau, Bathodyn Glas, Credydwyr a’r Gyflogres. Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd y pwyllgor faterion yn ymwneud ag osgoi premiwm y Dreth Gyngor yn ogystal â dulliau o flaenoriaethu’r gwaith o adolygu pariadau’r Fenter Twyll Genedlaethol gyda mwy o sicrwydd (3.4.8.9.3).

61. Nododd y pwyllgor y sicrwydd a ddarparwyd gan y ddau adroddiad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau’r cyngor i leihau’r risg o dwyll.

62. Derbyniodd y pwyllgor nodyn briffio gan Archwilio Cymru ynglŷn â’r ymarfer Menter Twyll Genedlaethol diweddaraf yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025. Roedd yr adroddiad yn amlygu cynnydd cenedlaethol mewn perthynas â’r ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2024-25 a gwybodaeth leol ynghylch nifer y pariadau data a nodwyd ar gyfer y cyngor. Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â dosbarthiad pariadau risg uchel yn gysylltiedig â hawlio Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor, trefniadau ar gyfer adennill gostyngiadau anghymwys neu dwyllodrus a gallu’r adroddiad i feintioli colled ariannol y cyngor yn y maes hwn, penderfynodd y pwyllgor nodi’r sicrwydd a ddarparwyd (3.4.8.11.1/2/3 / 3.4.8.9.6).

## Archwilio Mewnol

63. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor (3.4.8.10.1). Trwy adolygu'r Strategaeth Archwilio Mewnol, yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a'r Siarter Archwilio Mewnol, yn ogystal â diweddariadau rheolaidd gan y Pennaeth Archwilio a Risg, mae'r pwyllgor wedi goruchwylio annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynoldeb y gwasanaeth archwilio mewnol, yn ogystal â chefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol a hyrwyddo'r defnydd effeithiol o archwiliadau mewnol o fewn fframwaith sicrwydd y cyngor (3.4.8.10.2).

64. Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025, fe wnaeth y pwyllgor ystyried yr **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25**, oedd yn cynnwys barn y Pennaeth Archwilio a Risg ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor, ynghyd â chrynodeb o’r gwaith sy’n cefnogi’r farn (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15 / 3.4.8.6.3). Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod hi, fel ‘prif swyddog archwilio’ Cyngor Sir Ynys Môn, o’r farn bod fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad wedi bod yn ddigonol ac effeithiol yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2025.

65. Yn dilyn trafod nifer o feysydd, gan gynnwys cyfyngiadau ar farn flynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a bod cyfrifoldeb cyffredinol am reolaethau mewnol cadarn yn nwylo rheolwyr, gwaith rhagweithiol mewn perthynas â thwyll yn gysylltiedig â phremiwm y Dreth Gyngor a pherfformiad o ran gwireddu grantiau cyfleusterau i’r anabl, nododd y pwyllgor yr adroddiad.

66. Fel rhan o’i hadroddiad blynyddol, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg ganlyniad yr hunanasesiad blynyddol oedd yn arfarnu cydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (3.4.8.10.11/13) ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025. Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed wrth fynd i’r afael â’r meysydd gwella a nodwyd.

67. Yn dilyn cyflwyno’r safonau archwilio newydd ar 1 Ebrill 2025, sef y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Gyhoeddus y DU, cwblhawyd hunanasesiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg yn erbyn y safonau newydd ym mis Mehefin 2025 er mwyn penderfynu beth

oedd angen ei newid i sicrhau fod y cyngor yn cydymffurfio ag egwyddorion y fframwaith newydd. Yn gyffredinol, oherwydd ymagwedd fodern y cyngor mewn perthynas ag archwilio mewnol, amlygodd yr asesiad bod swyddogaeth archwilio mewnol y cyngor yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â'r gofynion newydd. Cyflwynwyd canlyniad y gwaith hwn, ynghyd â chynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran cydymffurfio, i'r pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2026 a chafodd ei gymeradwyo gan y pwyllgor (3.4.8.10.1/2/8/ 11/13).

68. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am adolygu a chymeradwyo'r **Siarter Archwilio Mewnol**, sydd yn diffinio gweithgareddau, pwrpas, awdurdod a chyfrifoldebau'r swyddogaeth archwilio mewnol (3.4.8.10.2), yn ogystal ag amlinellu'r mesurau diogelu a roddwyd ar waith i gyfyngu ar amhariadau ar annibyniaeth a gwrthrychedd yn deillio o rolau a chyfrifoldebau ychwanegol y Pennaeth Archwilio a Risg nad ydynt yn ymwneud ag archwilio mewnol (3.4.8.10.12).

69. Fe wnaeth y pwyllgor ystyried y Siarter ddiwygiedig yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025. Wrth ystyried y ddogfen, trafododd y pwyllgor adnoddau archwilio mewnol presennol a ph'un a oeddent yn ddigonol i gyflawni'r gwaith angenrheidiol er mwyn darparu barn ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ôl derbyn sicrwydd ynghylch y materion a drafodwyd, cymeradwyodd y pwyllgor y Siarter Archwilio Mewnol.

70. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol hefyd am gymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol flynyddol (3.4.8.10.1/3/4/5), sydd yn penderfynu ar flaenoriaethau gweithgareddau archwilio mewnol yn unol â nodau'r sefydliad.

71. Cyflwynwyd y **Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26** i'r Pwyllgor hefyd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025. Trafododd y pwyllgor nifer o faterion, gan gynnwys defnydd archwilio mewnol o Ddeallusrwydd Artiffisial i gefnogi ei waith, rhaglen wella caffael y cyngor a chynllun i dreialu monitro parhaus fel rhan o waith archwilio gan ddefnyddio dadansoddeg data. Penderfynodd y pwyllgor gymeradwyo'r ddogfen.

72. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar weithgareddau archwilio mewnol drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys canfyddiadau allweddol, meysydd pryder, ymateb rheolwyr a'r camau gweithredu oedd ar y gweill o ganlyniad i waith archwilio mewnol (Gorffennaf, Medi, Rhagfyr 2025 a Chwefror a Mai 2026). Ystyriodd y pwyllgor grynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ôl y gofyn, gan gynnwys copïau llawn o adroddiadau 'Sicrwydd Cyfyngedig', ynghyd â'r cynllun gweithredu a gytunwyd gyda'r rheolwyr (3.4.8.10.9/10).

73. Fe wnaeth y pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt trwy dderbyn dau adroddiad, un ym mis Medi 2025 a'r llall ym mis Mai 2026 (3.4.8.10.9). Ystyriodd y pwyllgor berfformiad y cyngor a statws yr holl faterion, risgiau a chyfleoedd a godwyd gan archwilio mewnol oedd heb eu cwblhau, gan gynnwys crynodebau manwl o gynnydd wrth fynd i'r afael â materion, risgiau a chyfleoedd 'sylweddol/ambr'.

74. Mae'r Pwyllgor a'r Pennaeth Archwilio a Risg yn ymwneud yn dda â'i gilydd (3.4.8.10.15). Yn benodol, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob amser ar gael i'r Pennaeth Archwilio a Risg, ac roedd hynny'n cynnwys cyfle i gael cyfarfod preifat â'r Pwyllgor os oes cais am gyfarfod o'r fath. (3.4.8.10.15).

## Archwilio Mewnol

75. Mae'r pwyllgor yn goruchwylio'r trefniadau archwilio allanol ac yn ystyried cwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol.

76. Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025, derbyniodd y pwyllgor gynllun manwl Archwilio Cymru ar gyfer 2025 ac roedd yn nodi'r gwaith yr oedd yn bwriadu ei gyflawni mewn perthynas â'r archwiliad ariannol, y rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer y flwyddyn, ynghyd â'r amserlen adrodd (3.4.8.11.1/3).

77. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu manylion am y tîm archwilio a'r ffi archwilio ar gyfer y gweithgareddau a nodwyd. (3.4.8.11.3).

78. Fe wnaeth y pwyllgor ystyried adroddiad yr archwilydd allanol ar yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2024-25 (**adroddiad ISA 260**) i'r 'rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (3.4.8.11.1/2), yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2025. Yn dilyn trafodaethau ynghylch cywiro camddatganiadau oedd yn cael eu hystyried yn amherthnasol ac amserlenni ar gyfer cylchredeg y cyfrifon terfynol, gofynion IFRS 16 - Prydlesi a nodyn eglurhaol i'r cyfrifon ynghylch ymrwymiadau cyfalaf parhaus, penderfynwyd nodi'r adroddiad.

79. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026, penderfynodd y pwyllgor nodi **adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2025**, a oedd yn cynnwys crynodeb o ganlyniad pob darn o waith a gwblhawyd. (3.4.8.11.3)

80. Fe wnaeth y pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiadau archwilio allanol a derbyn adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ym mis Rhagfyr 2025 a oedd yn nodi sut oedd y cyngor wedi ymateb i adroddiadau archwilio allanol ynglŷn â'r cyngor ac adolygiadau cenedlaethol, ynghyd â'u hargymhellion cysylltiedig (3.4.8.11.3).

81. Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariadau chwarterol yn ystod y flwyddyn (ym mis Medi 2025 a Chwefror 2026) ac adroddiadau archwilwyr allanol, gan gynnwys archwiliadau o Reolaeth y Cyngor o Falansau ac Arian wrth Gefn, Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau (y ddau ym mis Rhagfyr 2025) (3.4.8.12.5), Trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad ei wasanaeth ailgylchu (Mai 2026), yn ogystal â nodyn briffio oedd yn rhoi diweddariad ar y Fenter Twyll Genedlaethol (Rhagfyr 2025) (gweler Atal Twyll a Llygredd uchod) (3.4.8.9.6).

82. Ni chafodd y pwyllgor ei gymell i wneud unrhyw argymhellion yn ystod y flwyddyn ynglŷn ag effeithiolrwydd y berthynas rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill (3.4.8.11.4).

83. Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn breifat ac ar wahân gydag archwilwyr allanol a mewnol heb swyddogion yn bresennol, yn dilyn ei gyfarfod ym mis Mai 2026 (3.4.8.2.6 / 3.4.8.11.5).

## Adroddiadau ariannol

84. Mae'r pwyllgor yn adolygu a chraffu ar faterion ariannol y cyngor, gan lunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â nhw (3.4.8.12.1). Mae'n monitro'r trefniadau a'r paratoadau ar gyfer adroddiadau ariannol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni gofynion statudol a safonau proffesiynol (3.4.8.12.2).

85. Cyn i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo, fe wnaeth y pwyllgor adolygu datganiadau ariannol drafft a therfynol blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2024-25 (Gorffennaf a Hydref 2025 yn y drefn honno), gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfio â pholisïau a phrosesau cyfrifeg a meysydd dyfarnu o bwys (3.4.8.12.3 / 3.4.8.6.1/2/3).

86. Wrth ystyried y datganiadau ariannol drafft ym mis Gorffennaf 2025, trafododd y pwyllgor nifer o ffactorau, gan gynnwys newidiadau i brosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau sy'n cael eu lesio, darpariaeth yn y cyfrifon ar gyfer costau cynnal a chadw posib yn Safle Gwastraff Penhesgyn, taliadau i Gyngor Gwynedd o dan y cydgytundeb Anghenion Dysgu Ychwanegol, cynnydd mewn incwm treth gyngor ar gyfer 2024-25 a threfniadau cyfrifyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

87. Yn dilyn trafodaeth bellach ar werth y Datganiad Cyfrifon o ran hysbysu'r cyhoedd am wariant y cyngor, oherwydd ei gymhlethdod a'i natur dechnegol, penderfynodd y pwyllgor nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft heb eu harchwilio ar gyfer 2024-25.

88. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2025, ystyriodd y pwyllgor adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant' ar

faterion yn deillio o'r archwiliad o’r cyfrifon ac a ddylid eu dwyn i sylw’r cyngor (3.4.8.12.4/5).

89. Yn dilyn trafodaeth (gweler Archwilio Allanol uchod), penderfynodd y pwyllgor nodi adroddiad yr archwilydd allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2024-25.

90. Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025, ystyriodd y pwyllgor adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn gofyn am farn y pwyllgor ynghylch newid arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor i ganiatáu i Gyfrifon Blynyddol y Cyngor gael eu cymeradwyo’n derfynol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn hytrach na’r Cyngor.

91. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar y rhesymau dros y cynnig, megis gwella effeithlonrwydd, cefnogi amserlen arfaethedig Archwilio Cymru ar gyfer cynnal archwiliadau ariannol llywodraeth leol yn 2025-26 ac alinio â chynghorau eraill yng Nghymru. Ar ôl derbyn sicrwydd y byddai’n derbyn y cyfrifon terfynol mewn da bryd i’w hadolygu’n ddigonol, penderfynodd y pwyllgor gefnogi’r newid arfaethedig.



## Delio â chwynion

92. Mae’r pwyllgor yn gyfrifol am adolygu ac asesu gallu’r awdurdod i ddelio’n effeithiol â chwynion (3.4.8.14.1).

93. Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar Bryderon a Chwythu’r Chwiban ar gyfer 2024-25** a oedd yn nodi materion yn codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor, ynghyd â nifer y datgeliadau chwythu’r chwiban a wnaethpwyd o dan bolisi chwythu’r chwiban y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 (3.4.8.9.1).

94. Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad hefyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai, Gwastraff ac Eiddo gan fod cwynion yn y maes gwasanaeth hwnnw wedi cynyddu yn ystod y cyfnod. Penderfynodd y pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo’r argymhellion.

95. Roedd yr adroddiad uchod hefyd yn ymgorffori **Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2024-25**, a oedd yn amlinellu’r gwaith a gyflawnwyd mewn perthynas â gwaith safonau cwynion a gyflawnwyd gan OGCC yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â chrynodeb o berfformiad y cyngor yn y maes hwn (3.4.8.13.1).

96. Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y pwyllgor nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol 2024-25 ac awdurdodi’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i atgoffa gwasanaethau am y gweithredoedd arfaethedig i fynd i’r afael â gofynion OGCC yn y maes hwn, yn ogystal ag ymateb i OGCC yn unol â’r gofynion yn y paragraff olaf ond un yn y Llythyr hwnnw. (3.4.8.1.3 / 3.4.8.14.2).

## Adroddiad hunanasesu

97. Yn ystod bob blwyddyn ariannol, bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiad hunanasesu drafft gan y Cyngor, a luniwyd yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (3.4.8.1.3 / 3.4.8.15.1).

98. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2025, fe wnaeth y pwyllgor ystyried yr **Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft 2024-25** a oedd yn darparu asesiad ar sail tystiolaeth o berfformiad y cyngor yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio’r adnoddau oedd ar gael ac wrth reoli a lliniaru risgiau cysylltiedig (3.4.8.1.3).

99. Trafododd y pwyllgor nifer o feysydd wrth adolygu’r adroddiad, gan gynnwys dyddiadau cwblhau targed ar gyfer camau gweithredu gwella, sut oedd y meysydd gwella yn alinio â gwasanaethau sydd yn perfformio’r tu hwnt i’r disgwyliadau neu’n rhagorol, a ph’un a oedd y system sgorio a’r tabl aliniad llesiant yn ddigon eglur a gwrthrychol.

100. Canolbwyntiodd trafodaethau pellach ar p'un a oedd canlyniadau cymdeithasol ehangach, megis tlodi plant hirdymor, yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol mewn hunanasesiadau gwasanaeth, ac a fyddai meini prawf hunanasesu yn elwa o gael eu hadolygu er mwyn sicrhau eglurder.

101. Penderfynodd y pwyllgor nodi a derbyn yr adroddiad hunanasesiad drafft ar gyfer 2024-25, a gofynnod i'w sylwadau a'i argymhellion ynghylch diffiniadau, sgorio a meini prawf arfarnu gael eu hystyried (3.4.8.15.1//2/3/4).

## Asesiad perfformiad gan banel

102. O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad perfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredinol i ethol cynghorwyr i'r cyngor. Fe all y Cyngor ddewis comisiynu asesiad perfformiad gan banel fwy nag unwaith o fewn cylch etholiadol, ond nid yw hynny'n ofynnol o dan y ddeddf (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

103. Rhaid i'r cyngor sicrhau bod ei ymateb drafft i'r panel asesu ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n rhaid iddo wedyn adolygu'r ymateb drafft a chaiff argymell unrhyw newidiadau i'r ymateb i'r asesiad gan banel (3.4.8.4.3 / 3.4.8.16.1/2/3/4).

104. Gan fod asesiad perfformiad gan banel ar y gweill yn ystod 2025-26, derbyniodd y pwyllgor adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2025 a oedd yn darparu trosolwg o'r broses Asesiad Perfformiad gan Banel a'r themâu i'r Panel eu hystyried. Ar ôl ystyried y mater, penderfynodd y pwyllgor nodi'r adroddiad.

105. Cynhaliwyd yr asesiad perfformiad gan banel ym mis Hydref 2025. Bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiad ar ganlyniad yr Asesiad Perfformiad gan Banel yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2026.

## Archwiliad gan yr Archwilydd Cyffredinol

106. Fe all yr Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad arbennig o'r cyngor (os yw'n ystyried bod y cyngor yn methu, neu y gallai fethu, â bodloni ei ofynion perfformiad).

107. Ar ôl anfon yr adroddiad at y cyngor ac ar ôl i'r cyngor dderbyn yr adroddiad, mae'n ofynnol iddo sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

108. Rhaid i ymateb drafft y cyngor fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n rhaid iddo ei adolygu. Fe all y pwyllgor argymell newidiadau i'r ymateb, yn cynnwys y camau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd. Os na chaiff argymhellion y pwyllgor eu mabwysiadu gan y cyngor cyn cyhoeddi'r ymateb, rhaid cynnwys yr argymhellion yn yr ymateb, ynghyd â rhesymau'r cyngor dros beidio â gwneud y newidiadau yr oedd y pwyllgor yn eu hargymell (3.4.8.17.1/2/3).

109. Ni chynhaliwyd adolygiad arbennig o'r cyngor gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2025-26.

# Atodiad A – Amlder cyfarfodydd a phresenoldeb

| Aelodau | 26/06/25 | 16/07/25 | 30/09/25 | 23/10/25 | 04/12/25 | 03/02/26 | 14/05/26 | Cyfarfodydd a fynychwyd (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100 |
| Y Cynghorydd Euryn Morris (Is-gadeirydd) | ✓ | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 86 |
| Y Cynghorydd Geraint Bebb | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | 86 |
| Mr William Parry (Aelod Lleyg) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | 86 |
| Y Cynghorydd Keith Roberts | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | ✓ | 71 |
| Y Cynghorydd Kenneth Hughes | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100 |
| Y Cynghorydd Margaret M. Roberts | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | 71 |
| Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes[4] | ✓ | Ymddiheuriadau | Na | Na | - | - | - | 25 |
| Y Cynghorydd Ieuan Williams[5] | ✓ | Ymddiheuriadau | ✓ | - | - | - | - | 67 |
| Y Cynghorydd Paul Ellis | ✓ | ✓ | Na | Na | Na | Na | Na | 29 |
| Dr Geraint Jones (Aelod Lleyg)[6] | - | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100 |
| Mr William Maund (Aelod Lleyg)[7] | - | - | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuriadau | 80 |
| Y Cynghorydd Gwilym O Jones[7] | - | - | - | - | Ymddiheuriadau | ✓ | ✓ | 67 |
| Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 100 |
| **Cyfan swm ar gyfer y Pwyllgor[8]** | **9** | **7** | **9** | **8** | **8** | **8** | **9** | **75% (cyfartaledd)** |

Tudalen 27

[4] Yn drist, bu farw'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes cyn y cyfarfod ar 4 Rhagfyr 2025
[5] Gadawodd y Cynghorydd Ieuan Williams y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref 2025, er mwyn ymuno â'r Pwyllgor Gwaith.
[6] Ymunodd yr aelodau lleyg newydd, Dr Geraint Jones a Mr William Maund â'r pwyllgor ym mis Medi 2025
[7] Ymunodd y Cynghorydd Gwilym O Jones â'r pwyllgor ym mis Rhagfyr 2025
[8] Yn unol â Chylch Gorchwyl y pwyllgor, mae'r pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a phedwar aelod lleyg. Ni fydd Aelodau Etholedig yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, cyn belled ag y bo'n bosib, fynychu holl gyfarfodydd y pwyllgor.

# Atodiad B – Hyfforddiant Aelodau Cyfredol 2022-26 a Gwybodaeth a Rannwyd

Tudalen 28

| | | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) | Cynghorydd Euryn Morris (Is-gadeirydd) | Cynghorydd Geraint Bebb | Mr William Parry (Aelod Lleyg) | Cynghorydd Keith Roberts | Cynghorydd Kenneth Hughes | Cynghorydd Margaret M. Roberts | Cynghorydd Paul Ellis | Dr Geraint Jones (Aelod Lleyg) | Mr William Maund (Aelod Lleyg) | Cynghorydd Gwilym O Jones |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Penodol i'r Pwyllgor | Cynefino | 23/06/22 | 23/06/22 | 23/06/22 | d/b | 23/06/22 | | 23/06/22 | | d/b | d/b | 23/05/22 |
| | Datganiadau Ariannol | 13/07/22 | 13/07/22 | 13/07/22 | Absennol | 13/07/22 | | 19/05/22 | | 16/10/25 | 16/10/25 | 19/05/22 |
| | Cwynion | 09/09/22 | 09/09/22 | 09/09/22 | 09/09/22 | 09/09/22 | | 28/09/23 | | | | 28/09/23 |
| | Rheoli Trysorlys | 14/09/22 15/09/23 | 14/09/22 15/09/23 | Ymddiheuriadau | Absennol | 14/09/22 | (07/11/19) | 15/09/23 | | | | (07/11/19) |
| | Deall Cyfrifon Awdurdod Lleol i Gynghorwyr | 22/06/23 | 19/05/22 13/07/22 | 24/08/23 | | 13/07/22 | | 19/05/22 | | | | 19/05/22 |
| | Sgiliau Cadeirio Effeithiol | 17/10/23 | 13/10/23 | 11/10/23 | 17/10/23 | 23/03/23 | | 17/11/22 | | | | 23/03/23 |
| | Atal twyll a llygredd | 04/12/23 | | 04/12/23 | 04/12/23 | 04/12/23 | | 04/12/23 | | | | 04/12/23 |
| | Rheoli risg | 13/03/24 04/12/25 | | | Ymddiheuriadau | | | 04/12/25 | | Ymddiheuriadau | 04/12/25 | |
| | Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risgiau | 11/02/25 | 11/02/25 | 11/02/25 | 11/02/25 | 11/02/25 | | 11/02/25 | | | | |
| Gorfodol | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) | 05/09/22 | 19/11/24 | 16/11/23 | | 07/09/22 | 19/11/24 | 15/11/23 | | 30/10/25 | | 06/09/22 |
| | Ymwybyddiaeth Seiber[9] | 12/05/22 | 18/05/22 | 12/05/22 | | 11/05/22 | 29/01/25 | 06/03/25 | 12/05/22 | 30/10/25- | | 11/05/22 |
| | Ymwybyddiaeth Diogelu Sylfaenol | | 20/09/22 | 27/11/23 | | 20/09/22 | | 20/09/22 | 20/09/22 | 30/10/25- | | 20/09/22 |
| | Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol* | Dewisol | 12/06/22 | 29/09/22 | Dewisol | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Dewisol | Dewisol | Heb gychwyn |
| | Atal / Prevent* | 12/09/19 | 12/06/22 | 19/05/24 | Dewisol | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Dewisol | Dewisol | Heb gychwyn |
| | Caethwasiaeth Fodern* | Dewisol | 07/09/23 | 19/05/24 | Dewisol | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Heb gychwyn | Dewisol | Dewisol | Heb gychwyn |

[9]Roedd ymwybyddiaeth seiber yn rhan o hyfforddiant rhagarweiniol ar gyfer carfan newydd o aelodau'r Cygnor ym mis Mai 2022
* Dewisol ar gyfer aelodau lleyg.

## Rhannu Gwybodaeth Benodol â'r Pwyllgor

| Teitl | Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Cyflwyno |
|---|---|---|---|---|
| Diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio - Rhifyn 40: Safonau Archwilio Mewnol Newydd | Newidiadau sydd ar y gweill i'r safonau archwilio mewnol a'u heffaith ar aelodau pwyllgorau archwilio. | Cylchlythyr | CIPFA | 24/12/24 |
| Newyddlen 'Better Governance' CIPFA | Gwybodaeth ar gyfer pwyllgorau archwilio ynglŷn â chyhoeddi Cod Ymarfer CIPFA, er mwyn cynorthwyo awdurdodau i sefydlu a chynnal eu trefniadau archwilio mewnol, ynghyd â gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar yr Adendwm i Fframwaith Llywodraethu 2016 mewn perthynas â'r adolygiad llywodraethu blynyddol a'r datganiad llywodraethu blynyddol. | Cylchlythyr | CIPFA | 07/02/25 |
| Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol | Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi canllawiau poced sy'n crynhoi arferion effeithiol ar gyfer pwyllgorau archwilio. | Canllawiau poced | Archwilio Cymru | 25/02/25 |
| Diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio - Rhifyn 42: Llywodraethu Archwilio Mewnol | Y Cod Ymarfer newydd ar Lywodraethu Archwilio Mewnol a ddaw i rym o 1 Ebrill 2025. | Cylchlythyr | CIPFA | 17/04/25 |
| Erthygl yng nghylchgrawn Public Finance CIPFA - AI adoption 'could save English and Welsh councils £8bn a year' | Erthygl sy'n amcangyfrif y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr arbed £8bn y flwyddyn trwy ymgorffori deallusrwydd artiffisial yn eu gweithredoedd. | Erthygl mewn Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/05/25 |
| CIPFA / Solace Delivering Good Governance in Local Government: Cyhoeddi Adendwm | Cyhoeddi canllawiau newydd ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethiant a rheolaethau mewnol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol a ddaw i rym ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26. | Cyhoeddiad | CIPFA | 20/05/25 |
| Erthygl Cyllid Cyhoeddus CIPFA - Tech rules: the importance of having and AI policy | Erthygl ynglŷn â'r pwysigrwydd bod sefydliadau'n meddu ar bolisi Deallusrwydd Artiffisial (AI). | Erthygl mewn cylchgrawn proffesiynol | CIPFA | 15/07/25 |
| Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru - Cwestiynau Cyffredin | Gwybodaeth ynglŷn â rôl Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ac is-bwyllgor y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | Cwestiynau Cyffredin | Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | 02/12/25 |

Tudalen 29

# Atodiad C – Crynodeb o Ganlyniadau Cyfarfodydd

| Dyddiad | Canlyniad y cyfarfod: |
|---|---|
| **26 Mehefin 2025** | Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried **wyth** prif eitem.<br><br>Adolygodd y pwyllgor ei **Log Gweithredoedd** a derbyniodd diweddariad ynghylch adroddiad dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac adroddiad effaith Ynys Môn gan Quod (Eitem gweithredu 10) sydd wedi'i gwblhau ond ni fydd yn cael ei gyhoeddi cyn i'r Tîm Arweinyddiaeth wneud penderfyniad ynglŷn â rhannu gwybodaeth amdano a'i gylchredeg. Mae eitemau 21, 22 a 24 wedi'u cwblhau hefyd.<br><br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro adroddiad ar **enwebu aelod lleyg ar Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC).** Yn dilyn marwolaeth Mrs Sharon Warnes, oedd wedi cael ei henwebu'n flaenorol gan y Cyngor, gwahoddwyd y pwyllgor i enwebu cynrychiolydd yn ei lle. Oni fyddai'r cyngor yn enwebu cynrychiolydd, byddai'r CBC yn cysylltu â chynghorau eraill sy'n aelodau o'r CBC. Penderfynodd y pwyllgor enwebu Mr William Parry fel aelod lleyg newydd.<br><br>Fel rhan o rôl y pwyllgor i adolygu trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer partneriaethau allweddol y cyngor, derbyniodd yr **Adroddiad Sgriwtini a Throsolwg Blynyddol 2024-25.** Dywedodd Pennaeth Democratiaeth fod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn hefyd, a chyfeiriodd at adrannau allweddol oedd yn crynhoi gwaith y Pwyllgor Sgriwtini a throsolwg o bartneriaethau. Trafododd y Pwyllgor y seddi gwag ar gyfer aelodau cyfetholedig a gallu Sgriwtini i fynd i'r afael â'i lwyth gwaith. Cadarnhawyd fod y ddwy sedd ar gyfer rhieni lywodraethwyr yn cael eu llenwi, a bydd y penodiadau'n cael eu cadarnhau fis Medi. Mae ymdrechion yn parhau i reoli llwyth gwaith Sgriwtini'n effeithiol, gan gynnwys cyfyngu ar nifer y partneriaethau sy'n cael eu hadolygu ym mhob cyfarfod a dynodi un sesiwn flynyddol i'r Bwrdd Iechyd. Penderfynodd y pwyllgor nodi'r adroddiad a chadarnhau ei fod yn derbyn sicrwydd o'r trefniadau sgriwtini presennol ar gyfer y prif bartneriaethau a gwaith cydweithredol.<br><br>Cymeradwyodd y pwyllgor **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2024-25**, a oedd yn amlinellu ei weithgareddau yn unol â'i gylch gorchwyl. Roedd y cadeirydd yn ei ddisgrifio fel adlewyrchiad cynhwysfawr o waith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn a byddai'n ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 25 Medi 2025.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor ystyried yr **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2024-25**, sef adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg oedd yn cyflwyno ei barn fod y Cyngor wedi cynnal fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol. Ni amlygwyd unrhyw bryderon corfforaethol sylweddol, er bod angen rheolaethau gwell ar gyfer rhai meysydd, ac mae hynny'n cael ei fonitro. Roedd ei barn yn ddiamod. Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar archwiliadau'n ymdrin ag 80% o'r risgiau strategol coch ac ambr a 12 maes ychwanegol. Llwyddodd Archwilio Mewnol i gyflawni pump o'r chwe targed perfformiad, a chydymffurfio'n gyffredinol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Bydd y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn berthnasol o fis Ebrill 2025. Ymhlith y materion a godwyd gan y Pwyllgor roedd:<br>• Hyder yng ngallu'r fframwaith i adnabod gwendidau cyn i fethiannau ddigwydd. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yna sicrwydd rhesymol yn seiliedig ar fonitro presennol.<br>• Pryderon ynghylch twyll yn ymwneud â phremiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi. Mae Archwilio Mewnol yn parhau i fonitro hyn ar y cyd â'r Tîm Refeniw a Budd-daliadau.<br>• Tanberfformio parhaus wrth wireddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae ail archwiliad dilynol wedi'i drefnu ar gyfer 2025-26.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r **Siarter Archwilio Mewnol** ddiwygiedig yn dilyn cyflwyno'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) ar 1 Ebrill 2025. Er bod y Siarter bresennol yn cydymffurfio ar y cyfan, cafodd ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r gofynion newydd yn glir, yn benodol mewn perthynas â threfniadau diogelu ar gyfer annibyniaeth a gwrthrychedd. Nododd y pwyllgor fod nifer y staff Archwilio Mewnol wedi gostwng i 2.8 cyfwerth ag amser llawn yn 2024-25, i lawr o darged o 4.0 cyfwerth ag amser llawn, a gofynnodd beth oedd effaith hyn ar gapasiti a gwrthrychedd. Cadarnhaodd y Pennaeth |

Tudalen 30

Archwilio a Risg fod y gyllideb a gadwyd yn cael ei defnyddio i gomisiynu arbenigwyr allanol, a bod hynny'n gost-effeithiol, a sicrhaodd y pwyllgor fod adnoddau digonol ar gael i gyflawni cyfrifoldebau archwilio.

Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r **Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol 2025-26,** a oedd yn cyd-fynd â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) newydd a Chynllun y Cyngor. Mae'r strategaeth yn blaenoriaethu risgiau strategol coch ac ambr, mae'n cynnwys 549 diwrnod archwilio, ac mae'n cadarnhau nad oes cyfyngiad ar gwmpas nac adnoddau. Pwyntiau allweddol a drafodwyd:

- Bydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn ystyried a ellir defnyddio Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) i wella ei brosesau, wrth ddisgwyl i'r cyngor gyhoeddi polisi.
- Rhoddwyd sylw i bryderon am gywirdeb ac atebolrwydd AI, a nodwyd mai swyddogion sy'n gyfrifol am ddilysu cynnwys a gynhyrchwyd gan AI.
- Mae'r archwiliad caffael wedi'i ohirio oherwydd bod rhaglen wella'n mynd rhagddi dan arweiniad STAR Procurement.
- Bydd cynllun peilot ar gyfer monitro parhaus gan ddefnyddio dadansoddeg data yn canolbwyntio ar y gyflogres a chredydwyr.
- Bydd adolygiad o reoli perfformiad yn ymateb i adroddiad Archwilio Cymru ar fewnwelediad defnyddwyr gwasanaeth.

Ystyriodd y pwyllgor **Gynllun Archwilio 2025 Archwilio Cymru** a oedd yn amlinellu trefniadau'r archwiliadau ariannol a pherfformiad, risgiau allweddol, lefelau perthnasedd ac amserlen ddiwygiedig a'r nod yw cwblhau'r rhaglen erbyn Hydref 2025. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Bydd yr archwiliad ariannol yn asesu cyfrifon y cyngor ar gyfer 2024-25, gan ganolbwyntio ar risgiau sylweddol.
- Bydd y gwaith archwilio perfformiad yn adolygu gwerth am arian a chydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Eglurwyd y ffioedd archwilio oedd yn cwmpasu'r ddwy ffrwd archwilio.

Roedd pryderon y Pwyllgor yn cynnwys:

- Ffioedd archwilio uchel a diffyg cystadleuaeth yn y farchnad. Dywedodd Archwilio Cymru bod lefelau eu ffioedd archwilio wedi'u meincnodi a'u goruchwylio o ran gwerth.
- Dyblygu posibl rhwng archwilio mewnol ac allanol, yn enwedig mewn perthynas â TG. Cadarnhaodd Archwilio Cymru eu bod yn cydgordio â thîm TG y cyngor er mwyn osgoi dyblygu.
- Amseriad yr adolygiad o'r Ddeddf Llesiant oherwydd bod gwerthusiad ar y gweill gan Lywodraeth Cymru. Eglurodd Archwilio Cymru eu rhwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf Llesiant.
- Cosbau ar gyfer methu targedau ailgylchu o ychydig er gwaethaf y perfformiad cryf. Nododd Archwilio Cymru y gallai canfyddiadau'r adolygiad ailgylchu fod yn gadarnhaol.
- Diffyg mesurau cynhyrchiant mewn asesiadau gwerth am arian. Awgrymodd Archwilio Cymru y byddai'n haws mynd i'r afael â mesurau cynhyrchiant drwy gerdyn sgorio cytbwys y Cyngor.

Yn olaf, aeth y Pwyllgor ati i ystyried a chefnogi'r **Flaen Rhaglen Waith** a gynlluniwyd ar gyfer gweddill 2025-26, yn amodol ar un newid mewn perthynas â chyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â'i gylch gorchwyl.

**16 Gorffennaf 2025**

Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried chwe phrif eitem.

Adolygodd y pwyllgor ei **Log Gweithredoedd** ac roedd yn fodlon fod eitem 18 (adroddiad rheoli trysorlys blynyddol diwygiedig) wedi'i gwblhau a bod eitemau 16 (Adroddiad Blynyddol ar Bryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban yn cynnwys y wybodaeth bwysicaf ynghylch pryderon a chwynion gan ddefnyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol) ac 19 (diweddariad ar gynnydd y broses gwynion) wedi'u gohirio tan fis Medi 2025 ar gais y Swyddog Monitro.

Tudalen 32

Fe wnaeth y pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r **Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft ar gyfer 2024-25**, oedd yn edrych yn fanwl ar yr adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, y camau a gymerwyd i ddatrys materion blaenorol, a strategaethau i fynd i'r afael â heriau presennol. Roedd y prif ystyriaethau gan y pwyllgor yn cynnwys cais i gynnwys dangosyddion statws CAG i gryfhau effeithiolrwydd monitro, ynghyd â darparu tystiolaeth i gefnogi'r casgliad fod system rheoli perfformiad y Cyngor yn gadarn. Cyflwynwyd fframwaith sicrwydd aml haenog - yn cynnwys adolygiadau chwarterol ar y cerdyn sgorio, trosolwg o'r cynllun busnes a hunanasesiad statudol. Codwyd pryder hefyd oherwydd bod yr holl gamau wedi'u hamserlennu i'w cwblhau ar yr un pryd erbyn mis Mawrth 2026. Darparwyd sicrwydd fod bwriad cwblhau'r gwelliannau sydd wedi'u hadnabod ar gyfer 2024 - 25 o fewn y flwyddyn ariannol bresennol, a bydd adroddiad cynnydd canol blwyddyn ar gael fis Rhagfyr 2025. Craffwyd ar ddata cyfraddau gadael ar ôl gweld yn yr adroddiad bod y gyfradd cadw staff yn 82%. Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â faint o staff oedd yn newid swyddi yn fewnol a faint oedd yn gadael cyflogaeth y cyngor, a chytunwyd i ddarparu data pellach.

Adolygodd a nododd y pwyllgor y **Datganiad Cyfrifon Drafft 2024-25** heb eu harchwilio. Roedd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 wedi'u llofnodi ar 30 Mehefin ac roedd yr archwiliad mewnol yn cychwyn ar 1 Gorffennaf. Oherwydd hyn gallai'r ffigyrau newid yn sgil yr archwiliad, a disgwylir i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo'n derfynol erbyn 31 Hydref 2025. Roedd y prif ddiweddariadau yn cynnwys trefniadau cyfrifyddu newydd ar gyfer lesi yn dilyn adolygu'r Cod Ymarfer. Mae'n golygu fod lesi'n cael eu trin fel benthyciadau ac mae hyn yn cael effaith ar y Fantolen. Roedd y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn nodi bod yna warged net o £45m. Amlygwyd nodiadau oedd fwyaf perthnasol er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor i adolygu'r dogfennau. Rhoddwyd eglurhad ynglŷn â darpariaethau, taliadau parti cysylltiedig a chynnydd mewn incwm Treth Gyngor yn sgil ailddosbarthu eiddo hunanarlwyo. Rhannwyd gwybodaeth bellach am ddata demograffig a data sail y dreth, yn ogystal â sut yr ymdrinnir â phensiynau yn y cyfrifon. Nododd aelodau'r pwyllgor bryderon ynglŷn â dealltwriaeth y cyhoedd o'r cyfrifon ac roedd yn argymell darparu crynodebau ariannol mwy eglur a hygyrch. Roedd y Swyddog 151 yn cydnabod natur dechnegol y cyfrifon a nododd fod yr adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith, sy'n rhoi trosolwg o'r gyllideb, yn fwy hygyrch ac effeithiol o ran cynorthwyo'r cyhoedd i fonitro perfformiad ariannol y Cyngor a'r gwasanaethau a ddarperir.

Derbyniodd y pwyllgor **Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2024-25** y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar ei newydd wedd. Cyfanswm cyllideb gwariant cyfalaf diwygiedig y Cyngor oedd £78.3m, wedi'i ariannu'n bennaf gan ddefnyddio arian wrth gefn er mwyn osgoi benthyca'n allanol a lleihau costau llog. Mae disgwyl y bydd rhaid i'r cyngor fenthyca yn y tymor byr erbyn diwedd 2025-26, gyda'r nod o elwa ar y cyfraddau llog is a ragwelir. Roedd y prif weithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys derbyn cyfran olaf (£908k) y benthyciad Salix oedd wedi'i gymeradwyo'n flaenorol, ad-dalu dau fenthyciad tymor sefydlog gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a derbyn cyfanswm o £1.55m o incwm buddsoddi, gyda £866k yn cael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol, £382k i'r CRT, a £212k i ysgolion, ac roeddent oll yn uwch na'r disgwyl pan bennwyd y gyllideb. Cydymffurfiwyd yn llawn â'r holl ddangosyddion trysorlys a therfynau yn y strategaeth a gymeradwywyd. Nododd y pwyllgor, a chymeradwyo, yr adroddiad ar ei newydd wedd, a chydnabu ei gyflwyniad clir a symlach, a phenderfynodd ei basio ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylw pellach.

Derbyniodd y pwyllgor y **diweddariad Archwilio Mewnol**, oedd yn darparu manylion am ganlyniad pedwar archwiliad. Roedd dau archwiliad wedi derbyn sicrwydd rhesymol (Sail y Dreth Gyngor a Rheoli'r Ddesg Wasanaeth TG), tra bod dau wedi derbyn sicrwydd cyfyngedig (Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion a Rheoli Cyflenwyr TG - Adolygiad Dilynol). Mae gwelliannu'n mynd rhagddynt ym maes Gofal Cymdeithasol Oedolion ond mae ôl-groniad gwaith a phrosesau aneffeithlon yn llesteirio'r gwaith. Trefnwyd archwiliad dilynol ym mis Awst a'r nod yw datrys y mater erbyn Mawrth 2026. Mae gweithredoedd yr archwiliad Rheoli Cyflenwyr TG yn mynd rhagddynt o dan y Rhaglen Gwella Caffael, a bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad pellach yn Rhagfyr 2025. Trafododd y pwyllgor bryderon ynglŷn ag adnoddau'r Gwasanaethau Oedolion ac oedi wrth gynnal asesiadau ariannol. Mae mesurau sy'n cynnwys ymweld â chleientiaid ac adolygu gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith. Mae gwelliannau ym maes caffael TG yn mynd rhagddynt, gyda phwyslais ar ymgysylltu'n gynnar yn y broses a blaenoriaethu strategol.
Derbyniodd y pwyllgor adroddiad yn amlinellu cynnydd wrth weithredu'r safonau archwilio mewnol newydd, sef y **Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn sector cyhoeddus y DU**. Cadarnhaodd dadansoddiad o'r bwlch fod swyddogaeth archwilio mewnol y Cyngor yn cydymffurfio â'r safonau newydd ar y cyfan, ond mae angen gwella rhai meysydd a chanolbwyntio'n bennaf ar wella tystiolaeth i gefnogi arferion archwilio presennol. Cyflwynwyd crynodeb o'r gweithredoedd a gwblhawyd ac roedd y pwyllgor yn fodlon y byddai'r camau a gymerwyd a'r rhai oedd ar y gweill yn cynorthwyo'r cyngor i gydymffurfio'n llawn â gofynion y GIAS.

Derbyniodd y pwyllgor drosolwg o'r broses Asesiad Perfformiad gan Banel a nododd y themâu y gofynnir i'r Panel eu hystyried.

| | |
|---|---|
| | Yn olaf, fe wnaeth y pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r **Flaen Rhaglen Waith** ar gyfer gweddill 2025-26 a chadarnhau bod y rhaglen yn ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â'i gylch gorchwyl. Gan fod rhai adroddiadau wedi'u gohirio tan y cyfarfod ym mis Medi, ac oherwydd bod cymaint o eitemau wedi'u trefnu, cytunwyd ar gynnig i symud rhai eitemau i'r cyfarfod arbennig ym mis Hydref. |
| **30 Medi 2025** | Ystyriwyd **10** prif eitem gan y pwyllgor.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor adolygu ei **Log Gweithredoedd** a nodi cynnydd mewn perthynas â'r camau gweithredu a gytunwyd yn flaenorol. Roedd y prif ddiweddariadau'n cynnwys gohirio Llythyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024/25 ac adroddiad y Swyddog Monitro ar Gwynion, Pryderon a Chwythu'r Chwiban hyd nes y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2025 oherwydd problem gyda'r data. O ran dadansoddi cyfraddau gadael staff (eitem 27), nodwyd nad ydyw'r un mor hawdd cadw llygaid ar symudiadau gan staff mewnol gyda system gyfredol yr adran AD; mae ymchwiliadau pellach ar y gweill a disgwylir diweddariad yn y cyfarfod nesaf. Cododd aelod o'r pwyllgor bryderon am nad oedd argymhellion Archwilio Cymru wedi'u cynnwys ar y log gweithredoedd. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn derbyn cadarnhad gan y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad y byddant yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad monitro nesaf.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor adolygu a derbyn **Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol y cyngor ar gyfer 2024/25** a oedd yn amlinellu'r data digwyddiadau, prif lwyddiannau a chamau gweithredu ar gyfer y dyfodol. Fe wnaeth y pwyllgor drafod digwyddiadau yn gysylltiedig â hyfforddiant, yr angen i gynnwys targedau CAMPUS yn y cynllun strategol, a pham fod llai o adroddiadau RIDDOR. Cadarnhawyd bod absenoldebau yn gysylltiedig ag iechyd meddwl a chynlluniau gwasanaethau penodol yn cael eu tracio. Mae cynllun tair blynedd mwy manwl yn cael ei ddatblygu a gofynnodd y pwyllgor a fyddai copi ohono'n cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ar ôl ei gwblhau.<br><br>Derbyniodd y pwyllgor adroddiad **Archwilio Mewnol** a oedd yn rhoi diweddariad ar y llwyth gwaith a blaenoriaethau cyfredol, ynghyd â chanlyniad y tri adroddiad 'Sicrwydd Rhesymol', yn cynnwys dau adroddiad monitro parhaus yn gysylltiedig â Chredydwyr a'r Gyflogres. Wrth gwestiynu'r raddfa sicrwydd a roddwyd i'r archwiliad Rheoli'r Risg o Dlodi, oedd yn awgrymu bod y materion yn fwy arwyddocaol, rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y raddfa yn seiliedig ar fatrics risg y Cyngor. Nodwyd bod cyswllt â staff yn gyfyngedig, ac nid yw'r strategaeth yn cyd-fynd â chynlluniau cyflawni gwasanaeth ac nid oes digon o berchnogaeth trawsadrannol. Amlygodd yr aelodau gyswllt posib hefyd rhwng tlodi, cyfraddau tlodi ymysg plant ac ymosodiadau yn erbyn staff mewn ysgolion a gofynnwyd i'r pryderon hyn gael eu hanfon ymlaen i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad ar y **materion archwilio mewnol sydd yn weddill** ynghyd ag adroddiad manwl ar statws y materion sylweddol sydd yn weddill. Nododd y pwyllgor bod y Cyngor yn gwneud cynnydd boddhaol ond roedd yn cwestiynu'r oedi wrth awtomeiddio'r broses debyd uniongyrchol ar gyfer talu ardrethi busnes a'r modd y caiff camau eu tracio a'u huwchgyfeirio.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor adolygu'r adroddiad hunanasesu drafft ar gyfer 2024/25. Roedd yr aelodau'n argymell trefniadau rheoli prosiect strwythuredig, yn cynnwys dadansoddi llwybrau allweddol, yn enwedig ar gyfer cynlluniau cymhleth megis Cynllun Strategol ar gyfer Data, a gwnaed cais i gael gweld y ddogfen cychwyn prosiect unwaith y bydd ar gael. Holodd y pwyllgor ynglŷn â dichonolrwydd yr holl gamau gwella sydd i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2026, a rhoddwyd sicrwydd bod yr amserlen yn gyraeddadwy, ac y byddai diweddariad canol blwyddyn yn cael ei ddarparu. Codwyd pryderon ynglŷn ag eglurdeb a chysondeb y cyfraddau hunan-asesu, yn enwedig pan fo gwasanaethau'n rhoi sgôr uchel iddynt eu hunain er gwaetha'r heriau allanol. Awgrymodd yr aelodau y dylid cael gwared ar y categori "Tu Hwnt i'r Disgwyliadau" gan bwysleisio bod "Cwrdd â'r Disgwyliadau" yn ganlyniad positif. Amlygodd y pwyllgor y diffyg cyswllt rhwng cyfraddau'r gwasanaethau a chanlyniadau yn y byd go iawn, gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd fel enghraifft. Nododd y swyddogion bod yr effeithiau ehangach yn cael eu cyfarch yn yr adroddiad Perfformiad a Llesiant. Gofynnodd y pwyllgor ar i'r adborth ar y broses sgorio a meini prawf gwerthuso gael ei ystyried yn ystod yr arolwg ar gyfer 2025/26, ac argymell dull mwy gwrthrychol, seiliedig ar ddata, ynghyd â chael gwared ar y categori "Tu Hwnt i'r Disgwyliadau" er mwyn gwella tryloywder. |

Tudalen 33

| | |
|---|---|
| | Nododd y pwyllgor y sicrwydd y mae'r **Adroddiad Blynyddol ar Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2024/25** yn ei gynnig, gan fanylu ar ymdrechion y gwasanaeth Archwilio Mewnol i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn. Roedd yr adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o ymdrechion i dwyllo a ganfuwyd yn ystod y flwyddyn, diweddariad ar gynnydd y cynllun cyflawni a chanlyniadau cychwynnol yr Offeryn Atal Twyll a gafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2024.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor nodi'r cynnydd a'r sicrwydd y mae'r **Adroddiad ar Ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol** yn ei roi a thrafod pryderon yn gysylltiedig ag osgoi premiwm y Dreth Gyngor. Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y broses ymchwilio a chadarnhaodd bod blaenoriaeth yn cael ei roi i bariadau hynod ddibynadwy, megis rhai sy'n cynnwys rhifau yswiriant cenedlaethol.<br><br>Cafodd y pwyllgor ddiweddariad gan **Archwilio Cymru** ar hynt ei raglenni gwaith lleol a chenedlaethol. Er gwaetha'r oedi yn sgil y pandemig, mae rhaglen archwilio 2023/24 wedi'i chwblhau, ac mae rhaglen 2024/25 yn mynd rhagddi'n dda, ac felly bydd rhaglen 2025/26 yn dychwelyd i'r amserlen arferol. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad ar waith Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Archwilio Cymru bod yr archwiliad o gyfrifon 2024/25 yn unol â'r amserlen ac y bydd y gwaith wedi cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Hydref. Nid yw dyddiad y cyfarfod o'r pwyllgor i ystyried y cyfrifon archwiliedig wedi cael ei gadarnhau eto.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor ystyried y **Blaen Rhaglen Waith** ar gyfer gweddill 2025-26 a chadarnhau bod y rhaglen yn ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â'i gylch gorchwyl. Cynigwyd dau newid: gohirio'r arolwg blynyddol o'r fframwaith rheoli risgiau a'r gofrestr risgiau strategol, a chynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2024/25 a'r Adroddiad Blynyddol ar Bryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban ar gyfer 2024/25 ar y rhaglen ym mis Rhagfyr 2025.<br><br>Yn olaf, ystyriodd y pwyllgor yr Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol ar gyfer 2024/25 mewn sesiwn breifat. Rhoddodd y Peiriannydd Diogelwch Arweiniol amlinelliad o'r prif fygythiadau seiber sy'n wynebu'r cyngor a'r mesurau sydd ar waith i'w lliniaru, yn cynnwys ystadegau ar fygythiadau, yr adnoddau sydd eu hangen a'r prosiectau sydd ar y gweill. Cafwyd trafodaeth ar statws prosiectau, digonolrwydd y gyllideb, y posibilrwydd o allanoli gwaith, pa mor aml y mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu a materion yn ymwneud â pholisïau. Cadarnhaodd y swyddogion bod mwy o arian yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau TG - mae'r swm wedi cynyddu o £1.6m yn 2017/18 i £5.1m yn 2024/25 - a phwysleisiodd bod seiberddiogelwch yn flaenoriaeth barhaus. Fe wnaeth y pwyllgor nodi'r heriau, derbyn bod y mesurau seiberddiogelwch presennol yn ddigonol, a derbyn sicrwydd bod mesurau diogelu rhesymol ar waith. |
| **23 Hydref 2025** | Ystyriodd y Pwyllgor **un** brif eitem yn ystod y cyfarfod arbennig hwn a gynhaliwyd i ystyried y **Datganiad Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2023/24**, y **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** ac **adroddiad yr Archwilydd Allanol ar yr archwiliad o ddatganiadau ariannol 2023/24 (Adroddiad ISA 260**).<br><br>Hysbysodd y Cadeirydd y pwyllgor fod y Cynghorydd Ieuan Williams wedi gadael y pwyllgor, ar ôl iddo gael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith, a diolchodd i'r Cynghorydd Williams am ei gyfraniad yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r pwyllgor.<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod y Datganiad Cyfrifon wedi'i gyflwyno i'r archwilwyr allanol ar 30 Mehefin 2025 a bod yr archwiliad bron â'i gwblhau bellach. Bwriedir i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r cyfrifon ar 28 Hydref 2025, cyn y terfyn amser statudol sef 31 Hydref. Esboniodd y Swyddog Adran 151 y newidiadau i'r pwyllgor, a oedd yn cynnwys gostyngiad o £500k yn y gwarged ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl gwneud addasiadau ac effaith hynny ar y fantolen; cynnydd o £2.46m yn y cronfeydd clustnodedig o ganlyniad i ailddosbarthu darpariaethau'n gysylltiedig â risgiau ar safle tirlenwi Penhesgyn; newidiadau technegol i'r cyfrif addasiadau cyfalaf a'r gronfa ailbrisio, nad oedd yn cael unrhyw effaith ar gronfeydd defnyddiadwy nac arian, a diweddariad ynglŷn â Nodyn 41 - Atebolrwydd Dibynnol - Tystysgrifau Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR). Diolchodd i dîm Cyllid y Cyngor ac Archwilio Cymru am eu hymdrechion. Cynigiwyd y dylid addasu'r Cyfansoddiad er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r cyfrifon yn y dyfodol, er mwyn ei gwneud yn haws i gwrdd â'r terfyn amser cynharach, sef 30 Medi, o 2025-26 ymlaen.<br><br>Diwygiwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i adlewyrchu mewnbwn y pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, gan gynnwys graddau CAG ar gyfer materion llywodraethu a nodwyd yn flaenorol er mwyn tracio cynnydd yn well, yn ogystal â diwygio'r amserlen ar gyfer datblygu Cynllun Strategol Data a |

| | |
|---|---|
| | gweithredoedd cysylltiedig. Canolbwyntiodd trafodaethau'r pwyllgor ar gamau llywodraethu, amserlenni cwblhau ac asesiad risg, yn ogystal ag eglurhad ar gylch gorchwyl y gwaith trawsnewid digidol.<br><br>Cadarnhaodd Archwilio Cymru mai eu bwriad oedd cyhoeddi barn ddiamod sydd yn cadarnhau fod y cyfrifon yn gywir. Fe wnaeth Archwilio Cymru gadarnhau bod dwy dasg archwilio'n weddill a bod camgymeriad heb ei gywiro o £1.561m wedi'i adnabod yn ystod yr archwiliad, ond roedd disgwyl i'r ddau fater gael eu dynodi'n amherthnasol. Bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno cyn cyfarfod y Cyngor Llawn. Nododd y pwyllgor fod problemau capasiti (e.e. prisio eiddo, adnoddau cyllid) yn cyfrannu at oedi a holodd ynglŷn â chamddatganiad nad oedd wedi cael ei ganfod o'r blaen. Codwyd pwyntiau amrywiol gan aelodau ynglŷn ag eglurder a datgeliadau (e.e. gofynion IFRS 16 - Lesi atebolrwydd dibynnol EICR ac ymrwymiadau cyfalaf), a darparwyd esboniadau.<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad o Gyfrifon archwiliedig ar gyfer 2024-25 ac argymhellwyd eu bod yn cael eu llofnodi gan Gadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Adran 151. Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25 fel gwerthusiad teg o drefniadau llywodraethu. Nodwyd Adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru. |
| **4 Rhagfyr 2025** | Fe wnaeth y pwyllgor ystyried **13** prif eitem.<br><br>Cydymdeimlodd y cadeirydd â theulu'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes MBE. Croesawodd y cadeirydd y Cynghorydd Gwilym O Jones a oedd yn ymuno â'r pwyllgor.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor adolygu ei **Log Gweithredoedd** a nodi bod wyth cam gweithredu wedi cael eu cwblhau.<br><br>Derbyniodd y pwyllgor **Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chwythu'r Chwiban y Cyngor ar gyfer 2024/25** (yn cynnwys **Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)**), a oedd yn rhoi trosolwg o'r cwynion am wasanaethau, datgeliadau chwythu'r chwiban a chwynion Cod Ymddygiad ar gyfer 2024/25, ynghyd â'r canfyddiadau allweddol yn Llythyr Blynyddol OGCC. Roedd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn bresennol i ateb cwestiynau'r pwyllgor. Nododd y pwyllgor bod y cyngor wedi gwneud cynnydd wrth ymdrin â chwynion a lleihau nifer yr atgyfeiriadau i OGCC. Fodd bynnag, mae cofnodi cwynion yn gyson, gwahaniaethu'n glir rhwng cwynion ac ymholiadau arferol, ac adrodd i OGCC yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol. Penderfynodd y pwyllgor gefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad i ddatrys y materion hyn.<br>Derbyniodd y pwyllgor **Adroddiad Blynyddol y Prif Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) ar gyfer 2024/25** a nodi bod y ffigyrau yn yr adroddiad yn gysylltiedig â thor diogelwch data yn parhau i fod yn isel. Fodd bynnag, mae cyfraddau cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn is na tharged y Comisiynydd Gwybodaeth, sef 90%, ond mae'r patrwm hwn wedi bodoli ers 10 mlynedd, a gellir priodoli hyn i ddiffyg cynlluniau cyhoeddi, ynghyd â'r ffaith bod y swydd Swyddog Diogelu Data Corfforaethol wedi bod yn wag am gyfnod hir. Mae swyddogion Deddf Rhyddid Gwybodaeth / data mewn gwasanaethau hefyd yn rheoli cwynion, ac mae hyn yn cyfyngu ymhellach ar eu gallu. Fe wnaeth y pwyllgor gefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad i atgyfnerthu hyfforddiant, diweddaru polisïau, monitro perfformiad gwasanaethau, a gwella cynlluniau cyhoeddi.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor gefnogi cynnig i **drosglwyddo'r hawl dros gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn derfynol i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor,** er mwyn gwella effeithlonrwydd ac fel na fydd rhaid cynnal cyfarfodydd arbennig o'r Cyngor. Mae'n cefnogi amserlen ddiwygiedig Archwilio Cymru sy'n symud y dyddiad cau i 30 Medi 2026, fel sy'n arferol mewn cynghorau eraill ledled Cymru. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau sicrwydd i'r pwyllgor y byddai'n derbyn y cyfrifon drafft ym mis Gorffennaf fel bod ganddo ddigon o amser i'w cymeradwyo. Nododd y pwyllgor nad oedd y newid hwn yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a bod angen proses wahanol ar ei gyfer.<br><br>Derbyniodd y pwyllgor **ddiweddariad ar y gweithgareddau archwilio mewnol**, a oedd yn cynnwys dau adolygiad sicrwydd; Rheoli Perfformiad (Sicrwydd Rhesymol), a ddaeth i'r casgliad bod y fframwaith yn effeithiol ar y cyfan, ond bod ansawdd data yn anghyson o un gwasanaeth i'r llall, a Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd (Sicrwydd Cyfyngedig). Rhoddodd y Pennaeth Archwilio sicrwydd i'r pwyllgor bod y cynllun gweithredu wedi cael ei gytuno gyda'r rheolwyr a'r ysgolion ac y byddai wedi cael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2026. Mae adolygiad dilynol wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Ebrill 2026 a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf 2026. Gofynnodd y pwyllgor a fyddai'r Prif Swyddog Digidol yn gallu bod yn bresennol. Gofynnodd y pwyllgor a |

| | |
|---|---|
| | ddylid poeni am nifer y materion a godir yn ystod archwiliadau a dywedodd y Pennaeth Archwilio nad yw'r lefel sicrwydd yn cael ei bennu yn ôl nifer y materion a godir, a bod adroddiadau sy'n cael sgôr sicrwydd cyfyngedig yn brin iawn, a'u bod yn cael eu monitro a'u dilyn i fyny yn ffurfiol.<br>Nododd y pwyllgor y newidiadau i **fframwaith rheoli risg y cyngor a'r cynnydd gyda'r gofrestr risgiau strategol**. Mae'r cyngor wedi comisiynu Zurich Risk i gynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau rheoli risg y Cyngor. Bydd cofrestr risgiau strategol yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026.<br><br>Nododd y pwyllgor berfformiad y cyngor mewn perthynas â **rheoli'r trysorlys ar ganol y flwyddyn (30 Medi 2025)**. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau sicrwydd i'r pwyllgor bod gweithgarwch trysorlys y cyngor yn gyson a bod ei strategaeth fuddsoddi risg isel ac enillion isel a dull benthyca a gynlluniwyd yn cael ei reoli i leihau costau llog cymaint â phosib. O ran y ffaith mai dim ond 33% o gyllid cyfalaf blynyddol a oedd wedi cael ei wario erbyn canol y flwyddyn, rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau sicrwydd i'r pwyllgor bod digon o wariant i gwrdd â'r amodau grant neu y bydd yn gofyn am ganiatâd i gario'r cyllid ymlaen. Mae'r dangosyddion a chyfyngiadau yn parhau i fod oddi mewn i'r paramedrau a ragwelwyd, er bod mân lithriad technegol wedi bod pan roedd cyfrif galw yn uwch na'r terfyn oherwydd bod llog wedi cael ei ychwanegu i'r cyfrif. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau sicrwydd i'r Pwyllgor bod hyn wedi cael ei gywiro heb unrhyw golled ariannol. Cytunodd y Pwyllgor i anfon yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylw pellach.<br>Rhoddodd ymateb y cyngor i **adroddiadau allanol ac argymhellion gan reoleiddwyr** sicrwydd i'r pwyllgor bod y cyngor yn gwneud cynnydd cyson wrth fynd i'r afael ag argymhellion archwiliadau allanol, a nodwyd bod pob cam gweithredu wedi'i gwblhau neu bron â chael ei gwblhau, a chafwyd eglurhad clir dros unrhyw oedi. Mae'r cyngor yn parhau i fod yn ymarferol wrth roi argymhellion cenedlaethol ar waith i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor nodi'r **Diweddariad gan Archwilio Cymru ar y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ar gyfer 2024/25** a chydnabod ymdrechion y cyngor i ddefnyddio dadansoddiad data'r NFI i atal a chanfod twyll. Mynegodd y pwyllgor bryder bod yr adroddiad yn amlygu dros 5,000 o bariadau data "risg uchel" yn gysylltiedig â Disgownt Person Sengl y Dreth Gyngor, ond rhoddodd Archwilio Cymru sicrwydd i'r pwyllgor nad oedd pob pariad yn arwydd o dwyll. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau sicrwydd i'r pwyllgor bod gan y cyngor drefniadau ar gyfer adennill disgowntiau anghymwys, a thra bod y pariadau'n rhai dilys, mae adolygiad ar y gweill gan drydydd parti, er ei fod wedi'i ohirio am y tro.<br><br>Derbyniodd y pwyllgor adroddiad cadarnhaol gan **Archwilio Cymru ar y modd y mae'r cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn a balansau**. Daeth yr archwiliad i'r casgliad bod y cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn yn effeithiol ac yn eu hadolygu'n rheolaidd, ond roedd yn argymell bod y cyngor yn ffurfioli ei brotocolau ar gyfer defnyddio ac adnewyddu cronfeydd wrth gefn, ynghyd â gosod meini prawf clir ar gyfer creu cronfeydd wrth gefn. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Adnoddau y pwyllgor ei fod wedi derbyn yr argymhelliad hwn. Nododd y pwyllgor fod ganddo hyder yng nghamau arfaethedig y cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion.<br><br>Derbyniodd y pwyllgor adroddiad gan **Archwilio Cymru ar drefniadau'r cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau**. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad yw'r cyngor yn mynd ati'n gyson i geisio sicrhau gwerth am arian drwy'r gwasanaethau a gomisiynir ganddo. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar dri gwasanaeth - rheoli gwastraff, digartrefedd ymysg pobl ifanc, a thrafnidiaeth ysgol - ond roedd y gwasanaethau'n anghytuno â'r canfyddiadau, gan daeru bod prosesau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian. Er hyn, nid oedd Archwilio Cymru'n derbyn yr adborth. Mynegodd y pwyllgor bryder nad oedd y sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddod i'r casgliad hwn yn ddigonol ac roedd o'r farn nad oedd y sampl yn ddigon mawr i gynrychioli arferion contractio ehangach y cyngor. Mynegodd yr aelodau bryder hefyd am nad oedd adborth y cyngor wedi cael ei gynnwys yn yr adroddiad terfynol. Eglurodd Archwilio Cymru bod yr archwiliad wedi asesu arferion comisiynu corfforaethol, ac ni wnaeth beth fo maint y sampl, roedd y casgliad yn seiliedig ar ddiffyg arfer gorau yn nhrefniadau comisiynu corfforaethol y cyngor. Mae'r rheolwyr yn bwrw 'mlaen â'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion, er gwaetha'r anghytuno ynglŷn â'r canlyniadau. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau amlinelliad o'r strategaeth gaffael arfaethedig a chadarnhaodd bod rheolwr caffael parhaol wedi cael ei benodi. Fe wnaeth y pwyllgor nodi'r camau gweithredu ond nid oedd yn gallu derbyn casgliadau'r archwiliad oherwydd ei fod o'r farn nad oedd y dystiolaeth yn ddigonol. Daeth y pwyllgor i'r casgliad nad oedd adroddiad Archwilio Cymru wedi rhoi sicrwydd iddo ar yr adeg hon.<br><br>Yn olaf, cadarnhaodd y pwyllgor bod y **Flaen Raglen Waith ar gyfer gweddill 2025-26** yn cwrdd â chyfrifoldebau'r pwyllgor. |
| **3 Chwefror 2026** | Ystyriodd y Pwyllgor **wyth** prif eitem. |

Gofynnodd y pwyllgor am gael newid y penderfyniad o dan eitem 14 yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2025 mewn perthynas ag adroddiad gan Archwilio Cymru.

Adolygodd y pwyllgor ei **Log Gweithredoedd**. Nodwyd bod pedwar gweithred wedi'u cwblhau a chafwyd diweddariad ar weithred yn gysylltiedig â pholisi Deallusrwydd Artiffisial y cyngor.

Cefnogodd y pwyllgor gynnig i **newid y Cyfansoddiad** er mwyn rhoi'r hawl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn hytrach na'r Cyngor llawn, gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Byddai alinio trefniadau cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol â threfniadau ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol, a oedd eisoes wedi cael ei ddirprwyo i'r pwyllgor, yn symleiddio'r broses ac yn osgoi pwysau amserlennu yn gysylltiedig â dyddiad cau Llywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon, sef 30 Medi. Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd, a bydd copi drafft yn cael ei gylchredeg i bob Aelod ym mis Mehefin.

Mynegodd y pwyllgor bryderon ynglŷn â'r **adroddiad blynyddol ar lywodraethu gwybodaeth mewn ysgolion a gynhelir 2024-25**, gan gynnwys diffyg capasiti Swyddog Diogelu Data yn sgil absenoldeb tymor hir, sy'n golygu fod y gwaith yn canolbwyntio ar ddyletswyddau statudol a rheoli digwyddiadau, yn hytrach nag ar sicrwydd rhagweithiol, diffyg data manwl, y sail ar gyfer y farn sicrwydd a ph'un a yw'r trefniadau dros dro yn ddigonol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y swydd Swyddog Diogelu Data yn parhau i fod yn swydd barhaol a'i bod yn fwriad sefydlogi capasiti, cryfhau gwaith rhagweithiol a darparu data mwy llawn mewn adroddiadau yn y dyfodol. Bydd darparu cefnogaeth ychwanegol i ysgolion yn cael ei ystyried. Roedd y pwyllgor yn cydnabod fod yr adroddiad yn adlewyrchu cyfnod dros dro ac y byddai cefnogaeth ychwanegol yn cael ei ddarparu.

Penderfynodd y pwyllgor nodi'r **Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27** ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau pellach. Roedd yn nodi trefniadau'r cyngor ar gyfer benthyca, buddsoddi a llif arian. Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 y byddai'r cyngor yn benthyca'n allanol pan fydd hynny'n angenrheidiol ac y bydd yn parhau i fenthyca'n fewnol lle'n bosib, ac yn parhau i fuddsoddi mewn sefydliadau risg isel. Mae anghenion benthyca'n cynyddu o dan bob senario yn y Strategaeth Gyfalaf, er bod yr achos sylfaenol yn parhau i fod yn gynaliadwy. Mae dangosyddion darbodus yn cadarnhau fod y cynlluniau'n fforddiadwy. Cafwyd eglurhad ynglŷn â chosbau ad-dalu'r PWLB, monitro parhaus drwy adroddiadau chwarterol, yr adolygiad o wasanaethau ymgynghori rheoli trysorlys sydd ar y gweill, sail y gyllideb MRP, ymrwymiadau cyfalaf o fewn yr achos sylfaenol a manteision cymryd benthyciadau gan y PWLB.

Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad ar waith **Archwilio Mewnol**, gan gynnwys adolygiad o Reolaethau Ffisegol ac Amgylcheddol mewn Canolfannau Data, a dderbyniodd Sicrwydd Rhesymol. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod graddfeydd sicrwydd yn dilyn diffiniadau sy'n cyd-fynd â rhai CIPFA a'u bod yn destun adolygiad ansawdd mewnol i sicrhau cysondeb a chyfyngu ar oddrychiaeth. Mewn ymateb i gwestiwn am ohirio'r archwiliad Rheoli Asedau TG i 2026/27, nodwyd fod hyn oherwydd pwysau ar gapasiti TGCh ac nid oherwydd unrhyw risg, a nodwyd ac y byddai'n cael ei gynnwys yn y cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Nododd y pwyllgor ddiweddariad ar yr adolygiad cynhwysfawr o'r **Gofrestr Risgiau Strategol**. Gyda chefnogaeth gan Zurich Risk Solutions, mae gwaith pellach yn parhau i fynd rhagddo gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, ochr yn ochr ag adolygiad o archwaeth risg y cyngor. Cyflwynir cofrestr wedi'i diweddaru'n llawn ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, ond bydd y gofrestr yn cael ei diweddaru'n gyson hefyd. Mewn ymateb i gwestiynau, esboniodd y gallai'r tebygolrwydd a'r effaith newid rhwng y risg cynhenid a gweddilliol, lle mae'r rheolaethau'n lleihau nid yn unig y tebygolrwydd, ond difrifoldeb canlyniad hefyd.

Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad ar gynnydd yn erbyn gweithredoedd y **Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Hunanasesiad 2024-25**. O'r chwe gweithred, mae rhai ar ei hôl hi, a phwysau adnoddau sydd i gyfrif am yr oedi. Ar gyfer Gweithred Gwella 2 (Caffael), mae disgwyl y bydd y Rheolwyr Caffael a benodwyd yn ddiweddar yn cynorthwyo i roi'r gwaith yn ôl ar y llwybr cywir. Mae gweithredoedd 'gwyrdd' yn parhau i fod yn unol â'r amserlen; bydd gweithredoedd sy'n profi oedi yn parhau i gael eu monitro, er na ellir gwarantu y byddant yn cael eu cwblhau ar amser ar hyn o bryd.

Fe wnaeth y pwyllgor ystyried **Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2025**. Trafododd yr aelodau drefniadau gwerth am arian, prydlondeb gwaith Archwilio Cymru, cyflwyno'r adroddiad, a chynnydd mewn perthynas â chywiro camddatganiad yng nghyfrifon 2024/25. Cadarnhaodd Archwilio Cymru fod ei

Tudalen 37

| | |
|---|---|
| | Fwrdd yn goruchwylio ffioedd ac effeithiolrwydd a'u bod yn cael eu meincnodi'n genedlaethol. Mae prydlondeb wedi gwella yn dilyn y pandemig a byddai adborth ynglŷn â chyflwyno'n cael ei gyfleu. Byddai'r camddatganiad ariannol yn cael ei gywiro yng nghyfrifon drafft 2025-26.<br><br>Yn olaf, cadarnhaodd y pwyllgor bod y **Flaen Raglen Waith ar gyfer gweddill 2025-26** yn cwrdd â chyfrifoldebau'r pwyllgor. Cytunodd Archwilio Cymru i gylchredeg ei Raglen Chwarter 3 a Diweddariad ar yr Amserlen ymysg aelodau ar ôl ei gwblhau, oherwydd y bwlch cyn y cyfarfod nesaf ym mis Mai. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn am hyfforddiant, a gofynnwyd am sesiwn ddiweddaru ar gyfrifon blynyddol y cyngor. |
| **14 Mai 2026** | Ystyriodd y Pwyllgor **wyth** prif eitem.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor ethol Mr Dilwyn Evans yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Euryn Morris yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor adolygu ei **Log Gweithredoedd**, a chafwyd diweddariad ar hynt polisi AI y cyngor. Roedd dau gam gweithredu yn weddill, a byddant yn cael eu cwblhau'n ddiweddarach yn y flwyddyn.<br><br>Fe wnaeth y pwyllgor adolygu a chymeradwyo y Cylch Gorchwyl diwygiedig, sy'n adlewyrchu'r newid i gyfnod aelodau lleyg yn y swydd, pan gânt eu penodi ynghanol tymor y cyngor. Amlinellodd y Pennaeth Archwilio a Risg y newidiadau, sy'n cynnwys cael gwared ar y gofyniad i sicrhau bod cyfnod aelodau lleyg yn y swydd yn cyd-fynd â thymor y cyngor. Fe wnaeth y pwyllgor nodi'r manteision (mwy o ddilyniant, llai o faich recriwtio a chyd-fynd ag arferion ehangach o fewn y cyngor yn gysylltiedig â rolau annibynnol) yn ogystal â'r anfanteision (newid y cyfansoddiad, cyfnodau gwasgaredig a chyfnodau sydd ddim o reidrwydd yn cyd-fynd â sesiynau hyfforddi).<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg **ddiweddariad** ar yr archwiliadau a gwblhawyd, y gwaith sydd ar y gweill a blaenoriaethau. O'r pum archwiliad a adolygwyd, derbyniodd un sicrwydd sylweddol, derbyniodd dri sicrwydd rhesymol a derbyniodd un archwiliad dilynol - Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - sicrwydd cyfyngedig, sy'n arwydd bod pryderon yn parhau i fodoli. Cwestiynodd yr aelodau yr amser y mae'n ei gymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn gysylltiedig â'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r camau gweithredu sy'n weddill yn cael eu cwblhau.<br><br>Darparodd y Prif Archwilydd adroddiad ar y **materion Archwilio Mewnol sy'n weddill**. Ar 31 Mawrth 2026, roedd 78 o faterion Archwilio Mewnol yn weddill, gyda chwech yn 'sylweddol' (ambr) a 72 yn 'gymedrol' (melyn); doedd dim yn gritigol. O ystyried y trafodaethau ynglŷn â'r archwiliad dilynol - Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - yn ystod yr eitem flaenorol, pwysleisiodd y pwyllgor bod angen i reolwyr gymryd mwy o berchnogaeth dros gamau gweithredu a gofynnwyd a oedd digon o gynnydd wedi cael ei wneud i osgoi trydydd adolygiad dilynol. Derbyniwyd bod y cynnydd yn foddhaol ar y cyfan, ond mae pryderon o hyd ynglŷn â'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Gofynnodd y pwyllgor i'r Pennaeth Tai ddarparu diweddariad pellach ar hynt y camau gweithredu sy'n weddill yng nghyfarfodydd mis Mehefin a Gorffennaf.<br><br>Cyflwynodd Archwilio Cymru ei **Gynllun Archwilio ar gyfer 2026** a oedd yn nodi ei waith archwilio ariannol a pherfformiad ar gyfer 2026-27. Eglurwyd y ffi archwilio ar gyfer 2026, a nodwyd bod rhaid i'r cyfrifon gael eu hardystio erbyn mis Medi 2026, gan ddychwelyd i'r amserlen a oedd yn bodoli cyn y pandemig. Disgwylir i waith perfformiad i asesu gwerth am arian, yn cynnwys tri adolygiad arfaethedig; trefniadau rheoli risg; effeithlonrwydd canlyniadau prosiectau'n gysylltiedig â Chynllun y Cyngor; a rheoli eiddo buddsoddi, gael ei gwblhau erbyn mis Mehefin 2027 i raddau helaeth. Nododd y pwyllgor y gwaith archwilio arfaethedig a'r ffioedd cysylltiedig.<br><br>Derbyniodd y pwyllgor adroddiad gan Archwilio Cymru ar drefniadau'r cyngor **ar gyfer rheoli perfformiad ei wasanaeth ailgylchu**. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan y cyngor drefniadau effeithiol, sydd wedi hen ymsefydlu ar gyfer rheoli ei berfformiad ailgylchu, yn cynnwys cynlluniau cadarn, trefniadau adrodd a meincnodi clir, cyswllt rhagweithiol â'r cyhoedd, a goruchwyliaeth reolaidd o ganlyniadau contractau a gwariant. Nid oedd unrhyw argymhellion, ond roedd yr adroddiad yn nodi y bydd gwerth am arian yn y dyfodol yn dibynnu ar lwyddo i wella cyfraddau ailgylchu ac osgoi dirwyon posib am fethu targedau cenedlaethol. Fe wnaeth y pwyllgor dderbyn canfyddiadau'r pwyllgor a derbyn y sicrwydd yr oedd yr adroddiad yn ei gynnig. |

| | |
|---|---|
| | Fe wnaeth y pwyllgor ystyried yr **Adroddiad Yswiriant Blynyddol ar gyfer 2025-26**. Fe wnaeth y Pennaeth Archwilio a Risg amlinellu trefniadau yswiriant y cyngor yn ogystal â'r gweithgareddau'n gysylltiedig â hawliadau a thueddiadau. Clywodd y pwyllgor bod lefel yr hawliadau yn sefydlog ar y cyfan, a bod cyfraddau gwrthod yn gadarn. Fodd bynnag, mae disgwyl i risgiau megis newid hinsawdd, safonau tai newydd, chwyddiant, a hawliadau yn y gorffennol gynyddu premiymau yn y dyfodol. Trafododd yr aelodau ddulliau cyfrifeg ar gyfer ymdrin â gordaliadau yn gysylltiedig â hawliadau posib wrth osod y gyllideb flynyddol a diffyg gwybodaeth feincnodi ranbarthol. Penderfynodd y pwyllgor nodi'r adroddiad, yn cynnwys y tueddiadau, risgiau a mesurau lliniaru.<br><br>Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y **Flaen Raglen Waith** arfaethedig ar gyfer 2026-27. Gwahoddwyd aelodau hefyd i rannu unrhyw anghenion hyfforddi penodol.<br><br>Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf Mr Dilwyn Evans fel Cadeirydd ac aelod lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mynegodd ei ddiolch i'r holl aelodau a swyddogion am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd a nododd ei fod wedi bod yn brofiad gwerthfawr. Dymunodd yn dda i'r pwyllgor yn y dyfodol.<br><br>Yn dilyn y cyfarfod ffurfiol cynhaliwyd cyfarfod preifat rhwng aelodau'r pwyllgor a'r archwilwyr. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 25 Mehefin 2026 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2025-26 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi bod rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio holl drefniadau archwilio mewnol y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn gofyn iddo:

- Adolygu adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio a Risg ar berfformiad archwilio mewnol (3.4.8.10.6).
- Ystyried yr arfarniad o briodoldeb ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau llywodraethu, rheoli risg a fframwaith reoli'r Cyngor, a'r gwaith sy'n cefnogi'r asesiad hwn, ac ystyried hyn wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (3.4.8.10.7).
- Asesu lefel y gydymffurfiaeth â safonau archwilio mewnol perthnasol a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella, sy'n cefnogi dibynadwyedd casgliadau archwilio mewnol (3.4.8.10.8).

Yn ychwanegol at hyn, mae 'Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU'[1] yn gofyn i bob prif swyddog archwilio ddod i gasgliad ynglŷn ag effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a/neu reolaeth ar lefel y sefydliad.

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2025-26 i'r Pwyllgor, yn ogystal â safbwynt cyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg ar briodoldeb ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Cyngor, sut mae'n rheoli risg a rheolaeth yn ystod y flwyddyn.

1.2. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r sicrwydd a ddarparwyd, ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, barn Pennaeth Archwilio a Risg

[1] 'Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU' newydd yn berthnasol, sef fframwaith sy'n seiliedig ar y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA), Nodyn Cymhwyso – Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a gyhoeddwyd gan y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) a Chod CIPFA ar Lywodraethu Archwilio Mewnol, sydd yn darparu gofynion penodol sy'n berthnasol i'r sector llywodraeth leol.

Cyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith ddigonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

1.3. Er nad wyf yn ystyried bod unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro. Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.

1.4. Yn ogystal, yn dilyn asesiad mewnol, mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'i 'safbwynt' cyffredinol, yn bennaf er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol:

- crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a'r sicrwydd a ddarparwyd.
- y safbwynt cyffredinol.
- perfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, yn bennaf, nodi lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU.

# Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2025-26

**Mehefin 2026**




**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**




# Cynnwys

Cyflwyniad ____ 2

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2025 -26 ____ 3

Materion perthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ____ 4

Sail Fy Marn ____ 4

Y Drydedd Linell Sicrwydd - archwilio risgiau strategol a gwaith archwilio arall ____ 4

Adnoddau, capasiti a sgiliau ____ 8

Cadarnhad o annibyniaeth sefydliadol, llinellau adrodd, a gwrthrychedd. ____ 8

Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ____ 9

Cyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol ____ 11

Heriau a chyfleoedd i'r dyfodol ____ 12

Atodiad A: Diffiniad o Raddfeydd Sicrwydd 2025-26 ____ 13

Atodiad B: Map Sicrwydd (Trydedd Linell) - Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol 2025-26 ____ 14

Atodiad C: Gwaith Archwilio Mewnol Arall yn 2025-26 ____ 17

# Cyflwyniad

1. Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), a gyflwynwyd yn sector cyhoeddus y DU drwy'r Nodyn Cymhwyso a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2025, yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r prif swyddog archwilio (y Pennaeth Archwilio) ddarparu adroddiad blynyddol sy'n cefnogi barn flynyddol y sefydliad ac sy'n gydnaws â'r disgwyliadau llywodraethiant sydd wedi'u nodi yn y Safonau.

2. Mae'r Nodyn Cymhwyso hefyd yn rhoi cyfarwyddyd i gyrff yn y sector llywodraeth leol ddefnyddio Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU er mwyn cefnogi awdurdodau i sefydlu eu trefniadau archwilio mewnol a darparu trosolwg a chefnogaeth i archwilio mewnol.

3. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cynnwys:

- Barn archwilio mewnol clir ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethiant, prosesau rheoli risg a rheoli sy'n cyd-fynd â blwyddyn ariannol y sefydliad.
- Unrhyw faterion perthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Unrhyw risgiau sylweddol, problemau rheoli neu gyfyngiadau a all effeithio ar y farn flynyddol.
- Tystiolaeth o'r modd yr aethpwyd ati i gyflawni'r mandad archwilio mewnol, yn cynnwys gwaith sgopio, y math o wasanaethau a ddarparwyd a'r sicrwydd a roddwyd.
- Crynodeb o adnoddau, capasiti a sgiliau, er mwyn dangos bod y swyddogaeth archwilio mewnol wedi'i staffio'n ddigonol ac yn gymwys i gyflawni ei fandad.
- Cadarnhad o annibyniaeth sefydliadol, llinellau adrodd, a'r modd y mae'r prif swyddog archwilio wedi sicrhau gwrthrychedd.

- Canlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella.
- Adrodd ar hynt y Strategaeth Archwilio Mewnol, yn cynnwys sut mae gweithgareddau archwilio mewnol wedi cefnogi amcanion y sefydliad a disgwyliadau rhanddeiliaid.

4. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn sicrhau bod yr adroddiad blynyddol yn darparu barn gadarn, seiliedig ar dystiolaeth ac yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU.

# Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 2025 -26

**Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, barn Pennaeth Archwilio a Risg Cyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.**

**Er nad wyf yn ystyried bod unrhyw feysydd y mae pryder corfforaethol sylweddol yn eu cylch, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.**

**Mae hon yn farn ddiamod.**

# Materion perthnasol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

5. Nid oes unrhyw faterion o risg uchel nac effaith sylweddol sydd angen eu crybwyll yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
6. Yn ystod 2025-26, rydym o'r farn bod uwch reolwyr yn y cyngor yn gefnogol ac yn ymatebol i'r materion rydym wedi'u codi. Mae gennym berthynas dda gyda rheolwyr; maent yn barod i drafod y meysydd hynny sydd, yn eu barn nhw, yn debygol o achosi problemau, ac maent yn ystyried canlyniadau ein gwaith fel cyfle i wneud gwelliannau.
7. Rydym wedi cael ein comisiynu hefyd i wneud gwaith ymgynghorol yn ystod y flwyddyn ar gais rheolwyr ac mae hynny'n arwydd pendant bod rheolwyr yn barod i weithio gydag Archwilio Mewnol i sefydlu amgylcheddau risg a rheolaeth da.



# Sail Fy Marn

## Cwmpas

8. Rydw i wedi cyrraedd fy marn trwy ystyried y gwaith a'r gweithgareddau a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn ac maent yn cael eu trafod ymhellach dan y pennawd y Drydedd Linell Sicrwydd isod.
9. Nid yw'r farn yn awgrymu ein bod wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd yn ymwneud â'r cyngor. Mae'n deillio'n sylweddol o bennu strategaeth ar sail risg, y mae rheolwyr wedi cyfrannu ati ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2025. Dylai ddarparu sicrwydd rhesymol, yn amodol ar y cyfyngiadau cynhenid isod.

## Cyfyngiadau

10. Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw wrth i ni gyflawni ein gwaith a'n gweithgareddau o fewn y cyngor a godir yn yr adroddiad hwn. Nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellir eu gwneud. Ni ddylid ystyried chwaith bod yr adroddiad hwn, nac ein gwaith, yn disodli cyfrifoldeb rheolwyr i roi arferion rheoli mewnol cadarn ar waith. Pwysleisiwn mai cyfrifoldeb rheolwyr yw sicrhau system gadarn o reolaethau mewnol ac ni ddylid dibynnu ar ein gwaith i nodi'r holl gryfderau a gwendidau a all fodoli.

# Y Drydedd Linell Sicrwydd - archwilio risgiau strategol a gwaith archwilio arall

11. Er mwyn cael sicrwydd digonol fel sail i'r farn, roedd yn rhaid ystyried adolygiadau archwilio mewnol o'r risgiau strategol a

gwaith archwilio arall, a'r raddfa sicrwydd a ddarparwyd. Mae diffiniadau o raddfeydd sicrwydd oedd ar waith yn 2025-26 i'w gweld yn Atodiad A.

## Archwilio risgiau strategol

12. Ein nod yw archwilio 80% o risgiau gweddilliol coch ac ambr yn ystod cylch dwy flynedd.

13. Yn ystod 2025-26, yn dilyn cynnal adolygiad cynhwysfawr o risgiau'r cyngor wrth gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol, barnwyd bod 11 ohonynt â gradd risg gweddilliol coch neu ambr a chawsant eu cofnodi yn y gofrestr risgiau strategol.

14. Mae corff allanol wedi darparu sicrwydd ar gyfer un risg strategol; drwy weithio mewn partneriaeth mae'r cyngor a CLlLC wedi comisiynu *Netherwood Sustainable Futures* i gynnal adolygiad annibynnol o Gynllun Strategol Sero Net y Cyngor 2022 - 2025. Darparodd yr adolygiad sicrwydd i'r cyngor ei fod yn symud i'r cyfeiriad cywir er mwyn cwrdd â'i amcanion Sero Net a chynigwyd argymhellion er mwyn gwella ei ddull.

15. Daeth yr adolygiad i'r casgliad er bod y cyngor wedi gwneud cynnydd cyflym i gadarnhau bod Sero Net yn flaenoriaeth gorfforaethol, ni fydd yn bosib cyrraedd y targed Sero Net erbyn 2030, oherwydd allyriadau Cwmpas 3 y gadwyn gyflenwi a phrinder tir ar gyfer atafaelu carbon. Defnyddiwyd argymhellion yr adolygiad fel sail i ddatblygu Cynllun Strategol Tuag at Sero Net newydd ar gyfer 2026 - 2031.

16. Fe wnaethom adolygu 8 (80%) o'r 10 risg gweddilliol coch ac ambr (8 / 80% yn 2024-25) dros gyfnod o 24 mis. (Manylion yn Atodiad B).

17. Roeddem yn gallu darparu sicrwydd 'Rhesymol' bod y cyngor yn rheoli pob risg strategol, namyn un, a adolygwyd gennym yn effeithiol.

18. Fe wnaethom ddarparu sicrwydd 'Cyfyngedig' ar gyfer un archwiliad - Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025. Cwblhawyd y darn hwn o waith ar ein rhan gan Dîm Archwilio TG Cyngor Salford. Daethant i'r casgliad nad yw ysgolion uwchradd, at ei gilydd, yn lliniaru'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â threfniadau llywodraethu, isadeiledd a diogelwch TGCh i lefel dderbyniol. Roedd pryderon yn gysylltiedig â mesurau rheoli diogelwch TGCh allweddol, yn ogystal â risgiau diogelu posib.

19. Cyflwynodd y cyngor nifer o fentrau i wella gwasanaethau TGCh mewn ysgolion i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Fodd bynnag, gan fod y prosiectau hyn yn rhai tymor canolig, nid ydynt yn lliniaru'r heriau presennol ar unwaith.

20. Rydym wrthi'n cynnal adolygiad dilynol ar y cyd â'r tîm Archwilio TG yng Nghyngor Salford i asesu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion a risgiau a godwyd.

## Gwaith archwilio arall

21. Fe wnaethom adolygu meysydd allweddol eraill o weithgareddau'r cyngor hefyd, yn cynnwys meysydd yr oedd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi codi pryderon yn eu cylch (manylion yn Atodiad C).

22. O'r naw archwiliad (11 yn 2024-25) o'r math hwn a gynhaliwyd yn 2025-26, roeddem yn gallu rhoi'r sicrwydd canlynol:

- Un gyda sicrwydd 'Sylweddol' (dim yn 2024-25),
- Pump gyda sicrwydd 'Rhesymol' (wyth yn 2024-25),
- Tri gyda sicrwydd 'Cyfyngedig' (tri yn 2024-25).

23. Mae'r tri adroddiad sicrwydd 'Cyfyngedig' yn ymwneud â:

- **Gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**. Yn dilyn yr archwiliad gwreiddiol ym mis Ebrill 2024, cynhaliom adolygiad

dilynol ym mis Mawrth 2025. Cynhaliom adolygiad dilynol pellach yn 2025-26, ond nid yw'r gwaith a gwblhawyd yn ddigonol i gynyddu'r raddfa sicrwydd. Gofynnwyd i'r Pennaeth Gwasanaeth ddarparu diweddariad llafar yng nghyfarfodydd y pwyllgor ym mis Mehefin a Gorffennaf 2026, ac mae trydydd adolygiad dilynol ar y gweill ym mis Medi 2026.


- **Rheoli Cyflenwyr TG**. Yn dilyn yr archwiliad gwreiddiol ym mis Ebrill 2024, cynhaliom adolygiad dilynol ym mis Mawrth 2025. Roedd y materion a risgiau gweddilliol a godwyd yn ymwneud â chaffael o fewn y cyngor cyfan a'r swydd Rheolwr Craffu Corfforaethol sydd yn dal i fod yn wag. Cafodd archwiliad pellach ei ohirio tan 2026-27, ar ôl penodi i'r rôl.
- **Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion: Asesiadau Ariannol - Gofal Preswyl a Nyrsio.** Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y cyngor yn cymryd camau i wella ei drefniadau ar gyfer codi ac adennill ffioedd cartrefi gofal preswyl, serch hynny nid yw'r newidiadau hyn wedi'u gwireddu'n llawn eto. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod angen gwelliannau pellach, yn benodol er mwyn lleihau'r ôl-groniad presennol i sicrhau bod y cyngor yn adennill yr arian sy'n ddyledus iddo. Gan mai gwir achos yr ôl-groniad yw diffyg staff mae'r gwasanaeth wedi cytuno i recriwtio aelod staff am gyfnod penodol i fynd i'r afael ag o. Mae adolygiad dilynol ar y gweill er mwyn asesu'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion a risgiau a godwyd.

## Graddfeydd Sicrwydd Archwilio Mewnol a ddarparwyd yn ystod 2025-26

24. Yn gyffredinol, roeddem yn gallu darparu sicrwydd 'Rhesymol' neu well ar gyfer 73% (72% yn 2024-25) o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod 2025-26.

25. Derbyniodd pedwar archwiliad (27%) sicrwydd 'Cyfyngedig' yn ystod y flwyddyn, o'i gymharu â phedwar (22%) yn 2024-25.

26. Mae'n werth nodi na dderbyniodd yr un archwiliad 'Ddim' sicrwydd.




27. Yn unol â'n protocol, rydym yn ail-ymweld yn ffurfiol â'r holl faterion, risgiau a chyfleoedd a godwyd mewn adroddiadau â sicrwydd 'Cyfyngedig' ar ddiwedd y cyfnod gweithredu, er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu cyflawni'n effeithiol.


28. Pan ddaethom o hyd i faterion, risgiau a chyfleoedd, cawsant eu derbyn gan reolwyr a'u monitro drwy ein system olrhain gweithredoedd, a drafodir ymhellach yn yr adran sy'n dilyn.

## Materion / Risgiau / Cyfleoedd a Godwyd

29. Rydym yn monitro'r holl weithredoedd y mae rheolwyr yn eu cynnig er mwyn mynd i'r afael â'r materion, risgiau a chyfleoedd a godwyd ac rydym yn cysylltu â rheolwyr ar ddiwedd y cyfnod gweithredu er mwyn sicrhau eu bod wedi derbyn sylw.

30. Rydym yn defnyddio system olrhain gweithredoedd y cyngor, 4action, i fonitro'r 'Materion', 'Risgiau' a 'Chyfleoedd' sy'n cael eu codi gennym fel rhan o'n gwaith. Rydym wedi datblygu a mireinio dangosfwrdd i ddefnyddwyr ar 4action, sy'n dangos darlun gwirioneddol o berfformiad cyfredol o ran mynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n hwyluso'r gwaith o fonitro ac adrodd ar yr wybodaeth hon. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus fel ein bod yn gallu derbyn diweddariad prydlon gan reolwyr ynglŷn â'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'r gweithredoedd hyn.


### Materion / Risgiau / Cyfleoedd a godwyd yn 2025-26




31. Yn ystod 2025-26, gwnaethom godi 50 (63 yn 2024-25) 'Mater / Risg / Cyfle' oedd angen sylw gan reolwyr. Gwnaethom raddio 4 (10 yn 2024-25) yn 'sylweddol' (ambr) a 46 (5 yn 2024-25) yn 'gymedrol' (melyn).

32. Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion / risgiau / cyfleoedd 'Critigol' (coch) yn ystod y flwyddyn, ac nid oes 'materion / risgiau / cyfleoedd' 'Critigol' (coch) angen sylw ar hyn o bryd.


### Gweithredoedd Cyfredol




33. Ar 31 Mawrth 2026, roeddem yn cadw llygaid ar 78 o weithredoedd oedd angen eu cwblhau (52 ar 31 Mawrth 2025). Roedd chwech o'r gweithredoedd hyn (wyth yn 2024-25) yn risgiau 'sylweddol' (ambr) a 72 (44 yn 2024-25) yn 'gymedrol' (melyn), fel y gwelir isod.

### Gweithredoedd Hwyr

34. Ar 31 Mawrth 2026, roedd tair gweithred (dim yn 2024-25) yn 'hwyr' gan nad oedd rheolwyr wedi eu cwblhau erbyn y dyddiad a bennwyd. Mae'r rhain yn gysylltiedig â thri 'mater/risg' 'cymedrol' a godwyd yn ystod archwiliad o'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.



# Adnoddau, capasiti a sgiliau

## Adnoddau

35. Wrth gyflawni'r strategaeth archwilio ar sail risg, mae'r prif swyddog archwilio, gyda chefnogaeth y Tîm Arweinyddiaeth, wedi gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau archwilio mewnol oedd ar gael yn ystod y flwyddyn.
36. Mae un swydd yn cael ei chadw'n wag o hyd er mwyn ein galluogi i ddefnyddio'r gyllideb i gomisiynu arbenigwyr archwilio mewnol, ac mae'r trefniant hwn yn gweithio'n dda. Yn ogystal ag archwilwyr TG yng Nghyngor Salford, rydym wedi defnyddio dau arbenigwr archwilio mewnol arall.
37. Er ein bod ni wedi colli un aelod o'r tîm archwilio mewnol yn ystod 2025-26, sydd wedi symud i rôl newydd o fewn y tîm a sefydlwyd i ofalu am faterion yswiriant a gwrth-dwyll, llwyddom i lenwi'r swydd wag yn gyflym a phenodi Uwch Archwilydd newydd ym mis Rhagfyr 2025. Er nad oes ganddynt brofiad na chymwysterau archwilio mewnol ffurfiol, mae ganddynt brofiad gweithredol helaeth a sgiliau trosglwyddadwy, ac maent yn derbyn cefnogaeth fel rhan o'r broses gynefino.

## Sgiliau

38. Mae gan uwch aelodau'r tîm amrywiaeth o gymwysterau proffesiynol ac mae'r gymysgedd yn dda, gan gynnwys CIPFA, CIIA[1], IRRV[2], ACFS ac ACFTech[3]. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau fod staff yn parhau â'u datblygiad proffesiynol a'u bod yn ymwybodol o'r risgiau a'r datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y sector. Rydym hefyd wedi cymryd rhan ym mhob hyfforddiant corfforaethol gorfodol, lle'r oedd hynny'n ofynnol.

# Cadarnhad o annibyniaeth sefydliadol, llinellau adrodd, a gwrthrychedd.

39. Yn unol â'r Safonau, mae'n rhaid i'r prif swyddog archwilio gadarnhau, o leiaf unwaith y flwyddyn, annibyniaeth y gweithgarwch archwilio mewnol.
40. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob blwyddyn er mwyn ei gymeradwyo. Mae'n diffinio sut y gellir sicrhau a chynnal annibyniaeth wrth archwilio mewnol, llinellau adrodd y prif swyddog archwilio a sut y gellir sicrhau gwrthrychedd. Fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2025
41. Yn unol â hynny, nid yw'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cymryd unrhyw ran yn y gwaith o gynnal ac adrodd ar archwiliadau mewn meysydd lle mae gwrthdaro'n bodoli, ac mae llinellau adrodd a gwrthrychedd wedi cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol.

[1] Mae'r CIIA (Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol) yn gymdeithas broffesiynol ar gyfer archwilwyr mewnol.
[2] Yr IRRV (Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw) yw'r corff proffesiynol ar gyfer trethi lleol, budd-daliadau a phrisio.
[3] Mae'r ACFS a'r ACFTech yn gymwysterau atal twyll sy'n cael eu darparu gan y Bwrdd Achredu Proffesiynol Atal Twyll.

# Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella

42. Mae'r Safonau'n nodi bod yn rhaid i'r prif swyddog archwilio gynhyrchu Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella i werthuso'r swyddogaeth archwilio mewnol a chadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol, cwrdd â'r amcanion perfformiad a sicrhau gwelliant parhaus. Mae'n cynnwys pedwar prif elfen a rhaid adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr unwaith y flwyddyn o leiaf:

- Asesiad ansawdd allanol (Safon 8.4)
- Asesiad ansawdd mewnol (Safon 12.1)
- Mesur Perfformiad (Safon 12.2)
- Goruchwylio a gwella perfformiad ymgysylltu (Safon 12.3)

## Asesiad ansawdd allanol

43. Roedd Safonau Archwilio Mewnol blaenorol y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod gwasanaethau archwilio mewnol yn cael asesiad allanol unwaith bob pum mlynedd, ac roedd yn rhaid i'r asesiad gael ei gynnal gan asesydd neu dîm asesu cymwys ac annibynnol o du allan i'r sefydliad.

44. Cwblhawyd yr asesiad allanol diwethaf o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn drwy gyfrwng adolygiad cymheiriaid gan Gyngor Sir Y Fflint.

45. Daeth yr asesiad i ben ym mis Mai 2023, a chadarnhawyd y canlynol:

"Wedi i Gyngor Sir y Fflint ddilysu'r hunanasesiad, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' â'r gofynion. 'Cydymffurfio'n Gyffredinol' yw'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth yn dilyn asesiad allanol… Yn gyffredinol, mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio â'r safonau ym mhob maes arwyddocaol ac mae'n gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol."

46. Mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru wedi sefydlu rhaglen adolygu cyfoedion ar gyfer y rownd nesaf o asesiadau, a bydd Cyngor Sir Benfro yn asesu Cyngor Sir Ynys Môn yn 2028.

## Asesiad ansawdd mewnol

47. Cwblhawyd hunanasesiad yn erbyn y safonau newydd ym mis Mehefin 2025 er mwyn penderfynu beth oedd angen ei newid er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio ag egwyddorion y fframwaith newydd. Yn gyffredinol, oherwydd ymagwedd fodern y cyngor mewn perthynas ag archwilio mewnol, amlygodd yr asesiad bod swyddogaeth archwilio mewnol y cyngor yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â'r gofynion newydd.

48. Cyflwynwyd adroddiad ar yr hunanasesiad mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Gorffennaf 2025.

49. Mae angen cryfhau rhai meysydd a drafftiwyd cynllun gweithredu gweithredol sy'n cynnwys amserlenni, yn ogystal â neilltuo cyfrifoldebau. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithredoedd yn ymwneud â chryfhau trefniadau casglu gwybodaeth er mwyn cefnogi arferion gweithio. Mae'r gwaith yn parhau a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2026-27.

## Mesur Perfformiad

50. Ym mis Mehefin 2025, cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar nifer o dargedau perfformiad yn y Strategaeth ar gyfer 2025-26, a gellir eu gweld isod.

| Dangosydd Perfformiad | Targed 2024-25 | Gwirioneddol 2024-25 | Targed 2025-26 | Gwirioneddol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| Risgiau Gweddilliol Coch / Ambr yn y Gofrestr Risgiau Strategol a archwiliwyd (dros gyfnod treigl o 24 mis) | 80% | 80% | 80% | 80% |
| Archwiliadau a gwblhawyd o fewn chwe mis | 85% | 83% | 85% | 80% |
| Ymateb cleientiaid yn 'foddhaol' neu well | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Nifer staff (cyfwerth ag amser llawn (FTE)) | 2.8 FTE | 2.8 FTE | 2.8 FTE | 2.7 FTE |
| Yr holl rybuddion twyll a gafodd eu derbyn, eu hystyried a'u dosbarthu | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Canlyniad yr asesiadau mewnol (blynyddol) ac allanol (bob pum mlynedd) o'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella | Cydymffurfio'n Gyffredinol | Cydymffurfio'n Gyffredinol | Cyflawni'n Gyffredinol | Cyflawni'n Gyffredinol |

Tudalen 52

51. Rydym wedi perfformio'n dda yn erbyn y rhan fwyaf o'n targedau, gyda phedwar o'r chwe dangosydd yn cyrraedd eu targed.

52. Yn bwysicaf oll, rydym wedi cyflawni ein targed i adolygu 80% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr yn y Gofrestr Risgiau Strategol ac mae hynny'n darparu sicrwydd digonol i ganiatáu i'r prif swyddog archwilio ddarparu Barn Archwilio Flynyddol.

## Meincnodi

53. Mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru wedi dechrau meincnodi yn 2025-26 ond pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn nid oedd y canlyniadau wedi cael eu cyhoeddi.

## Goruchwylio a gwella perfformiad ymgysylltu (archwilio)

54. Mae methodolegau'n bodoli ar gyfer goruchwylio a sicrhau ansawdd, ac maent wedi cael eu cofnodi mewn cynllun gweithredol a thempledi.

55. Mae'r prif swyddog archwilio'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith ymgysylltu, boed yn cael ei gwblhau gan staff archwilio mewnol neu ddarparwyr gwasanaeth eraill. Mae cyfrifoldebau goruchwylio'n cael eu dirprwyo i unigolion addas a chymwys, ond y prif swyddog archwilio sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn y pen draw.

56. Er mwyn sicrhau ansawdd, mae'r Prif Archwilydd yn gyfrifol am sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cwblhau yn unol â'r Safonau a methodolegau'r swyddogaeth archwilio mewnol ac mae'n cadarnhau bod y gwaith papur a archwiliwyd yn cefnogi'r canfyddiadau, casgliadau ac unrhyw faterion, risgiau neu gyfleoedd a godwyd. Mae'r prif swyddog archwilio'n cynnal adolygiad sicrwydd ansawdd terfynol yn dilyn pob archwiliad.

57. Er mwyn datblygu cymwyseddau, mae archwilwyr mewnol yn derbyn arweiniad drwy gydol pob archwiliad, mae 'cyfnodau seibiant' yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae nodiadau adolygu yn cael eu darparu yn dilyn adolygiadau sicrhau ansawdd. Mae'r prif swyddog archwilio'n darparu adborth parhaus i archwilwyr mewnol ynglŷn â'u perfformiad a chyfleoedd i wella, ac mae hyn yn cael ei gofnodi'n ffurfiol yn ystod gwerthusiadau perfformiad blynyddol.

58. Mae'r Safonau hyn yn sicrhau bod gweithgareddau archwilio mewnol yn gwella'n barhaus ac yn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol uchaf.

# Cyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol

59. Cafodd y mandad archwilio mewnol, y weledigaeth a'r amcanion strategol eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025, ac maent wedi'u cynnwys yn y Siarter Archwilio Mewnol a Chynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol 2025-26.

60. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y cafodd y cynllun archwilio seiliedig ar risg ei ddatblygu, yn cynnwys sut y cafodd ei lywio gan risgiau strategol, disgwyliadau rhanddeiliaid ac amcanion strategol.

61. Trwy gydol y flwyddyn ceisiom ychwanegu gwerth lle bynnag y bo modd, i gefnogi amcanion y sefydliad. Rydym wedi parhau i gefnogi rheolwyr o fewn y cyngor trwy ddarparu hyfforddiant, cyngor a chaffael adnoddau ychwanegol er mwyn darparu sicrwydd.

62. Yn ein Strategaeth, rydym yn nodi tri Amcan Strategol:

**Amcanion strategol 1: Swyddogaeth archwilio mewnol sydd wedi cymhwyso'n llawn**

63. Cam allweddol oedd cefnogi'r Uwch Archwilydd i ddod yn Archwilydd Mewnol Ardystiedig erbyn 2028. Fe wnaeth yr Uwch Archwilydd symud i'r rôl Swyddog Yswiriant a Gwrth-dwyll yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn y cyfnod cynefino, bydd yr Uwch Archwilydd newydd yn gwneud penderfyniad ynglyn â'u llwybr cymwysterau.

64. Lle bo modd, mae aelodau'r tîm yn darparu tystiolaeth o'u datblygiad proffesiynol parhaus.

**Amcanion strategol 2: Ymgorffori technoleg a dadansoddeg archwilio mewn archwiliadau**

65. Cam allweddol oedd monitro parhaus mewn un maes risg newydd o leiaf drwy ddadansoddi data. Cyflawnwyd hyn drwy fonitro perfformiad y gyflogres yn barhaus, maes risg ariannol allweddol, yn ogystal â chredydwyr.

66. Cam allweddol arall oedd gwella llythrennedd digidol archwilwyr drwy sicrhau eu bod yn gallu defnyddio technoleg yn hyderus, yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial, i wella'r broses asesu risg ac ansawdd archwiliadau ac adrodd yn fwy effeithlon Mynychodd y Prif Archwilydd a'r Uwch Archwilydd gwrs ar ddefnyddio Dadansoddeg Data ym mis Mawrth 2026 a byddant yn rhoi'r hyn a ddysgwyd ar waith yn ystod 2026-27.

**Amcanion strategol 3: Chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n rhanbarthol a chenedlaethol**

67. Cam allweddol oedd parhau i fod yn aelod o grwpiau rhwydweithio ac roedd targed metrig i gydweithio ar un maes allweddol.

68. Rydym wedi parhau i gefnogi cyfoedion yn y rhanbarth, yn genedlaethol ar draws Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, trwy rannu arfer dda a rhaglenni gwaith, ynghyd â meysydd lle mae risgiau'n dod i'r amlwg.

69. Mae'r prif swyddog archwilio'n cadeirio Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru, rhwydwaith rhanbarthol o brif swyddogion archwilio yng ngogledd a chanolbarth Cymru.

70. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ofyn i fod yn rhan o ymarfer peilot y Fenter Twyll Genedlaethol sy'n cael ei redeg gan Swyddfa'r Cabinet ac ni yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi cael ei ddewis i gymryd rhan. Mae'r ymarfer yn gyfrinachol rhag rhybuddio twyllwyr. Byddwn yn adrodd ar y canlyniadau yn ystod 2026-27.

71. Er gwaetha'r newidiadau staffio yn ystod y flwyddyn, mae'r strategaeth yn perfformio'n unol â'r targed, ac rydym wedi cyrraedd y targed metrig allweddol i adolygu 80% o risgiau strategol gweddilliol coch ac ambr y cyngor dros gyfnod treigl o 24 mis, sy'n dangos bod y strategaeth yn gyraeddadwy gyda'r sgiliau, capasiti a chyllideb sydd ar gael.

# Heriau a chyfleoedd i'r dyfodol

72. Rydym yn parhau i fod â rôl allweddol er mwyn helpu'r cyngor i sicrhau bod ei risgiau'n cael eu hadnabod a'u rheoli'n briodol. Mae hyn wrth wraidd ein gwaith wrth archwilio effeithiolrwydd rheolaethau'r cyngor ar gyfer rheoli ei risgiau.

73. Fodd bynnag, mae gofynion sicrwydd yn hyblyg ac yn newid yn barhaus, gan olygu bod yn rhaid i archwilio mewnol fod ar flaen y newidiadau hyn er mwyn gallu bod yn berthnasol a darparu sicrwydd ar gyfer meysydd megis newid hinsawdd, seiberddiogelwch a risgiau ariannol sy'n newid yn barhaus.

74. Mae arddangos stiwardiaeth dros arian cyhoeddus, adeiladu a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y penderfyniadau a wneir a chyflawni dyfodol cynaliadwy ar gyfer trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn ddisgwyliadau sylfaenol i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus. Gall archwilio mewnol gyfrannu at y we gymhleth hon o ddisgwyliadau, rhwymedigaethau, uchelgeisiau a heriau trwy ddarparu cymorth mewn ffordd unigryw ac annibynnol.

75. Mae cyflawni hyn yn gofyn am archwilwyr mewnol sydd wedi eu hyfforddi ac sy'n cael eu cefnogi gan ddulliau modern a safonau proffesiynol. Mae'n gofyn am gapasiti a medrusrwydd.

76. Mae tîm brwdfrydig ac ymroddedig, ynghyd â chydweithwyr dibynadwy, yn golygu bod y gwasanaeth archwilio mewnol mewn sefyllfa dda i sicrhau y gall gyflawni ei strategaeth a pharhau i gefnogi'r cyngor fel elfen allweddol o'i strwythur llywodraethu.

# Atodiad A: Diffiniad o Raddfeydd Sicrwydd 2025-26

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad |
| --- | --- |
| **Sicrwydd Sylweddol** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda**.<br><br>**Dim Materion / Risgiau sylweddol nac o bwys wedi eu canfod.** |
| **Sicrwydd Rhesymol** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **rhesymol**.<br><br>**Mae mân wendidau o ran rheoli risgiau a / neu fesurau rheoli ond nid oes unrhyw risgiau o ran cyflawni amcanion. Gall Rheolwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw iddynt.** |
| **Sicrwydd Cyfyngedig** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **gyfyngedig**.<br><br>**Mae gwendidau sylweddol wrth reoli risgiau a / neu reolaethau sy'n peryglu cyflawni amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth eu datrys ac efallai y bydd angen hysbysu'r UDA.** |
| **Dim Sicrwydd** | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **sylweddol ddiffygiol**.<br><br>**Mae gwendidau sylfaenol wrth reoli risgiau / a neu reolaethau a fydd yn arwain at fethu â chyflawni amcanion. Mae angen i'r UDA roi sylw iddynt ar unwaith ac efallai y bydd angen ymyrraeth y Pwyllgor Gwaith.** |

# Atodiad B: Map Sicrwydd (Trydedd Linell) - Risgiau Gweddilliol Coch ac Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol 2025-26

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 | Blwyddyn Archwilio 2024/25 | Blwyddyn Archwilio 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM1 | Risg bod gostyngiad gwirioneddol yng nghyllid y Cyngor yn arwain at gwtogi gwasanaethau statudol | 5:5<br>25 | 4:5<br>20 | | | Gwytnwch Ariannol (Tachwedd 2022) | | Cadernid amcangyfrifon a digonolrwydd asesiad o gronfeydd wrth gefn (Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003) (Gorffennaf 2024) | Rheolaeth Ariannol (Mawrth 2026) |
| YM2 | Risg bod y cyngor yn methu recriwtio, cadw a datblygu staff addas, neu nad yw'r strwythur staffio yn addas | 4:5<br>20 | 4:4<br>16 | | | Recriwtio a Chadw (Mehefin 2022) | | Recriwtio a Chadw (Rhagfyr 2024) | |
| YM3 | Risg bod methiant TG yn amharu'n sylweddol ar ddarparu gwasanaethau | 5:5<br>25 | 4:4<br>16 | Archwiliad TG - Gwytnwch TG (Dilyniant) (Mai 2021) | Archwiliad TG - Rheoli Trwyddedau Meddalwedd (Ionawr 2022) | Archwiliad TG - Cyfrifiadura yn y Cwmwl (Mawrth 2023) | Rheoli Mynediad Corfforaethol (Risgiau Allweddol) (Mawrth 2024) | Rheoli Cyflenwyr TG (Gorffennaf 2024) | Archwiliad TG: Rheoli'r Ddesg Wasanaeth (Mehefin 2025) |
| | | | | Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Ebrill 2021) | | Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Dilyniant) (Medi 2022) | | Archwiliad TG - Seiberddiogelwch - Dadansoddiad o'r Bylchau NCSC CAF (Tachwedd 2024) | Archwiliad TG: Seiberddiogelwch mewn Ysgolion (Tachwedd 2025) |
| | | | | | | Rheoli Gwendidau TG (Medi 2022) | | | Archwiliad TG - Diogelwch Ffisegol ac Amgylcheddol |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 | Blwyddyn Archwilio 2024/25 | Blwyddyn Archwilio 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Rheoli Gwendidau TG (Ionawr 2023) | | | Canolfannau Data (Rhagfyr 2025) |
| YM5 | Y risg o fethu â gweithredu newidiadau cenedlaethol i'r system addysg a bodloni'r heriau addysgol yn y dyfodol | 4:5 20 | 4:4 16 | | | | Rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu (Awst 2023) | | |
| YM7 | Risg nad yw'r cyngor yn ddigon gwydn i allu darparu gwasanaethau yng ngoleuni newidiadau allanol | 4:4 16 | 3:4 12 | Adolygu'r Ymateb Argyfwng i COVID-19 (Ebrill 2020) | Sicrwydd Rheoli Argyfwng COVID-19 (Mai 2021) | | Gwytnwch Sefydliadol (Tachwedd 2023) | | |
| YM9 | Risg o ddiffyg tai addas y gall preswylwyr lleol eu fforddio yn eu cymunedau | 4:5 20 | 4:5 20 | | | Trefniadau'r cyngor ar gyfer darparu tai addas (Mehefin 2022) | | Datblygu Tai (Rhagfyr 2024) | |
| YM10 | Risg bod camgymeriad diogelu difrifol yn arwain neu'n cyfrannu at niwed difrifol i'r unigolion bregus hynny y mae'r cyngor yn gyfrifol amdanynt | 5:4 20 | 4:2 8 | Panel Rhiant Corfforaethol (Ionawr 2021) | | | Rheoli Risg Strategol - Diogelu (YM10) (Ionawr 2024) | | Rheoli Risg Strategol - Diogelu (ISROs) (YM10) - Adolygiad Dilynol Cyntaf (Mawrth 2026) |
| YM11 | Risg bod tlodi cynyddol yn cynyddu'r galw am wasanaethau'r cyngor | 4:5 20 | 4:5 20 | | | Tlodi (Mawrth 2023) | | | Diweddariad Awst 2025 |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Blwyddyn Archwilio 2020/21 | Blwyddyn Archwilio 2021/22 | Blwyddyn Archwilio 2022/23 | Blwyddyn Archwilio 2023/24 | Blwyddyn Archwilio 2024/25 | Blwyddyn Archwilio 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM13 | Risg bod newid hinsawdd yn effeithio'r Ynys ac nad yw'r cyngor yn sefydliad net sero erbyn 2030 | 4:4<br>16 | 4:3<br>12 | | | Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd (ZM) (Medi 2022) | | | Adolygiad Sero Net (Asesiad Allanol) |
| YM14 | Risg nad yw asedau ffisegol cyngor yn addas, neu na fyddant yn diwallu anghenion preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr yn y dyfodol | 5:5<br>25 | 4:4<br>16 | | Buddsoddi mewn Asedau (Tachwedd 2021) | | | Rheoli Asedau Ffisegol y cyngor (Mawrth 2025) | |
| YM16 | Risg nad yw'r cyngor yn gallu rheoli newid yn effeithiol gan gyfyngu ar ei allu i foderneiddio a darparu gwasanaethau cynaliadwy, effeithiol ac effeithlon | 4:5<br>20 | 3:4<br>12 | | | | | | Archwiliad TG - Rheoli'r Ddesg Wasanaeth (Mehefin 2025) |

# Atodiad C: Gwaith Archwilio Mewnol Arall yn 2025-26

| Teitl yr Archwiliad | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion: Asesiadau Ariannol - Gofal Preswyl a Nyrsio | 25/06/25 | **Cyfyngedig** | 0 | 2 | 5 |
| Sail y Dreth Gyngor | 27/06/25 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 3 |
| Archwiliad TG: Rheoli Cyflenwyr TG (Adolygiad Dilynol Cyntaf) | 02/07/25 | **Cyfyngedig** | 0 | 0 | 7 |
| Monitro Parhaus - y Gyflogres | 02/09/25 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |
| Monitro Parhaus - Profi Anfonebau Dyblyg | 03/09/25 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli Perfformiad | 20/10/25 | **Rhesymol** | 0 | 2 | 5 |
| Systemau Ariannol - y Gyflogres | 24/03/26 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 5 |
| Systemau Ariannol - Rheoli Trysorlys | 24/03/26 | **Sylweddol** | 0 | 0 | 1 |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - (Ail Adolygiad Dilynol) | 20/04/26 | **Cyfyngedig** | 0 | 0 | 3 |
| | **Cyfanswm 2025-26** | **9** | **0** | **4** | **29** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm 2024-25** | **12** | **0** | **10** | **43** |

Tudalen 59

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 25 Mehefin 2026 |
| **Pwnc:** | Siarter Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd ar y Pwyllgor i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. (3.4.8.10.1)<br><br>Yn ogystal, mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn cynnwys gofyniad clir i adolygu a chymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio gweithgareddau, pwrpas, awdurdod a chyfrifoldebau archwilio mewnol. (3.4.8.10.2)<br><br>Mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU hefyd yn darparu ar gyfer adolygu'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am roi cymeradwyaeth derfynol i'r Siarter. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Y tro diwethaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol oedd ym mis Mehefin 2025, yn dilyn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2025. Mae'n cynnwys:

- y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA).
- Nodyn Gweithredu – y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a gyhoeddwyd gan y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) sy'n darparu cyd-destun sector-benodol ar gyfer sector cyhoeddus y DU, dehongliadau yn gysylltiedig â gofynion y GIAS a'r amgylchiadau penodol y disgwylir iddynt fod yn berthnasol ledled sector cyhoeddus y DU a rhai gofynion ychwanegol y mae'r RIASS yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.
- Cod CIPFA ar Lywodraethu Archwilio Mewnol, sy'n nodi'r gofynion penodol sy'n berthnasol i'r sector llywodraeth leol.

1.2. Gyda'i gilydd, mae'r fframwaith newydd yn cyflwyno gofyniad i'r prif swyddog archwilio ddatblygu a chynnal siarter archwilio mewnol sy'n cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU (GIAS).

1.3. Mae'r Siarter diwygiedig a gymeradwywyd ym mis Mai 2025 yn sicrhau bod y gofynion y safonau newydd yn cael eu gwneud mewn modd eglur.

1.4. Mae'r gwaith o gyflwyno gofynion pellach y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU wedi nodi bod angen methodoleg ar gyfer 'cadarnhau bod argymhellion neu gynlluniau gweithredu wedi cael eu cyflwyno' (Safon 15.2), yn cynnwys:

- holi ynglŷn â'r cynnydd o ran eu gweithredu.
- cynnal asesiadau dilynol gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg.
- defnyddio system dracio i ddiweddaru statws camau gweithredu gan reolwyr.

1.5. Mae'r safonau newydd yn nodi bod rhaid i'r fethodoleg gynnwys meini prawf ar gyfer penderfynu pryd y dylid cynnal asesiadau dilynol. Mae'r safonau'n caniatáu cynnal asesiadau dilynol ar gyfer cynlluniau gweithredu sydd wedi cael eu cwblhau ar sail ddewisol, yn ddibynnol ar arwyddocâd y risg.

1.6. Er ein bod ni'n cyfeirio ato yn ein hadroddiad dwy flynyddol i'r pwyllgor ar faterion, risgiau a chyfleoedd, er mwyn bod yn drylwyr a darparu sylfaen dystiolaeth, mae ein protocol ar gyfer asesiadau dilynol wedi cael ei ddogfennu ac mae bellach wedi'i gynnwys yn y Siarter yn Atodiad B.

1.7. Mae'r protocol dilynol wedi'i gryfhau yn dilyn trafodaeth gyda'r Aelodau yn ystod sesiwn breifat y pwyllgor ar 14 Mai 2026. O dan y trefniadau diwygiedig, lle mae adroddiad archwilio mewnol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae'r lefel sicrwydd yn parhau i fod yn 'Cyfyngedig' ar ôl yr adolygiad dilynol cyntaf gan Archwilio Mewnol, bydd y Deilydd Portffolio perthnasol bellach yn cael cais ffurfiol i fynychu'r cyfarfod o'r pwyllgor lle caiff yr adroddiad ei ystyried.

1.8. Bwriad y gwelliant hwn yw atgyfnerthu atebolrwydd, cefnogi cynnydd amserol ar y camau a gytunwyd, a sicrhau bod gan y pwyllgor oruchwyliaeth uniongyrchol o ymateb yr ardal wasanaeth dan sylw.

1.9. Dyma'r unig ddiwygiad i'r Siarter a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2025.

## 2. Argymhelliad

2.1. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r Siarter (yn unol â'r Cyfansoddiad 3.4.8.10.3) ac felly argymhellir bod:

- y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol diwygiedig.

# Siarter Archwilio Mewnol

**Mehefin 2026**





**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys

Cyflwyniad 1
Pwrpas archwilio mewnol 2
Mandad archwilio mewnol 2
Annibyniaeth, Safle yn y Sefydliad a Chysylltiadau Adrodd 3
Trosolwg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 4
Cyfrifoldebau uwch reolwyr 5
Rôl a chyfrifoldebau'r Pennaeth Archwilio a Risg 5
Cwmpas a mathau o wasanaethau archwilio mewnol 9
Rôl archwilio mewnol mewn gwaith yn gysylltiedig â thwyll 10
Mesurau diogelu i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd 10
Newidiadau i'r Mandad a'r Siarter 11
Atodiad A – Detholiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 11
Atodiad B – Cadarnhau bod Gweithredoedd wedi'u rhoi ar waith 13
Atodiad C – Fframwaith Sicrwydd 14

# Cyflwyniad

1. Daeth fframwaith newydd ar gyfer yr arfer o archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU i rym ar 1 Ebrill 2025. Mae'n cynnwys:

    - y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA)
    - Nodyn Gweithredu – Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a gyhoeddwyd gan y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS[1]) sy'n darparu cyd-destun sector-benodol ar gyfer sector cyhoeddus y DU, dehongliadau o ofynion y GIAS a'r amgylchiadau penodol y disgwylir iddynt fod yn berthnasol ledled sector cyhoeddus y DU a rhai gofynion ychwanegol y mae'r RIASS yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.
    - Cod CIPFA ar Lywodraethu Archwilio Mewnol, sy'n nodi'r gofynion penodol sydd yn berthnasol i'r sector llywodraeth leol.

2. Gyda'i gilydd, mae'r fframwaith newydd yn cyflwyno gofyniad i'r prif swyddog archwilio ddatblygu a chynnal siarter archwilio mewnol.

3. Mae Siarter Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn cyflawni'r rhan fwyaf o ofynion y fframwaith newydd ers sawl blwyddyn ac mae'n gyfrwng i sicrhau bod archwilio mewnol yn parhau i fod yn berthnasol, ei fod yn gallu addasu a'i fod yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y cyngor.

4. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r Siarter (yn unol â'r Cyfansoddiad 3.4.8.10.2).

[1] Y RIASS yw Trysorlys EM ar gyfer llywodraeth ganolog; Llywodraeth yr Alban, Adran Gyllid Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llywodraeth ganolog a'r sector iechyd o fewn eu gweinyddiaethau; yr Adran Iechyd mewn perthynas â'r sector iechyd yn Lloegr; a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg mewn perthynas â llywodraeth leol ledled y DU.

# Pwrpas archwilio mewnol

5. Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu Cyngor Sir Ynys Môn i greu, amddiffyn a chynnal gwerth trwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad gwrthrychol, ar sail risg ac annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rheolwyr.

6. Mae rôl y swyddogaeth archwilio mewnol yn cynnwys:

   - cynorthwyo'r awdurdod i gyflawni ei amcanion strategol trwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol ar sail risg ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol
   - hyrwyddo arferion llywodraethu da trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a chyfrannu at adolygiad llywodraethu blynyddol yr awdurdod
   - cynghori ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol ar gyfer prosiectau, rhaglenni a newidiadau sylweddol mewn systemau
   - mynediad at ddiddordebau'r awdurdod mewn trefniadau cydweithio a hyd braich

7. Mae'r swyddogaeth archwilio mewnol fwyaf effeithiol pan:

   - mae'n cael ei chyflawni gan swyddogion proffesiynol cymwys, yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU sy'n cael eu gosod er budd y cyhoedd.
   - mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn annibynnol ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
   - nid oes dylanwad amhriodol ar archwilwyr mewnol ac maent wedi ymrwymo i gynnal asesiadau gwrthrychol.

# Mandad archwilio mewnol

8. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd â chyfrifoldeb am gymeradwyo'r mandad archwilio mewnol ond, er hynny, daw mwyafrif o fandad y swyddogaeth archwilio mewnol o ddeddfwriaeth.

9. O fewn llywodraeth leol yn y DU, mae awdurdod archwilio mewnol yn derbyn cefnogaeth statudol drwy'r rheoliadau a gyhoeddwyd gan lywodraethau cenedlaethol y DU. Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yw'r sail ar gyfer mandad / awdurdod archwilio mewnol yng Nghymru.

   **Archwilio Mewnol**

   7. (1) Rhaid i gorff perthnasol gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i system o reoli mewnol.

   (2) Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod o'r corff hwnnw, os yw'r corff yn ei gwneud yn ofynnol—

   > (a) trefnu bod unrhyw ddogfennau'r corff sy'n ymwneud â'i gofnodion cyfrifyddu a chofnodion eraill ar gael fel y mae'n ymddangos i'r corff hwnnw ei fod yn angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad; a
   >
   > (b) rhoi i'r corff y cyfryw wybodaeth ac esboniad y mae'r corff hwnnw'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at y diben hwnnw.

   (3) Rhaid i gorff perthnasol mwy, o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn, gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei archwiliad mewnol.

   (4) Rhaid ystyried canfyddiadau'r adolygiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), fel rhan o'r ystyriaeth o'r system o reoli mewnol y cyfeirir ati yn rheoliad 5(3), gan y pwyllgor neu'r corff y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.

10. Mae Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y cyngor hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal swyddogaeth archwilio mewnol barhaus o dan oruchwyliaeth annibynnol a gyda throsolwg Pwyllgor

Llywodraethu ac Archwilio'r cyngor, ac yn ddarostyngedig i safonau archwilio proffesiynol (4.8.5.3.1).

11. Mae awdurdod y swyddogaeth archwilio mewnol yn cael ei gefnogi hefyd gan ei bod yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae awdurdod o'r fath yn caniatáu mynediad rhydd a dilyffethair i'r Pwyllgor.

12. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn awdurdodi'r swyddogaeth archwilio mewnol i:

- Gael mynediad llawn a dilyffethair at yr holl swyddogaethau, data, cofnodion, gwybodaeth, eiddo ffisegol a gweithwyr perthnasol er mwyn cyflawni cyfrifoldebau archwilio mewnol. Mae archwilwyr mewnol yn gyfrifol am gyfrinachedd a diogelu cofnodion a gwybodaeth.
- Dyrannu adnoddau, pennu mynychder, dewis pynciau, penderfynu cwmpas gwaith, defnyddio technegau a chyhoeddi gohebiaeth er mwyn cyflawni amcanion y swyddogaeth.
- Derbyn cymorth gan staff a gwasanaethau arbenigol eraill o fewn neu du allan i'r cyngor er mwyn cwblhau gwasanaethau archwilio mewnol.

13. Mae hawliau mynediad archwilio mewnol yn cael eu cefnogi ymhellach gan Reolau Gweithdrefnau Ariannol y cyngor (4.8.5.3.2), gan roi i'r swyddogaeth yr awdurdod i:

- gael mynediad ar unrhyw amser rhesymol i eiddo, tir neu safleoedd contract y cyngor.
- cael mynediad i'r holl gofnodion, dogfennau neu ohebiaeth yn ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill y cyngor.
- gofyn am, a derbyn unrhyw esboniadau sy'n angenrheidiol gan weithwyr y cyngor.
- gofyn i weithwyr y cyngor ddangos arian parod, storfeydd neu unrhyw eiddo arall o dan reolaeth y cyngor er mwyn eu harchwilio.

## Annibyniaeth, Safle yn y Sefydliad a Chysylltiadau Adrodd

14. Mae safle'r Pennaeth Archwilio a Risg o fewn y sefydliad ar lefel sy'n caniatáu i wasanaethau a chyfrifoldebau archwilio mewnol gael eu cyflawni heb ymyrraeth gan reolwyr, a thrwy hynny sefydlu annibyniaeth y swyddogaeth archwilio mewnol.

15. O safbwynt swyddogaeth, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac o safbwynt gweinyddol (gweithredoedd dydd i ddydd, er enghraifft) mae'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151. Mae'r cysylltiadau hyn felly'n arbennig o bwysig ac yn gryf o fewn y cyngor.

16. Mae safle'r Pennaeth Archwilio a Risg yn darparu'r awdurdod a'r statws o fewn y sefydliad i ddod â materion i sylw uwch reolwyr yn uniongyrchol ac uwchgyfeirio materion at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, pa fo hynny'n angenrheidiol, heb ymyrraeth ac mae'n cefnogi gallu archwilwyr mewnol i gynnal gwrthrychedd.

17. Er bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 mewn perthynas â threfniadau gweinyddol, gall hefyd fynd yn uniongyrchol at y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro ac mae Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y cyngor yn gwneud darpariaeth ar gyfer hynny (4.8.5.3.5).

18. Mae'r llinellau adrodd estynedig hyn yn darparu digon o annibyniaeth i'r swyddogaeth archwilio mewnol o ran y gweithgareddau y mae'n eu hadolygu i alluogi'r archwilwyr i gyflawni eu dyletswyddau'n wrthrychol a chaniatáu iddynt lunio barn broffesiynol ddiduedd ac effeithiol a chodi materion y mae angen eu gwella.

19. Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn gwerthuso perfformiad y Pennaeth Archwilio a Risg bob blwyddyn ac mae'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn darparu sylwadau ac adborth hefyd.

20. Mae hyn yn sicrhau nad yw barn y Pennaeth Archwilio a Risg a chwmpas y gwaith yn gallu cael eu cyfyngu na'u heffeithio gan y trefniadau rheoli llinell ar ei chyfer o fewn y cyngor.

21. O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cadarnhau i'r Pwyllgor Llywodraethu annibyniaeth sefydliadol y swyddogaeth archwilio.

22. Os nad yw'r strwythur llywodraethu yn cefnogi annibyniaeth sefydliadol, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi dogfennu nodweddion y strwythur llywodraethu sydd yn cyfyngu ar annibyniaeth ac unrhyw fesurau amddiffyn a ddefnyddir i gyflawni'r egwyddor o annibyniaeth.

23. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn datgelu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unrhyw ymyrraeth y daeth archwilwyr mewnol ar ei draws yn gysylltiedig â chwmpas, cyflawni neu gyfathrebu gwaith a chanlyniadau archwilio mewnol. Bydd y datgeliad yn cynnwys cyfleu goblygiadau ymyrraeth o'r fath ar effeithiolrwydd y swyddogaeth archwilio mewnol a'i gallu i gyflawni ei mandad.

## Trosolwg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

24. O dan Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn Sector Cyhoeddus y DU, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sefydlu, cynnal a sicrhau fod gan swyddogaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Ynys Môn ddigon o awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau.

25. Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cael eu nodi yn ei Gylch Gorchwyl, sydd yn rhan o Gyfansoddiad y cyngor (3.4.8.10). Mae detholiad o'r adran berthnasol mewn perthynas â chyfrifoldebau trosolwg archwilio mewnol y Pwyllgor yn cael ei atgynhyrchu yn Atodiad A.

26. Fe wnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a chymeradwyo newidiadau i'w Gylch Gorchwyl er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2025 a 14 Mai 2026.

# Cyfrifoldebau uwch reolwyr

27. Er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol, rydym yn gofyn i uwch reolwyr:

- hyrwyddo rôl a gwaith archwilio mewnol ymysg staff o fewn yr awdurdod a sefydliadau partner y bydd archwilio mewnol yn gweithio â nhw
- hwyluso mynediad at uwch reolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac archwilydd allanol yr Awdurdod
- cynorthwyo, lle bo'n bosib, i gael mynediad at ddarparwyr sicrwydd allanol, megis rheoleiddwyr, arolygwyr ac ymgynghorwyr
- ymateb yn adeiladol i ganfyddiadau, safbwyntiau a chyngor archwilio mewnol
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol da i lwyddiant yr awdurdod, a chyfraniad archwilio mewnol
- ymwneud yn llawn ac yn hyblyg â'r broses gynllunio archwiliadau a darparu gwybodaeth a mewnwelediad i feysydd risg uchel, neu feysydd o bryder neu ffocws strategol.
- enwebu ac ymrwymo swyddogion arweiniol ar gyfer pob aseiniad archwilio mewnol a pherson cyswllt ar gyfer rheoli'r broses archwilio mewnol.
- ymwneud yn brydlon ag Archwilio Mewnol er mwyn gosod cwmpas y gwaith a chytuno ar gylch gorchwyl, delio gydag ymholiadau gan y tîm archwilio a thrafod adroddiadau drafft a therfynol.
- darparu tystiolaeth bod y gweithredoedd a gytunwyd gyda rheolwyr wedi cael eu gweithredu'n brydlon.

# Rôl a chyfrifoldebau'r Pennaeth Archwilio a Risg

28. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn uwch reolwr profiadol sy'n meddu ar gymwysterau addas ac mae'n gallu ymwneud yn rheolaidd ac agored ar draws y cyngor, yn arbennig gydag uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## Moeseg a Phroffesiynoldeb

29. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn sicrhau fod archwilwyr mewnol yn:

- Cydymffurfio â GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU, gan gynnwys egwyddorion moeseg a phroffesiynoldeb (uniondeb, gwrthrychedd, cynhwysedd, gofal proffesiynol dyladwy a chyfrinachedd), ac yn arbennig y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (sydd hefyd yn cael eu galw'n 'Egwyddorion Nolan') sydd yn berthnasol i bob gwas cyhoeddus (gan gynnwys contractwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus).
- Deall, parchu, cyflawni a chyfrannu at ddisgwyliadau dilys a moesegol y cyngor a gallu adnabod ymddygiad sydd yn groes i'r disgwyliadau hynny.
- Annog a hyrwyddo diwylliant ar sail moeseg o fewn y cyngor a rhoi gwybod am ymddygiad sefydliadol nad yw'n gyson â disgwyliadau moesegol y cyngor a gweithio gydag eraill i hyrwyddo ac arddangos manteision llywodraethu da ym mhob rhan o'r cyngor.
- Deall polisïau a gweithdrefnau'r cyngor ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth benodol fel mater o drefn a rhannu neu gyhoeddi gwybodaeth lle mae rhwymedigaethau statudol yn bodoli.
- Meddu ar gymhwyster priodol, bod a rhaglen ddatblygiad proffesiynol personol weithredol ac ymrwymiad i welliant parhaus.

## Gwrthrychedd

30. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn sicrhau fod y swyddogaeth archwilio mewnol yn parhau i fod yn rhydd o'r holl amodau sy'n bygwth gallu archwilwyr mewnol i gyflawni eu cyfrifoldebau yn ddiduedd, gan gynnwys materion yn ymwneud â dewis darnau o waith, eu cwmpas, amlder, amseru a chyfathrebu.

31. Os yw'r Pennaeth Archwilio a Risg yn penderfynu y gallai gwrthrychedd gael ei amharu, mewn gwirionedd neu'n ymddangosiadol, yna bydd manylion yr amharu'n cael ei ddatgelu i bob parti priodol.

32. Bydd archwilwyr mewnol yn cynnal agwedd feddyliol ddiduedd sy'n eu caniatáu i gyflawni darnau o waith yn wrthrychol fel eu bod yn credu yn eu gwaith, nid ydynt yn cyfaddawdu ar ansawdd, ac nid ydynt yn gosod eu barn ynglŷn â materion archwilio yn ail i farn eraill, naill ai mewn gwirionedd neu'n ymddangosiadol.

33. Ni fydd gan archwilwyr mewnol unrhyw gyfrifoldebau gweithredol uniongyrchol nac awdurdod yn gysylltiedig â'r gweithgareddau y byddant yn eu hadolygu. O ganlyniad, ni fydd archwilwyr mewnol yn gweithredu rheolaethau mewnol, datblygu gweithdrefnau, gosod systemau ac ni fyddant yn ymwneud â gweithgareddau eraill a allai amharu ar eu barn, gan gynnwys:

    - Asesu gweithrediadau penodol yr oeddent yn gyfrifol amdanynt yn ystod y flwyddyn flaenorol na chyflawni dyletswyddau gweithredol ar gyfer y cyngor neu gyrff sy'n gysylltiedig ag o.
    - Cyfarwyddo gweithgareddau unrhyw un o weithwyr y cyngor nad yw'n cael ei gyflogi gan y swyddogaeth archwilio mewnol, ac eithrio i'r graddau bod gweithwyr o'r fath wedi cael eu penodi i dimau archwilio mewnol neu i gynorthwyo archwilwyr mewnol.

34. Bydd archwilwyr mewnol yn:

    - Datgelu unrhyw amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd, mewn gwirionedd neu'n ymddangosiadol, i bartïon priodol o leiaf unwaith y flwyddyn.
    - Arddangos gwrthrychedd proffesiynol wrth gasglu, arfarnu a chyfathrebu gwybodaeth a gwneud asesiadau cytbwys o'r holl ffeithiau sydd a'r gael a ffeithiau ac amgylchiadau perthnasol a byddant yn adrodd ar yr hyn a ganfyddir yn ddi-ofn.
    - Cymryd camau angenrheidiol i osgoi gwrthdaro buddiannau, rhagfarn a dylanwad amhriodol.

## Rheoli'r Swyddogaeth Archwilio Mewnol

35. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn gyfrifol am:

    - Sicrhau fod swyddogaeth archwilio mewnol y cyngor yn cydymffurfio ag elfennau gorfodol safonau archwilio mewnol perthnasol.
    - Ddatblygu cynllun archwilio mewnol ar sail risg, o leiaf unwaith y flwyddyn, sydd yn ystyried mewnbwn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr. Trafod y cynllun gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr a chyflwyno'r cynllun i'r Pwyllgor ei adolygu a'i gymeradwyo.
    - Cynhyrchu casgliad archwilio mewnol blynyddol ar sail tystiolaeth er mwyn cyfrannu at y sicrwydd a ddarperir i'r 'rhai hynny sydd yn gyfrifol am lywodraethu' ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a fydd yn cynnwys barn ar effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Bydd y casgliad yn adlewyrchu'r gwaith a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn, gan grynhoi'r prif ganlyniadau a chasgliadau ac amlygu unrhyw bryderon penodol.
    - Cyfathrebu effaith cyfyngiadau o ran adnoddau ar y cynllun archwilio mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr.

- Adolygu ac addasu'r cynllun archwilio mewnol, yn ôl y gofyn, mewn ymateb i newidiadau o ran busnes, risgiau, gweithrediadau, rhaglenni, systemau a rheolaethau'r cyngor.
- Cyfathrebu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr os gwneir newidiadau dros dro sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol.
- Sicrhau fod ymrwymiadau archwilio mewnol yn cael eu cyflawni, eu dogfennu a'u cyfathrebu yn unol â GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU a chyfreithiau a/neu reoliadau.
- Sicrhau fod y swyddogaeth yn llwyr ymrwymedig i bolisi iaith Gymraeg y cyngor, adrodd yn ddwyieithog a sicrhau fod y tîm yn cynnwys staff dwyieithog sy'n gallu cynnal adolygiadau yn iaith ddewisol yr unigolion sy'n cynorthwyo gyda'r adolygiadau.
- Cymryd camau dilynol mewn perthynas â chanfyddiadau ymrwymiadau a chadarnhau fod cynlluniau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr ar gyfer pob aseiniad gwaith, fel y bo'n briodol. (Atodiad B)
- Sicrhau fod y swyddogaeth archwilio yn gyfunol yn meddu ar neu'n caffael y wybodaeth, sgiliau a chymwyseddau a chymwysterau eraill sydd eu hangen i gyflawni gofynion GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU a chyflawni'r mandad archwilio mewnol.
- Nodi ac ystyried tueddiadau a materion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar y cyngor a rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr fel y bo'n briodol.
- Ystyried tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac arferion archwilio mewnol llwyddiannus, a sefydlu a sicrhau y glynir at fethodolegau a ddyluniwyd i roi arweiniad i'r swyddogaeth archwilio mewnol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol y cyngor, oni bai bod y fath bolisïau a gweithdrefnau'n gwrthdaro â'r siarter archwilio mewnol neu GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU. Bydd unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei ddatrys neu ei gofnodi a bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr.
- Cydlynu gweithgareddau ac ystyried dibynnu ar waith darparwyr mewnol ac allanol eraill sy'n darparu sicrwydd a gwasanaethau ymgynghori. Os nad yw'r Pennaeth Archwilio a Risg yn gallu cyflawni lefel briodol o gydlyniant, mae'n rhaid rhoi gwybod i uwch reolwyr am y mater ac, os bydd yn angenrheidiol, rhaid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Gweithio'n agos â rheoleiddwyr allanol y cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau archwilio.
- Cynorthwyo'r Swyddog Adran 151 statudol i gyflawni ei ddyletswyddau.
- Cefnogi'r gofyn i geisio effeithlonrwydd, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian.
- Darparu sicrwydd dibynadwy i reolwyr ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu trefniadau rheoli mewnol, risg a llywodraethu.
- Gyrru mentrau atal twyll y cyngor ac arfarnu'r risg o dwyll a'r ffordd y mae'r cyngor yn ei reoli.
- Darparu cyngor a gwasanaeth ymgynghori gwrthrychol a chefnogol mewn perthynas â datblygu rhaglenni a phrosesau newydd a / neu newidiadau sylweddol mewn rhaglenni a phrosesau presennol, gan gynnwys dylunio rheolaethau priodol.
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflawni ei gyfrifoldebau; monitro'r gwaith o weithredu camau y cytunwyd arnynt gan reolwyr; sicrhau bod arferion gwell a gwersi a ddysgwyd yn codi o'i weithgareddau archwilio a throsolwg o'r swyddogaeth archwilio yn cael eu rhannu ar draws y sefydliad.

## Cyfathrebu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Uwch Reolwyr

36. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn adrodd o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr mewn perthynas â:

- Mandad y swyddogaeth archwilio mewnol.
- Y cynllun archwilio mewnol a pherfformiad mewn perthynas â'i gynllun.
- Yr adnoddau sydd eu hangen ar archwilio mewnol ac effaith diffyg adnoddau digonol ar allu'r swyddogaeth archwilio mewnol i gyflawni ei fandad.
- Newidiadau sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol ac adnoddau.
- Amhariadau posib ar annibyniaeth, gan gynnwys datgeliadau perthnasol fel y bo'n berthnasol.
- Canlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella, sy'n cynnwys cydymffurfiaeth y swyddogaeth archwilio mewnol â GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU a chynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion a chyfleoedd i wella.
- Risgiau sylweddol a materion yn gysylltiedig â rheoli risgiau, gan gynnwys y risg o dwyll, materion eraill y mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn canolbwyntio arnynt a allai ymyrryd â chyflawni amcanion strategol y cyngor.
- Canlyniadau gwasanaethau sicrwydd ac ymgynghori.
- Ymatebion rheolwyr i risg a allai fod yn annerbyniol ym marn y swyddogaeth archwilio mewnol, neu dderbyn risg sydd tu hwnt i archwaeth risg y cyngor.

## Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella

37. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn datblygu, gweithredu a chynnal rhaglen sicrhau ansawdd a gwella sydd yn rhoi sylw i bob agwedd o'r swyddogaeth archwilio mewnol.

38. Bydd y rhaglen yn cynnwys asesiadau allanol a mewnol o gydymffurfiaeth y swyddogaeth archwilio mewnol â GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU, yn ogystal â mesur perfformiad er mwyn asesu cynnydd y swyddogaeth archwilio mewnol wrth gyflawni ei amcanion a hyrwyddo gwelliant parhaus.

39. Bydd y rhaglen hefyd yn asesu, os yw'n berthnasol, cydymffurfiaeth â chyfreithiau a/neu reoliadau sy'n berthnasol i archwilio mewnol. Hefyd, os yw'n berthnasol, bydd yr asesiad yn cynnwys cynlluniau i fynd i'r afael â diffygion a chyfleoedd gwella'r swyddogaeth archwilio mewnol.

40. Bob blwyddyn, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cyfathrebu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr ynglŷn â rhaglen sicrhau ansawdd a gwella'r swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys canlyniadau asesiadau mewnol (monitro parhaus ac asesiadau hunanarfarnu rheolaidd) ac asesiadau allanol.

41. Bydd asesiadau mewnol yn cael eu cwblhau o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan asesydd annibynnol cymwys[2] neu dîm asesu o du allan i'r cyngor.

[2] Mae'r Gosodwr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) wedi penderfynu fod rhaid i o leiaf un person o'r tîm asesu feddu ar y nodweddion a amlinellir er mwyn bod yn gymwys i fod yn brif swyddog archwilio.

# Cwmpas a mathau o wasanaethau archwilio mewnol

42. Mae cwmpas y swyddogaeth archwilio mewnol yn ymwneud â holl weithgareddau'r cyngor ac mae'n cynnwys mynediad dilyffethair at holl asedau a holl weithwyr y cyngor. Mae ein gwaith yn darparu dull ar sail risgiau sy'n caniatáu i'r Pennaeth Archwilio a Risg ffurfio a thystiolaethu ei barn ar yr amgylchedd rheoli er mwyn cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y cyngor.

43. Mae cwmpas gweithgareddau archwilio mewnol hefyd yn cynnwys archwilio tystiolaeth yn wrthrychol er mwyn darparu sicrwydd annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rheolwyr ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli ar gyfer y cyngor.

44. Rydym yn canolbwyntio ar y cwsmer wrth gynllunio archwiliadau unigol, o lunio cwmpas i wireddu'r prosiect, ac rydym yn cynnwys aelodau, uwch reolwyr a staff.

45. Gallai ymrwymiadau archwilio mewnol gynnwys arfarnu p'un a yw:

- Risgiau'n gysylltiedig â chyflawni amcanion strategol y cyngor yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.
- Gweithredoedd swyddogion, cyfarwyddwyr, rheolwyr, gweithwyr a chontractwyr y cyngor, neu bartïon perthnasol eraill, yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r cyngor a chyfreithiau, rheoliadau a safonau llywodraethu sy'n berthnasol iddo.
- Canlyniadau gweithrediadau a rhaglenni yn gyson â nodau ac amcanion a osodwyd.
- Gweithrediadau a rhaglenni'n cael eu cyflawni'n effeithiol, effeithlon, moesegol a theg.
- Prosesau a systemau sefydledig yn caniatáu cydymffurfiaeth â'r polisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau a allai effeithio'n sylweddol ar y cyngor.
- Cyfanrwydd gwybodaeth a'r dulliau a ddefnyddir i nodi, mesur, dadansoddi, dosbarthu ac adrodd ar wybodaeth o'r fath yn ddibynadwy.
- Adnoddau ac asedau'n cael eu caffael yn ddarbodus, eu defnyddio'n effeithlon a chynaliadwy, a'u hamddiffyn yn ddigonol.

46. Y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n penderfynu ar yr agwedd gyffredinol a bydd yn ystyried lefel y sicrwydd sydd ei angen, amcanion strategol y cyngor, lefel y newid o fewn y cyngor, yr archwaeth risg cyffredinol a'r diwylliant, archwiliadau blaenorol a rhoi camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda rheolwyr ar waith.

47. Mae ein strategaeth yn ystyried y gofrestr risgiau strategol, trafodaethau gydag uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a sicrwydd mewnol neu allanol arall y gallai'r cyngor ei dderbyn er mwyn osgoi dyblygu a chyd-gordio gwaith rheoleiddio. Yn benodol, mae'n ystyried fframwaith sicrwydd y cyngor (Atodiad C).

## Gwasanaethau ymgynghorol

48. O bryd i'w gilydd, gallai'r swyddogaeth Archwilio Mewnol ddarparu canllawiau a chyngor, e.e. ar systemau newydd, neu gall helpu i ddatblygu prosesau newydd, ar yr amod nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn derbyn cyfrifoldebau rheoli. Efallai y bydd gwasanaethau hefyd yn gofyn i ni gwblhau prosiectau penodol, o bryd i'w gilydd, mewn rôl ymgynghorol.  Ar yr adegau hyn rydym yn datgan yn glir o'r cychwyn cyntaf ein bod yn gweithio mewn rôl ymgynghorol yn hytrach nag mewn rôl archwilio mewnol ac nid ydym yn darparu sicrwydd archwilio yn yr achosion hynny.

49. Gall cyfleoedd i wella effeithlonrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli gael eu hadnabod wrth gyflawni gwaith ymgynghorol.

# Rôl archwilio mewnol mewn gwaith yn gysylltiedig â thwyll

50. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau fod systemau rheoli cyfrifeg y cyngor yn cynnwys mesurau i atal a chanfod gwallau a thwyll.

51. Oherwydd hynny, mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cynnal gweithgareddau er mwyn sicrhau bod y cyngor yn gwneud popeth yn ei allu i leihau'r risg bod twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn digwydd o fewn y cyngor ac yn ei erbyn.

52. Er hynny, nid yw archwilio mewnol yn gyfrifol am reoli'r risg o dwyll - uwch reolwyr y cyngor sy'n gyfrifol am hynny.

53. O dan bolisi Atal Twyll a Llygredd y cyngor mae'n ofynnol i reolwyr hysbysu'r Pennaeth Archwilio a Risg os yw twyll, llwgrwobrwyo, llygredd neu amhriodoldeb yn cael ei amau neu ei ganfod, fel sail i'w barn am yr amgylchedd rheoli mewnol a'r rhaglen waith archwilio mewnol, yn ogystal â chaniatáu iddi sicrhau bod y cyngor yn cymryd camau priodol.

54. Er bod y swyddogaeth archwilio mewnol yn cynnal prosiectau rhagweithiol i nodi twyll, llwgrwobrwyo a / neu lygredd posib a'i bod yn gallu cynnal ymchwiliadau arbennig i honiadau o afreolaidd-dra, mae gan y Pennaeth Archwilio a Risg yr hawl i benderfynu ar gamau priodol a gallai hynny olygu cynnal ymchwiliad ar y cyd neu ymchwiliad gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, dylai rheolwyr anfon canlyniadau'r holl weithgareddau at y Pennaeth Archwilio a Risg i'w cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol ar Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.

55. Gall yr archwiliwr allanol gynnal ymchwiliadau, naill ai ar y cyd ag archwilio mewnol, neu'n annibynnol os credir bod hynny'n angenrheidiol.

# Mesurau diogelu i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth neu wrthrychedd

56. Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid i archwilio mewnol fod yn annibynnol a rhaid iddo gael ei weld fel gwasanaeth annibynnol. I sicrhau hyn, bydd archwilio mewnol yn gweithredu o fewn fframwaith sy'n sicrhau bod y swyddogaeth archwilio mewnol a gweithgareddau gweithredol yn cael eu cadw ar wahân. Os bydd unrhyw wrthdaro neu amhariad yn codi neu'n dod i'r amlwg, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael ei hysbysu.

57. Gwneir pob ymdrech i warchod gwrthrychedd trwy reoli cyswllt staff archwilio â dyletswyddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posib. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol yn dderbyniol wrth gymryd rhan mewn prosiectau gwella gwasanaeth lle byddir yn cyflawni rôl 'ffrind beirniadol'.

58. Mae trefniadau priodol ar waith i gyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth a gwrthrychedd oherwydd bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn rheolwr llinell i'r gwasanaeth Rheoli Risg ac Yswiriant, sy'n ymwneud ag arwain rhaglen yswiriant y cyngor, a chychwyn a chymeradwyo trafodion tu allan i'r swyddogaeth archwilio mewnol.

59. Mae rôl y Pennaeth Archwilio a Risg hefyd yn cynnwys arwain ar bolisi a strategaeth rheoli risg y cyngor, gan sicrhau fod proses a system ar waith i nodi, rheoli ac adolygu risgiau ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth.

60. Ni fydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn llunio cwmpas ac ni fydd yn adolygu gweithgarwch archwilio mewnol yn gysylltiedig â'r maes gwasanaeth hwn a chaiff yr holl weithgareddau sicrwydd eu hallanoli. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn cymeradwyo adroddiadau.

61. Os bwriedir creu rolau newydd a allai effeithio ar annibyniaeth y swyddogaeth archwilio mewnol, trafodir yr effaith â'r Pennaeth Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhoddir mesurau diogelu priodol ar waith i warchod annibyniaeth y swyddogaeth archwilio mewnol a chefnogi cydymffurfiaeth â safonau.

# Newidiadau i'r Mandad a'r Siarter

62. Gallai amgylchiadau gyfiawnhau trafodaeth ddilynol rhwng y Pennaeth Archwilio a Risg, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac uwch reolwyr ynglŷn â'r mandad archwilio mewnol neu agweddau eraill o'r siarter archwilio mewnol.

63. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i) newid sylweddol yn:

- y safonau archwilio mewnol perthnasol.
- strwythurau sefydliadol o fewn y cyngor.
- y swyddogaeth archwilio mewnol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a/neu uwch reolwyr.
- strategaethau, amcanion, proffil risg neu amgylchedd weithredu'r cyngor.
- cyfreithiau neu reoliadau newydd a allai effeithio ar natur a/neu gwmpas gwasanaethau archwilio mewnol.

# Atodiad A – Detholiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

## 3.4.8.10 Archwilio mewnol

3.4.8.10.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor.

3.4.8.10.2 Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol. Bydd y Pwyllgor yn bodloni ei hun bod y Siarter yn cydymffurfio â'r safonau archwilio perthnasol.

3.4.8.10.3 Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.4 Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.

3.4.8.10.5 Bydd y Pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol gyda rheolwyr a'r Pennaeth Archwilio a Risg i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau. Pan fo pryderon ynghylch gallu'r gwasanaeth archwilio mewnol i gyflawni ei fandad neu lunio casgliad blynyddol, caiff pryderon eu cofnodi'n ffurfiol a'u hadrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'u cyfeirio i'w cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.6 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio a Risg ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad gwasanaethau archwilio mewnol sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr allanol.

3.4.8.10.7 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.8 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â safonau archwilio mewnol perthnasol a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau'r archwilwyr mewnol.

3.4.8.10.9 Bydd y Pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.



3.4.8.10.10 Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod, neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.11 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â safonau archwilio mewnol perthnasol, gan ystyried a yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.12 Bydd y Pwyllgor yn ystyried, cymeradwyo, ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw gamau diogelu a roddir ar waith i gyfyngu ar unrhyw beth sy'n amharu ar annibyniaeth a gwrthrychedd y Pennaeth Archwilio a Risg sy'n deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y Pennaeth Archwilio a Risg tu allan i'r maes archwilio mewnol.

3.4.8.10.13 Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ac yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn derbyn adroddiad ar opsiynau, amseriad, cwmpas, dull asesu a chymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd, i'w gymeradwyo.

3.4.8.10.14 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

3.4.8.10.15 Bydd y Pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y Pennaeth Archwilio a Risg, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor, o leiaf yn flynyddol.

# Atodiad B – Cadarnhau bod Gweithredoedd wedi'u rhoi ar waith

Nid yw Archwilio Mewnol yn gwneud argymhellion; mae archwilwyr mewnol yn adrodd ar 'Faterion', 'Risgiau' a 'Chyfleoedd' sydd yn gydnaws â strategaeth rheoli risg y cyngor ac maent yn cael eu sgorio gan ddefnyddio'r matrics asesu cysylltiedig.

Er mwyn annog rheolwyr i fod yn atebol am y materion, risgiau a chyfleoedd hyn, y rheolwyr eu hunain sy'n gyfrifol am ddatblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw, ac Archwilio Mewnol sydd yn monitro'r camau a gymerwyd.

I'r perwyl hwn, mae gennym fethodoleg ffurfiol ar gyfer cadarnhau fod rheolwyr wedi rhoi eu camau gweithredu ar waith, ac mae'n cynnwys:

- holi ynglŷn â'r cynnydd o ran eu gweithredu.
- cynnal asesiadau dilynol gan ddefnyddio dull seiliedig ar risg.
- defnyddio system dracio i ddiweddaru statws camau gweithredu gan reolwyr.



Bydd y gweithdrefnau hyn yn cael eu defnyddio fel sy'n briodol, gan ystyried arwyddocâd y mater, risg neu gyfle a godwyd, yn seiliedig ar yr asesiad risg.

Mae adroddiadau Archwilio Mewnol sy'n derbyn Sicrwydd 'Cyfyngedig', neu 'Dim' Sicrwydd yn destun adolygiad dilynol ffurfiol gan Archwilio Mewnol, ac mae adroddiad archwilio'n cael ei ddarparu sy'n cynnwys gradd sicrwydd.

Rydym yn monitro pob mater, risg a chyfle arall gan ddefnyddio system dracio gweithredoedd corfforaethol y cyngor (4action) er mwyn gwirio a yw camau gweithredu gan reolwyr yn cael eu gweithredu'n unol â'r amserlenni a gytunwyd.

Mae'r system dracio'n dangos p'un a yw camau gweithredu'n parhau'n agored, neu a yw'r dyddiad cwblhau wedi mynd heibio, ac rydym yn monitro gweithredoedd hwyr i'n galluogi i dderbyn diweddariad cynnydd yn brydlon gan reolwyr.

Rydym wedi datblygu a mireinio dangosfwrdd i ddefnyddwyr sy'n rhoi darlun gwirioneddol o berfformiad cyfredol wrth i reolwyr fynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw, ac mae'n golygu ein bod yn gallu monitro ac adrodd ar y wybodaeth hon yn effeithiol.

Os nad yw rheolwyr wedi rhoi'r camau gweithredu ar waith o fewn y dyddiadau cwblhau a gytunwyd, bydd archwilwyr mewnol yn gofyn i reolwyr am esboniad ac yn trafod y mater â'r prif weithredwr. Bydd y prif weithredwr yn penderfynu a yw uwch reolwyr, trwy oedi neu ddiffyg gweithredu, wedi derbyn risg sydd y tu hwnt i risgiau a oddefir gan y cyngor.

Os yw rheolwyr yn penderfynu ar gam gweithredu gwahanol, ac os yw archwilwyr mewnol yn cytuno fod y cam gweithredu newydd yn dderbyniol neu'n well na'r cam gweithredu gwreiddiol, yna bydd cynnydd yn erbyn y cam gweithredu newydd yn cael ei fonitro nes ei fod wedi'i gwblhau.

Byddwn yn ymestyn dyddiadau cwblhau ar gyfer rhai camau gweithredu, ond dim ond os yw'r gwasanaeth yn gallu dangos fod angen yr estyniad am reswm dilys, e.e. mae'n amlwg nad yw'r dyddiad gwreiddiol yn gyraeddadwy gan fod angen gwneud llawer mwy o waith er mwyn mynd i'r afael â'r mater, risg neu gyfle.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cynnwys cyfrifoldeb i fonitro'r camau gweithredu gan reolwyr i fynd i'r afael â'r materion, risgiau a chyfleoedd a godwyd gan Archwilio Mewnol fel rhan o'i waith.


Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r pwyllgor wedi gofyn am adroddiad manwl yn dangos perfformiad y cyngor wrth fynd i'r afael â'r camau gweithredu sydd angen sylw, a hynny ddwywaith y flwyddyn, yn ei gyfarfodydd ym mis Ebrill a Medi.

Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n mynd i'r afael â'u materion, risgiau a chyfleoedd yn llwyddiannus ac yn brydlon, gofynnir i berchnogion gweithredoedd 'critigol' neu 'sylweddol' sydd heb eu datrys 12 mis yn dilyn y dyddiad cwblhau gwreiddiol esbonio i'r Pwyllgor, mewn person, pam fod oedi mewn perthynas â rhoi sylw i'r mater.

Pan fo'r adroddiad archwilio mewnol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bod y lefel sicrwydd yn parhau i fod yn 'Gyfyngedig' ar ôl yr adolygiad dilynol cyntaf gan Archwilio Mewnol, gofynnir yn ffurfiol i'r Deilydd Portffolio perthnasol fynychu'r cyfarfod pwyllgor lle mae'r adroddiad yn cael ei ystyried.

# Atodiad C – Fframwaith Sicrwydd

Mae'r cyngor yn defnyddio'r 'Model Tair Llinell' fel y dangosir yn y graffeg isod, lle gellir defnyddio pob llinell i ddarparu sicrwydd. Mae nifer o weithgareddau sicrwydd o'r holl linellau amddiffyn yn cael eu defnyddio i ddarparu darlun sicrwydd cadarn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol y cyngor (Cod Llywodraethu Lleol 2023-2028, Rhagfyr 2022). Mae Archwilio Mewnol yn cyfrannu at y 'Drydedd Linell - Sicrwydd Annibynnol', ond mae hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r sicrwydd a ddarparwyd yn y llinell gyntaf a'r ail linell wrth ddatblygu'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol.




Tudalen 77

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 25 Mehefin 2026 |
| **Pwnc:** | Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2026-27 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd benodol ar y Pwyllgor i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (3.4.8.10.1)<br><br>Gofynnir i'r pwyllgor gymeradwyo (ond nid cyfarwyddo) y strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys gofynion adnoddau archwilio mewnol a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill (3.4.8.10.5). Wrth ystyried y strategaeth arfaethedig, gofynnir i'r pwyllgor wneud ymholiadau priodol gyda rheolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol er mwyn pennu a oes unrhyw gwmpas amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau (3.4.8.10.6).<br><br>Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol ar Heddlu 2022, yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio mewnol yr awdurdod a Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector cyhoeddus y DU. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2026-27 yn nodi sut y bydd y swyddogaeth Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd annibynnol, seiliedig ar risg i gynorthwyo'r cyngor i gyflawni ei amcanion strategol. Mae'r strategaeth yn ystyried gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU ac mae'n cyd-fynd â fframwaith ehangach y cyngor ar gyfer rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth fewnol.

1.2 Mae'r strategaeth yn cydnabod yr amgylchedd heriol y mae'r cyngor yn gweithredu ynddo, yn cynnwys pwysau ariannol parhaus, problemau gyda chapasiti'r gweithlu, risgiau diogelwch seiber a gwybodaeth, y risg o dwyll a heriau ehangach i'r sefydliad ac o ran darparu gwasanaethau. Mewn ymateb, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i ddefnyddio dull ystwyth a seiliedig ar risg, gan sicrhau bod gweithgareddau sicrwydd yn canolbwyntio ar y meysydd pwysicaf yn strategol ac o ran risg.

1.3 Mae'r strategaeth yn seiliedig ar weledigaeth i gynnal swyddogaeth Archwilio Mewnol aeddfed, arloesol a chydweithredol, ac mae'n cael ei chefnogi gan dri amcan strategol allweddol: datblygu tîm medrus a chymwys, ymgorffori technoleg a dadansoddeg data mewn gwaith archwilio, a chryfhau cydweithio yn rhanbarthol a chenedlaethol.

1.4 Y Cynllun ar gyfer 2026-27 yw adolygu risgiau strategol mwyaf sylweddol y cyngor, ynghyd â gwaith wedi'i dargedu mewn meysydd gweithredol eraill sydd â risg uchel, er mwyn darparu sicrwydd amserol a pherthnasol i reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

1.5 At ei gilydd, nod y Strategaeth a'r Cynllun yw sicrhau bod Archwilio Mewnol yn ymatebol, effeithiol ac mewn sefyllfa dda i gefnogi llywodraethaint da, penderfyniadau cadarn a gwydnwch hirdymor y cyngor.

1.6 Felly, cyflwynir Strategaeth Archwilio Mewnol 2026-27 i'r pwyllgor ei adolygu a'i ystyried er mwyn penderfynu a yw'n bodloni gofynion sicrwydd y cyngor.

## 2. Ymgynghoriad

2.1 Rwyf wedi cwrdd â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 (y prif swyddog ariannol sy'n atebol am sicrhau bod swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol yn cael ei rheoli a'i chefnogi gan adnoddau) ac wedi ymgynghori â'r Tîm Arweinyddiaeth i drafod eu safbwyntiau ar y meysydd arfaethedig fydd yn cael eu hadolygu, a'u pryderon.

## 3. Newidiadau

3.1 Byddaf yn parhau i adolygu'r blaenoriaethau, fel bo'n ofynnol, gan eu haddasu mewn ymateb i'r newidiadau i fusnes y cyngor, risgiau, gweithdrefnau a rhaglenni, er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol.

3.2 Byddaf yn hysbysu'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynglŷn ag unrhyw newidiadau sylweddol.

## 4. Argymhelliad

4.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- cymeradwyo (ond nid cyfarwyddo) y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol a'i gynnwys a'i fod yn fodlon ei fod yn darparu'r sicrwydd gofynnol i'r cyngor.
- cytuno â gofynion archwilio mewnol o ran adnoddau a defnyddio ffynonellau sicrwydd eraill.
- cytuno nad oes cwmpas amhriodol na chyfyngiadau o ran adnoddau.

# Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol 2026-27

**Mehefin 2026**





**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys


Cyflwyniad ____ 1
Cyd-destun cyfredol ____ 2
Pwrpas archwilio mewnol ____ 3
Gweledigaeth, Cenhadaeth ac Amcanion Strategol ____ 3
Blaenoriaethau'r Cynllun Strategol ____ 5
Mesurau perfformiad ____ 9
Monitro a derbyn risgiau ____ 10
Atodiad A – Dadansoddiad aeddfedrwydd archwilio mewnol ____ 11
Atodiad B – Map Sicrwydd (Trydedd Linell) - Risgiau Strategol ____ 13




# Cyflwyniad

1. Mae'r fframwaith newydd ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2025, yn cynnwys:
   - y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA)
   - Nodyn Gweithredu Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, a gyhoeddwyd gan y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS[1]) sy'n darparu cyd-destun sector-benodol ar gyfer sector cyhoeddus y DU, dehongliadau yn gysylltiedig â gofynion y GIAS a'r amgylchiadau penodol y disgwylir iddynt fod yn berthnasol ledled sector cyhoeddus y DU a rhai gofynion ychwanegol y mae'r RIASS yn eu hystyried yn hanfodol ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.
   - Cod CIPFA ar Lywodraethu Archwilio Mewnol, sy'n nodi'r gofynion penodol sy'n berthnasol i'r sector llywodraeth leol.
2. Mae'r fframwaith yn cyflwyno gofyniad ar y prif weithrediaeth archwilio i ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol y cyngor ac sy'n cyd-fynd â disgwyliadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, uwch reolwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill.
3. Mae Siarter Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflawni'r gofyniad hwn ers sawl blwyddyn ac mae'n gyfrwng i sicrhau bod archwilio mewnol yn parhau i fod yn berthnasol, ei fod yn gallu addasu a'i fod yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y cyngor.

[1] Y RIASS yw Trysorlys EM ar gyfer llywodraeth ganolog; Llywodraeth yr Alban, Adran Gyllid Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llywodraeth ganolog a'r sector iechyd o fewn eu gweinyddiaethau; yr Adran Iechyd mewn perthynas â'r sector iechyd yn Lloegr; a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg mewn perthynas â llywodraeth leol ledled y DU.

## Cyd-destun cyfredol

4. Mae Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol 2026-27 yn cael ei osod yng nghyd-destun tirlun byd-eang sy'n dod yn fwy a mwy toredig, lle mae heriau geowleidyddol, amgylcheddol a thechnolegol cynyddol yn bygwth sefydlogrwydd a chynnydd. Mae risgiau cymdeithasol megis anghydraddoldeb yn parhau i fod yn uchel ymhlith y prif bryderon heddiw.[2][3]

5. Mae llawer o risgiau'n dod yn fwy cyffredin, megis prinder sgiliau a phrofiad, ymosodiadau seiber wedi'u targedu ac effeithiau deallusrwydd artiffisial (AI). Mae newid hinsawdd hefyd yn nodwedd amlwg, sy'n amlygu'r heriau cymhleth a chyd-gysylltiedig y mae sefydliadau yn eu hwynebu. [4]

6. Fodd bynnag, yr her aruthrol i lywodraeth leol yw gwytnwch ariannol. Mae llywodraeth leol wedi bod yn delio â llymder ers bron i 16 mlynedd, ac mae hyn, ynghyd â phwysau eraill, wedi arwain at fethiant yn yr ystod lawn o gyrff awdurdod lleol. [5]

7. Mae pob cyngor yn wynebu pwysau ariannol ond mae effaith y pwysau ac ymateb cynghorau yn amrywio, a gwelwyd methiannau catastroffig yn Lloegr[6]. Mae cwmnïau archwilio allanol yn rhybuddio ei bod yn bosib y bydd chwarter o gynghorau Lloegr wedi defnyddio cymaint o arian wrth gefn fel y byddant yn peryglu eu cynaliadwyedd ariannol yn sgil y bwlch cynyddol rhwng gwariant ac incwm, o ganlyniad i chwyddiant uwch, costau gweithlu uwch a'r galw cynyddol am wasanaeth.[7]

8. Fel pob cyngor arall, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn wynebu pwysau sylweddol. Mae rheolaeth ariannol gadarn yn bwysicach nag erioed. Bydd rhaid rheoli costau cynyddol wrth osod cyllidebau ac ymateb i'r galw cynyddol yn sgil newidiadau demograffig a chymdeithasol.

9. Bydd sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn cael eu gwneud yn seiliedig ar wybodaeth yn allweddol er mwyn cyflawni amcanion y cyngor a bydd y gallu i fonitro cyllidebau'n effeithiol ac asesu perfformiad a rhagolygon yn fanwl gywir yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol. [8]

10. Mae'r sefyllfa economaidd a chost yr argyfwng costau byw yn cael effaith pellgyrhaeddol a sylweddol ar gymunedau, busnesau a sefydliadau'r ynys.

11. Er mwyn llywio'r ansicrwydd hwn, mae'n rhaid i archwilio mewnol fod yn hyblyg a gwydn. Mae'n rhaid i ni integreiddio ein dealltwriaeth o risgiau mewn archwiliadau er mwyn rhagweld a mynd i'r afael â risgiau posibl yn well.

12. Er mwyn helpu'r cyngor i ffynnu yn y tirlun hwn sy'n parhau i newid, rydym wedi ystyried y canlynol wrth ddatblygu'r Strategaeth hon:

- cyfnodau amser byrrach fel bo sicrwydd yn cael mwy o effaith
- gwasanaethau'n newid prosesau er mwyn ymateb i anghenion sy'n newid
- dibynnu ar ddata cywir, o ansawdd wrth wneud penderfyniadau
- capasiti, trosiant ac anfoddhad ymysg y staff
- risg uwch o dwyll

[2] Adroddiad Risgiau Byd-eang 2026, Fforwm Economaidd y Byd
[3] Risk in Focus 2026 – Hot Topics for Internal Auditors, ECIIA
[4] Emerging Risk Radar, RSM, Hydref 2025
[5] Lessons from recent auditor's annual reports, Grant Thornton, Gorffennaf 2024
[6] Preventing failure in local government, Grant Thornton, December 2023
[7] Grant Thornton: quarter of authorities at risk of financial failure, Public Finance, January 2024
[8] Staying strong on principles in financial management, Public Finance, Mawrth 2025

## Pwrpas archwilio mewnol

13. Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu Cyngor Sir Ynys Môn i greu, amddiffyn a chynnal gwerth trwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad gwrthrychol ar sail risg ac annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rheolwyr.

14. Mae rôl y swyddogaeth archwilio mewnol yn cynnwys:

- cynorthwyo'r awdurdod i gyflawni ei amcanion strategol trwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol ar sail risg ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd llywodraethiant, rheoli risg a rheolaethau mewnol.
- hyrwyddo arferion llywodraethu da trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a chyfrannu at adolygiad llywodraethu blynyddol yr awdurdod.
- cynghori ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol ar gyfer prosiectau, rhaglenni a newidiadau system sylweddol.
- mynediad at ddiddordebau'r awdurdod mewn trefniadau cydweithio a hyd braich.

15. Mae'r swyddogaeth archwilio mewnol fwyaf effeithiol pan:

- mae'n cael ei chyflawni gan swyddogion proffesiynol cymwys, yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, sy'n cael eu gosod er budd y cyhoedd.
- mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn annibynnol ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- nid oes dylanwad amhriodol ar archwilwyr mewnol ac maent wedi ymrwymo i gynnal asesiadau gwrthrychol.

## Gweledigaeth, Cenhadaeth ac Amcanion Strategol

16. Drwy alinio'r strategaeth archwilio mewnol â chyfeiriad a blaenoriaethau'r cyngor gallwn gefnogi ei lwyddiant yn effeithiol.

17. Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn (2023 i 2028) yw prif ddogfen strategol y cyngor. Mae'n dylanwadu ar y strategaethau a chynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau a'u llywio dros gyfnod o bum mlynedd ac yn nodi anghenion plant, pobl ifanc, teuluoedd, pobl hŷn, cymuned, busnesau ac amgylchedd yr ynys nawr ac yn y dyfodol.

18. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i flaenoriaethu a chydweithio wrth ymdrechu i amddiffyn a gofalu am aelodau mwyaf bregus cymdeithas a chyflawni'r weledigaeth sydd wedi'i nodi yn y cynllun, sef '**Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu**'.

19. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi bod cydweithio'n allweddol i wireddu gweledigaeth y cyngor ynghyd â pharhau i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau a'r ffordd y mae'r cyngor yn gweithio. O ganlyniad, mae'r ymrwymiadau hyn yn rhan allweddol o'n strategaeth, a datblygiad ein gweledigaeth, cenhadaeth ac amcanion strategol.

## Gweledigaeth Archwilio Mewnol

20. Ein gweledigaeth yw creu swyddogaeth archwilio mewnol aeddfed, arloesol a chydweithredol sy’n darparu sicrwydd o ansawdd uchel ac sy’n cefnogi gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn i greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.

## Cenhadaeth Archwilio Mewnol

21. Mae swyddogaeth archwilio mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn ymdrechu i sicrhau gwasanaeth cyhoeddus rhagorol drwy dîm aeddfed, cwbl gymwys a phrofiadol, syn gweithio’n ddiwyd, gyda gonestrwydd, uniondeb a dewrder proffesiynol i ddarparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol ac o ansawdd uchel er mwyn gwella llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaethau mewnol.

22. Trwy gydweithio, bod yn arloesol a gwella’n barhaus, rydym yn herio’n effeithiol ac yn ysgogi newidiadau cadarnhaol.

23. Rydym yn darparu mewnwelediad a chraffter i’r rheiny sy’n gyfrifol am lywodraethiant, uwch reolwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill ac yn gweithio mewn partneriaeth â rheoleiddwyr allanol i gydlynu gweithgareddau sicrwydd. Rydym yn un o brif elfennau allweddol fframwaith llywodraethu’r cyngor, fel y cydnabyddir drwy sector cyhoeddus y DU.

24. Rydym wedi ymrwymo i’r safonau moesegol uchaf posib ac rydym yn weision i’r cyhoedd ac yn stiwardiaid adnoddau cyhoeddus, ac yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr ynys a’i thrigolion.

## Amcanion strategol

25. Wrth ddatblygu ein hamcanion strategol, rydym yn cyfleu disgwyliadau rhanddeiliaid ac yn asesu aeddfedrwydd presennol y swyddogaeth archwilio mewnol (manylion yn Atodiad A). Felly, mae ein hamcanion strategol a’u mentrau a matrics allweddol cyfatebol fel a ganlyn:

| Amcan strategol 1: Swyddogaeth archwilio mewnol medrus ac sydd wedi cymhwyso’n llawn | | |
|---|---|---|
| **Mentrau Allweddol** | **Metrig Presennol** | **Metrig Targed** |
| Cefnogi aelodau’r tîm i ddarparu tystiolaeth ar gyfer eu targedau datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) | 100% | 100% |
| Cefnogi aelodau tîm i hunanasesu yn erbyn Fframwaith Cymhwysedd yr IIA | Dim | 100% |

| Amcan strategol 2: Ymgorffori technoleg a dadansoddeg archwilio mewn archwiliadau | | |
|---|---|---|
| **Mentrau Allweddol** | **Metrig Presennol** | **Metrig Targed** |
| Defnyddio dadansoddeg data yn ystod archwiliadau | 53% | 60% |
| Gwella llythrennedd digidol archwilwyr drwy sicrhau eu bod yn gallu defnyddio technoleg yn hyderus, yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial, i wella’r broses asesu risg ac ansawdd archwiliadau ac adrodd yn fwy effeithlon | 1 pwynt dysgu'r flwyddyn | 1 pwynt dysgu'r flwyddyn |

| Amcan strategol 3: Chwilio am gyfleoedd i gydweithio’n rhanbarthol a chenedlaethol | | |
|---|---|---|
| **Mentrau Allweddol** | **Metrig Presennol** | **Metrig Targed** |
| Parhau i fod yn aelod o grwpiau rhwydweithio | Cydweithio ar un maes allweddol y flwyddyn | Cydweithio ar un maes allweddol y flwyddyn |

Tudalen 86

# Blaenoriaethau'r Cynllun Strategol

26. Mae'r proffesiwn Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol ers ei ddyddiau gwirio cydymffurfiaeth pan oedd gwaith archwilio'n canolbwyntio'n bennaf ar werthuso'r gorffennol a sicrhau cydymffurfiaeth. Cyfrifoldeb rheolwyr yw cydymffurfio. Mae archwilio wedi esblygu, gan symud o archwilio sy'n 'seiliedig ar systemau' i archwilio sy'n 'seiliedig ar risg', ac yn fwy diweddar, mae wedi mabwysiadu dull 'archwilio ystwyth'.
27. Mae archwilio mewnol ystwyth yn rhoi pwyslais ar hyblygrwydd, cydweithio ac ymateb i risgiau sy'n newid a blaenoriaethau'r sefydliad. Yn wahanol i archwiliadau traddodiadol, sy'n dilyn cynlluniau blynyddol caeth, mae archwilio ystwyth yn canolbwyntio ar gynllunio hyblyg, ailadroddol ar sail barhaus. Mae'n galluogi archwilwyr i addasu'n gyflym i risgiau sy'n codi ac anghenion rhanddeiliaid, gan wella effeithlonrwydd a chyfathrebu rhwng archwilwyr a rheolwyr.
28. Drwy barhau i ddiweddaru cynlluniau archwilio a chanolbwyntio ar feysydd risg uchel, mae archwilio ystwyth yn helpu sefydliadau i barhau i lywodraethu'n effeithiol ac ymateb i amgylcheddau deinamig ar yr un pryd ac mae'n cael ei yrru gan yr asesiadau risg diweddaraf, gan roi sylw i'r bygythiadau mwyaf.
29. Felly, mae ein cynllun strategol yn rhoi blaenoriaeth i archwiliadau'n ymwneud â risgiau strategol y cyngor, gyda'r nod o ddarparu sicrwydd ar 80% o'r risgiau strategol mwyaf dros gyfnod treigl o ddwy flynedd.
30. Byddwn hefyd yn cynnal rhestr o waith archwilio arall a fydd yn cael ei diweddaru a'i diwygio'n barhaus. Gellir blaenoriaethu unrhyw waith mewn ymateb i flaenoriaethau newydd, neu risgiau sy'n codi, dros yr adolygiadau blaenoriaeth canolig hyn.

## Risgiau strategol

31. Er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i'r cyngor, mae rhan helaeth o'n gwaith yn canolbwyntio ar adolygu'r gofrestr risgiau strategol dros gyfnod treigl o 24 mis.
32. Rydym yn canolbwyntio ar risgiau cynhenid 'coch', lle mae'r risg gweddilliol yn 'goch' neu 'ambr'
33. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor wedi asesu saith o'i risgiau strategol fel risgiau cynhenid 'coch'. Mae risgiau gweddilliol dau o'r rhain wedi cael eu hasesu'n 'goch' a phedwar yn 'ambr'.
34. O ganlyniad, gan ein bod yn adolygu'r risgiau strategol dros gyfnod treigl o ddwy flynedd, rhoddir blaenoriaeth i adolygu'r risgiau a adolygwyd ddiwethaf yn ystod 2024-25 ac unrhyw risgiau newydd. Hefyd, er mai dim ond risg gweddilliol 'melyn' ydyw, yn unol â chais y Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ansawdd Ymarfer), byddwn yn adolygu diogelwch cludiant ysgol.
35. Gweler Atodiad B i gael manylion yr archwiliadau risgiau strategol arfaethedig.

## Archwiliad TG

36. Seiberddiogelwch yw risg fwyaf y 21ain ganrif, heb os. Ynghyd â diogelwch data, mae'n parhau i fod yn un o'r bygythiadau mwyaf yn ôl arolwg gan brif swyddogion archwilio Ewrop – gydag 83% yn dweud ei fod ymhlith y 5 risg uchaf (84% yn 2024). [9]
37. Mae hacwyr hefyd yn symud i faes mwy bygythiol, sef yr hyn a elwir yn "meddalwedd difa" i roi pwysau ar sefydliadau i dalu - mae'r ymosodiadau hyn yn targedu seilwaith critigol. Mae

[9] Risk in Focus 2025, CIIA

meddalwedd wystlo'n parhau i fod yn anodd ei liniaru ac mae'n peri risg difrodol posib i fodolaeth sefydliadau.

38. Gall achos difrifol o dor diogelwch effeithio ar ansawdd gwasanaethau'r cyngor, ar ymddiriedaeth a'i enw da, dirwyon yn gysylltiedig â thorri'r GDPR a'i sefyllfa ariannol, ond, yn fwy difrifol, gallu'r cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau i'w gleientiaid bregus.

39. Gan ein bod wedi cyrraedd pendraw ein galluoedd technegol yn y maes hwn, rydym yn comisiynu Archwilwyr TG yng Nghyngor Salford i gyflawni rhaglen waith i ddarparu sicrwydd i'r cyngor bod ei wendidau TG yn cael eu rheoli'n effeithiol.

40. Yn ystod 2026-27, rydym yn bwriadu ceisio sicrwydd bod y Cyngor wedi asesu risgiau'n briodol a'i fod wedi rhoi mesurau lliniaru effeithiol ar waith yn y meysydd canlynol:

- Cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial (AI) (ar waith - wedi'i ohirio yn 2025-26)
- Rheolaeth strategol o asedau TG (gohiriwyd yn 2025-26 ar gais y Prif Swyddog Digidol)
- Adfer yn dilyn trychineb TG (gohiriwyd yn 2025-26 ar gais y Prif Swyddog Digidol)
- Integreiddio systemau ariannol

## Gwaith archwilio arall

Cronfeydd 'answyddogol' ysgolion

41. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc er mwyn darparu sicrwydd bod cyfrif cywir yn cael ei roi am incwm a gwariant mewn cronfeydd answyddogol ysgolion a bod y trefniadau llywodraethu'n briodol, a hynny drwy asesu ansawdd tystysgrifau archwilio cronfeydd ysgolion. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cynnwys darparu hyfforddiant i benaethiaid newydd a llywodraethwyr.

**Monitro parhaus - Credydwyr a Chyflogres**

42. Rydym yn gallu dadansoddi llwythi data sylweddol yn gyflym ac yn ddidrafferth drwy ddefnyddio meddalwedd dadansoddi data. Yn ogystal â dadansoddi data yn ystod archwiliadau eraill, byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn y swyddogaeth Taliadau i nodi taliadau dyblyg a methiannau eraill yn y prosesau prynu a thalu.

43. O ganlyniad i'r gwaith monitro parhaus hwn, byddwn yn nodi methiannau pellach mewn rheolaethau, a'r goblygiadau ariannol, yn gynt. P'un ai fydd yn arbed arian i'r cyngor, neu os nad oes colled sylweddol, mae canfod methiannau mewn rheolaethau yn gynnar yn golygu bod modd cymryd camau adfer a gweithredu mewn da bryd.

**Rheoli'r risg yn gysylltiedig â choed ar dir y cyngor**

44. Ynghyd â'r risg o wynebu achos cyfreithiol, yn ddiweddar mae rheoleiddwyr wedi gosod dirwyon sylweddol ar gynghorau am fethu ag archwilio a chynnal a chadw coed yn eu meddiant. Er bod gan y cyngor ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau nad yw coed ar dir y cyngor yn peri risg afresymol i bobl neu eiddo, ar hyn o bryd nid oes yn rhaid i gynghorau gyhoeddi strategaeth cynnal a chadw coed. Fodd bynnag, drwy beidio â rheoli risgiau'n gysylltiedig â choed sy'n tyfu ar dir y cyngor yn effeithiol gallai'r cyngor wynebu hawliadau yswiriant, iawndal a chostau cyfreithiol, niwed i'r cyhoedd a'i enw da.

**Digartrefedd a defnyddio llety dros dro**

45. Mae'r galw cynyddol yn rhoi pwysau ariannol ar wasanaethau cymorth ac atal digartrefedd. Bydd ein hadolygiad o drefniadau digartrefedd y cyngor y darparu sicrwydd bod adnoddau yn y maes hwn yn cael eu defnyddio'n effeithiol, effeithlon ac arloesol.

**Proses newydd ar gyfer adennill mân ddyledion**

46. Yn dilyn archwiliad ym mis Mawrth 2025, mae proses newydd wedi cael ei chyflwyno ar gyfer adennill dyledion. Unwaith y bydd wedi cael ei sefydlu'n iawn, byddwn yn adolygu effeithlonrwydd y system newydd.

**Cardiau prynu corfforaethol**

47. Rydym wrthi'n archwilio prosesau talu credydwyr. Er mwyn sicrhau ein bod ni'n adolygu'r holl opsiynau talu a ddefnyddir gan y cyngor, byddwn yn cynnal adolygiad pellach o'r cardiau prynu corfforaethol, gan ganolbwyntio ar nodi gwariant dyblyg a chyfanredol.

**Cynllun Treth y Diwydiant Adeiladu**

48. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Gredydwyr, byddwn yn adolygu cydymffurfiaeth y cyngor â Chynllun Treth y Diwydiant Adeiladu.

**Apwynteiaeth**

49. Mae achos diweddar o dwyll mewn awdurdod lleol yng ngogledd orllewin Lloegr wedi amlygu pa mor agored ydi'r swyddogaeth hwn i dwyll. Bydd yr adolygiad hwn yn darparu sicrwydd bod mesurau gwrth-dwyll, yn benodol, yn gadarn.

**Diwydrwydd dyladwy**

50. Mae 'methiant i atal achos o dwyll' wedi amlygu bod rhaid i'r cyngor sicrhau bod ganddo brosesu diwydrwydd dyladwy cadarn ac effeithiol. Bydd ein hadolygiad yn asesu effeithiolrwydd rheolaethau yn y maes hwn.

**Rhenti Tai**

51. Mae achos diweddar o dwyll mewn awdurdod lleol wedi amlygu pa mor agored ydi'r swyddogaeth hwn i dwyll. Bydd ein hadolygiad yn darparu sicrwydd bod mesurau gwrth-dwyll, yn benodol, yn gadarn.

## Gwaith sy'n weddill 2025-26

52. Nodwyd yr adolygiadau a ganlyn yng nghynllun archwilio strategol 2025-26. Cafodd y gwaith hwn, sy'n llai o flaenoriaeth, ei roi i'r neilltu er mwyn canolbwyntio ar archwiliadau risg uwch. Mae bod yn hyblyg yn hanfodol o ran ein dull ystwyth, lle rydym yn blaenoriaethu archwiliadau'n seiliedig ar risg ac anghenion y sefydliad.

**Systemau Ariannol Craidd**

53. Nid yw systemau ariannol craidd y Cyngor wedi cael eu harchwilio ers nifer o flynyddoedd ac mae Archwilio Cymru wedi mynegi ei fod yn dymuno gweld mwy o waith yn cael ei gwblhau yn y maes hwn. Felly, bydd archwiliadau cyfnodol yn cael eu cynnal, yn seiliedig ar risg, i ddarparu sicrwydd ynglŷn â llywodraethiant ariannol, cywirdeb ac effeithlonrwydd. Archwiliwyd y gyflogres a rheoli trysorlys yn ystod 2025-26, a bydd credydwyr, incwm, cysoniadau banc a phrif swyddogaethau cyfrifo yn cael eu harchwilio yn ystod 2026-27. Mae'r archwiliad credydwyr ar waith ar hyn o bryd.

**Rheolaeth ariannol mewn ysgolion**

54. Mae'r gwaith i sicrhau ansawdd tystysgrifau archwilio cronfeydd answyddogol ysgolion, ac archwiliadau o rai cronfeydd, wedi amlygu y gallai prosesau rheoli cyllid mewn ysgolion elwa o adolygiad manylach. Mae'r adolygiad hwn ar waith ar hyn o bryd.

### Rheoli contractau

55. Mae archwiliad i daliad dyblyg wedi tynnu sylw at wendidau mewn prosesau rheoli contractau o fewn y cyngor.  Gohiriwyd yr adolygiad hwn oherwydd y rhaglen gwella caffael sy'n mynd rhagddi i sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth caffael newydd.  Unwaith y bydd y rhaglen wedi'i chwblhau yn 2026, bydd yr adolygiad o brosesau rheoli contractau yn cael ei gynnal.

### Costau cyfreithiol

56. Yn ystod archwiliad diweddar o Ofal Cymdeithasol i Oedolion - Asesiadau Ariannol amlygwyd er bod proses ar gyfer codi costau cyfreithiol neu daliadau gohiriedig yn erbyn eiddo, nad oedd y cytundebau wedi cael eu rhoi ar waith yn gywir i wella'r tebygolrwydd o adennill dyledion a chodi llog a ffioedd gweinyddol.  Bydd archwiliad o gostau cyfreithiol / gohiriedig yn cael ei gwblhau i ddarparu sicrwydd bod taliadau gohiriedig wedi cael eu rhoi ar waith yn gywir ledled y cyngor.

### Prydau ysgol - alergenau

57. Amlygwyd yn ystod digwyddiad mewn awdurdod cyfagos nad oedd y ddarpariaeth prydau ysgol wedi ystyried alergenau yn effeithiol.  Bydd yr archwiliad yn darparu sicrwydd bod prydau ysgol yn cael eu paratoi'n ddiogel ar gyfer disgyblion a staff, yn benodol unigolion ag anghenion dietegol arbennig.

## Atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd

58. Pan mae pobl yn twyllo'r sector cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus, maent yn cymryd arian oddi wrth wasanaethau y mae'r cyhoedd yn dibynnu arnynt, ac maent yn niweidio hyder dinasyddion yn y llywodraeth.

59. Mae twyll a llygredd yn faterion sy'n esblygu, ac, fel y cyfryw, rhaid i ymateb y cyngor fod yn hyblyg a rhaid iddo addasu i natur twyll sy'n newid. Felly, byddwn yn parhau i adolygu ymagwedd y cyngor tuag at atal twyll, atal llwgrwobrwyo a llygredd, atal gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth trwy'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-28.

# Mesurau perfformiad

60. Mae archwilio mewnol ystwyth a seiliedig ar risg yn broses ddeinamig ac felly'n anoddach i'w reoli na methodolegau traddodiadol. Mae monitro cynnydd yn erbyn cynllun sy'n newid yn gyson yn her ac rydym wedi adolygu ein mesurau perfformio er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaeth rydym yn ceisio ei gynnig.

61. Mae gennym raglen sicrhau ansawdd a gwella ar waith i sicrhau bod ein gwasanaeth archwilio mewnol yn gwella'n barhaus. Rydym wedi mabwysiadu cyfres lai a symlach o fesurau perfformiad i werthuso effeithiolrwydd ein gwaith.

62. Yn ystod 2025-26, rydym wedi perfformio'n dda yn erbyn y rhan fwyaf o'n targedau, gyda phedwar o'r chwe dangosydd yn cyrraedd eu targed.

63. Yn bwysicaf oll, rydym wedi cyflawni ein targed o adolygu 80% o'r risgiau gweddilliol coch ac ambr ar y gofrestr risgiau strategol ac mae hynny'n darparu sicrwydd digonol i ganiatáu i'r Pennaeth Archwilio a Risg ddarparu Barn Archwilio Flynyddol.

64. Methodd dau faes â chyflawni ei darged perfformiad:

- 'Archwiliadau a gwblhawyd o fewn chwe mis'. Mae cyfnodau amser byrrach ar gyfer archwiliadau'n hanfodol fel bod y sicrwydd a roddir yn cael cymaint o effaith â phosib, felly byddwn yn parhau i geisio cwblhau archwiliadau'n gyflym.
- 'Nifer y staff' - gwelsom rywfaint o leihad yn nifer y staff gan fod staff wedi gadael yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, ni chafodd hyn lawer o effaith gan ein bod wedi llwyddo i lenwi'r swydd Uwch Archwilydd yn gyflym

**Meincnodi**

65. Mae Grŵp Prif Archwilwyr Cymru, rhwydwaith prif swyddogion archwilio yng Nghymru, wedi dechrau meincnodi, ond nid oedd y canlyniadau ar gyfer 2025-26 ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae cyfres o fesurau newydd wedi cael eu creu yn seiliedig ar ofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn sector cyhoeddus y DU.

66. O ganlyniad, mae dau o'r mesurau hyn wedi'u cynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2026-27, a'u hychwanegu isod.

| Dangosydd Perfformiad | Gwirioneddol 2024-25 | Targed 2025-26 | Gwirioneddol 2025-26 | Targed 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| Risgiau Gweddilliol Coch / Ambr ar y Gofrestr Risgiau Strategol a archwiliwyd (dros gyfnod treigl o 24 mis) | 80% | 80% | 80% | 80% |
| Archwiliadau a gwblhawyd o fewn chwe mis | 83% | 85% | 80% | 85% |
| Ymateb cleientiaid yn 'foddhaol' neu well | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Nifer staff (cyfwerth ag amser llawn (FTE)) | 2.8 FTE | 2.8 FTE | 2.7 FTE | 3.0FTE |
| Yr holl rybuddion twyll a gafodd eu derbyn, eu hystyried a'u dosbarthu | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Canlyniad yr asesiadau mewnol (blynyddol) ac allanol (bob pum mlynedd) o'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella | Cydymffurfio'n Gyffredinol | Cyflawni'n Gyffredinol | Cyflawni'n Gyffredinol | Cyflawni'n Gyffredinol |
| Canran yr amcanion strategol yn y Cynllun Corfforaethol a oedd yn destun gwaith sicrwydd wedi'i dargedu yn ystod y flwyddyn | Amherthnasol | Amherthnasol | 50% | 66% |
| Canran y staff sydd wedi cwblhau hunanasesiad yn erbyn Fframwaith Cymhwysedd yr IIA | Amherthnasol | Amherthnasol | 0% | 100% |



# Monitro a derbyn risgiau

67. Mae GIAS Safon 15.2 'Cadarnhau bod Argymhellion neu Gynlluniau Gweithredu wedi cael eu Rhoi ar Waith' yn nodi bod rhaid i'r prif weithrediaeth archwilio sefydlu proses ar gyfer monitro a sicrhau bod rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r risgiau a godwyd yn effeithiol.

68. Gall blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, cyfyngiadau cyllidebol a ffactorau eraill atal rheolwyr rhag mynd i'r afael â'r rhain o fewn yr amserlen y cytunwyd arni neu fel y cynlluniwyd yn flaenorol i liniaru'r risg. Fodd bynnag, mae rheolwyr nad ydynt yn mynd i'r afael â materion sy'n codi o waith archwilio mewnol yn peryglu'r sefydliad. Trwy fonitro, mae hyn yn helpu i'w atal rhag dod yn broblem.

69. Yn unol â'r protocol dilyn i fyny yn ein Siarter Archwilio Mewnol cytunedig, byddwn yn monitro'r holl Faterion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n codi a thracio camau gweithredu ar y system tracio mewnol (4action).

70. Byddwn yn adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn ar y cynnydd a wnaed gan reolwyr o ran cyflawni camau gweithredu.

71. Mae GIAS Safon 11.5 'Cyfathrebu Risgiau sydd wedi'u Derbyn' yn nodi bod rhaid i'r prif weithrediaeth archwilio gyfathrebu lefelau annerbyniol o risg, h.y. pan fydd uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â chymryd camau.

72. Pan fo'r Pennaeth Archwilio a Risg o'r farn bod rheolwyr wedi derbyn risg sydd y tu hwnt i archwaeth risg neu oddefiant risg y cyngor, bydd y mater yn cael ei drafod gydag uwch reolwyr ac yn cael ei uwch-gyfeirio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio os yw o'r farn nad yw'r mater wedi cael ei ddatrys.

# Atodiad A – Dadansoddiad aeddfedrwydd archwilio mewnol

## Strwythur






73. Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.  Mae mabwysiadu dull archwilio seiliedig ar risg ac 'archwilio ystwyth' yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi gwella'r sicrwydd y mae'r cyngor yn ei dderbyn.  Mae'r tîm newydd wedi ymateb yn dda; mae staff wedi parhau i addasu eu sgiliau, wedi cynnal archwiliadau mwy cymhleth ac ar lefel strategol, ac wedi rheoli llwyth gwaith uwch.

74. Fodd bynnag, er ei fod wedi gwella'r integreiddio rhwng archwilio mewnol a rheoli risg, nid oedd cyfuno'r tîm Archwilio Mewnol a'r tîm Rheoli Risg yn ôl yn 2017 yr un mor llwyddiannus.  Oherwydd problemau gyda chapasiti'r swyddog, nid oedd ymgorffori prosesau rheoli risg i'r cyngor  yn llawn yr un mor llwyddiannus ag yr oeddem wedi'i ddisgwyl.

75. Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r afael â hyn, ac mae swyddog o fewn y Tîm Arweinyddiaeth bellach yn gyfrifol am y gwaith rheoli risg. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn parhau i oruchwylio'r polisi a'r strategaeth rheoli risg ac yn parhau i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## Capasiti

76. Mae gennym un swydd wag ar lefel uwch archwilydd o hyd, ac rydym yn defnyddio'r arbedion cyllidebol i gomisiynu archwilwyr arbenigol ac arbenigwyr pwnc i fodloni anghenion sicrwydd technegol a chymhleth rhai o'r risgiau strategol.

77. Crëwyd un swydd newydd o fewn y tîm yn ystod 2025-26 - Swyddog Yswiriant a Gwrth-dwyll.  Prif gyfrifoldeb y swyddog yw delio â materion yswiriant ond mae hefyd yn gyfrifol am ddelio ag adroddiadau o dwyll drwy'r teclyn adrodd am dwyll ar y wefan, gweinyddu'r Fenter Twyll Genedlaethol a rhannu rhybuddion twyll a gyhoeddir gan y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Genedlaethol (NAFN).

78. Mae'r maes yswiriant yn ddibynnol ar y galw a hefyd yn gylchol, a phan fo amser yn caniatáu, bydd y Swyddog Gwrth-dwyll yn cynnal mentrau gwrth-dwyll rhagweithiol yn ogystal â'r prif gyfrifoldebau sydd wedi'u nodi uchod.

79. Yn ogystal â hyn, a gyda lefel cynhyrchiant o 80%, mae gennym oddeutu 625 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau'r gweithgarwch archwilio mewnol sy'n weddill, gan gynnwys ymchwiliadau, er mwyn darparu'r farn sicrwydd blynyddol.

## Hyfforddi a datblygu

80. Mae gallu archwilio mewnol i gynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol a'i flaenoriaethau'n ddibynnol ar ansawdd y tîm archwilio mewnol. Felly, mae parhau i wella gallu archwilio mewnol yn flaenoriaeth ar gyfer gwella ei effaith ac effeithlonrwydd ac i sefydlu tîm medrus tu hwnt a all ddelio'n hyderus ag anghenion sicrwydd newidiol.

81. Mae gan y tîm brofiad helaeth o archwilio mewnol ac allanol, ynghyd â chymysgedd ragorol o gymwysterau proffesiynol yn cynnwys CIPFA[10], CIIA[11], IRRV[12], ACFS ac ACFTech[13], ynghyd â chymwysterau academaidd ym maes Rheoli Newid, Busnes a Chyfrifeg.

82. Fodd bynnag, mae heriau'n bodoli o ran sicrhau bod digon o archwilwyr profiadol ar gael i gwblhau gwaith mwy cymhleth yn ogystal â darparu hyfforddiant a chymorth i staff amhrofiadol.

83. Yn ogystal ag allanoli archwiliadau i arbenigwyr, bydd y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant a chyfleoedd datblygu fel bod y tîm yn parhau i ddatblygu'n broffesiynol ac yn ymwybodol o risgiau a datblygiadau sy'n codi'u pen yn y sector, ac er mwyn cadw staff. Yn dilyn eu cyfnod prawf, byddwn yn trafod y llwybr cymwysterau y mae'r Uwch Archwilydd yn ei ffafrio.

84. Byddwn hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant mandadol corfforaethol pan fo'n ofynnol.



[10] Y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yw'r corff proffesiynol ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus.
[11] Y Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol (CIIA) yw'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer archwilwyr mewnol.
[12] Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV) yw'r corff proffesiynol ar gyfer trethiant, budd-daliadau a phrisio lleol.
[13] Mae'r ACFS (Accredited Counter Fraud Specialist) ac ACFTech (Accredited Counter Fraud Technician) yn gymwysterau gwrth-dwyll proffesiynol sydd wedi'u hachredu gan y Bwrdd Dyfarniadau Proffesiynol Gwrth-dwyll.

# Atodiad B – Map Sicrwydd (Trydedd Linell) - Risgiau Strategol

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Blwyddyn yr Archwiliad 2022-23 | Blwyddyn yr Archwiliad 2023-24 | Blwyddyn yr Archwiliad 2024-25 | Blwyddyn yr Archwiliad 2025-26 | Blwyddyn yr Archwiliad 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| STR0001 (YM1) | **Risg cyllid a rheoli cyllid** Cyllid sy'n hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau statudol a chyflawni amcanion strategol wedi lleihau neu'n annigonol. | 5:3 15 | 4:3 12 | Gwytnwch Ariannol (Tachwedd 2022) | | Cadernid amcangyfrifon a digonolrwydd asesiad o gronfeydd wrth gefn (Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003) (Gorffennaf 2024) | Rheolaeth Ariannol (Mawrth 2026) | *Archwiliad TG: Integreiddio systemau ariannol* |
| STR0002 (YM3) | **Risg TG ac ymosodiadau seibr** Methiant TG yn amharu'n sylweddol ar barhad busnes. | 5:5 25 | 4:4 16 | Archwiliad TG - Cyfrifiadura yn y Cwmwl (Mawrth 2023) | Rheoli Mynediad Corfforaethol (Risgiau Allweddol) (Mawrth 2024) | Rheoli Cyflenwyr TG (Gorffennaf 2024) | Archwiliad TG: Rheoli'r Ddesg Wasanaeth (Mehefin 2025) | Archwiliad TG: Adfer yn dilyn digwyddiad TG |
| | | | | Archwiliad TG - Parhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) (Dilyniant) (Medi 2022) | | Archwiliad TG - Seiberddiogelwch - Dadansoddiad o'r Bylchau NCSC CAF (Tachwedd 2024) | Archwiliad TG: Seiberddiogelwch mewn Ysgolion (Tachwedd 2025) | |
| | | | | Rheoli Gwendidau TG (Medi 2022) | | | Archwiliad TG - Diogelwch Ffisegol ac Amgylcheddol Canolfannau Data (Rhagfyr 2025) | Archwiliad TG: Integreiddio systemau ariannol |
| | | | | Rheoli Gwendidau TG (Ionawr 2023) | | | | |

| Cyf Risg | Risg | Blaenoriaeth Risg Cynhenid | Blaenoriaeth Risg Gweddilliol | Blwyddyn yr Archwiliad 2022-23 | Blwyddyn yr Archwiliad 2023-24 | Blwyddyn yr Archwiliad 2024-25 | Blwyddyn yr Archwiliad 2025-26 | Blwyddyn yr Archwiliad 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| STR0003 (YM10) | **Diogelu** Methu â diogelu oherwydd prosesau aneffeithiol. | 4:5 20 | 3:3 9 | | Rheoli Risg Strategol - Diogelu (YM10) (Ionawr 2024) | | Rheoli Risg Strategol - Diogelu (ISROs) (YM10) - Adolygiad Dilynol Cyntaf (Mawrth 2026) | Diogelwch cludiant Ysgol |
| STR0004 (YM2) | **Recriwtio, cadw staff a pharhad mewn arweinyddiaeth** Gall methu â recriwtio'n ddigon cyflym a phrinder talent leihau gallu'r gweithlu, gwanhau parhad mewn arweinyddiaeth, ac amharu ar wasanaethau. | 4:5 20 | 3:4 12 | Recriwtio a Chadw (Mehefin 2022) | | Recriwtio a Chadw (Rhagfyr 2024) | | Recriwtio, cadw staff a pharhad mewn arweinyddiaeth |
| STR0006 (Risg newydd) | **Cadwyn gyflenwi** Gall dibyniaeth ar lond llaw o gyflenwyr allweddol fel rhan o gadwyn gyflenwi'r cyngor achosi oedi i wasanaethau a lleihau gwydnwch. | 4:4 16 | 4:2 8 | | | | | Risg rheoli'r gadwyn gyflenwi |
| STR0008 (YM7) | **Blaen gynllunio gwasanaethau** Ansicrwydd o ran polisïau cenedlaethol a buddsoddiadau allanol yn effeithio ar gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. | 4:4 16 | 3:4 12 | | Gwytnwch Sefydliadol (Tachwedd 2023) | | | Rheoli'r risg o flaen gynllunio gwasanaethau |
| STR0010 (YM14) | **Asedau ffisegol** Methu â defnyddio adeiladau'r cyngor ac asedau eraill oherwydd eu bod mewn cyflwr gwael. | 5:5 25 | 4:4 16 | | | Rheoli asedau ffisegol y cyngor (Mawrth 2025) | | Rheoli asedau ffisegol y cyngor |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | Dydd Iau, 25ain Mehefin 2026 |
| **Pwnc:** | Asesiad Panel Perfformiad (PPA) |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dylan Williams<br>Prif Weithredwr<br>dylanwilliams@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau<br>gwyndafparry@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mewn ymateb i'r Adroddiad terfynol PPA a gyhoeddwyd, (Atodiad 1) mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), ddatgan yn ei ymateb unrhyw gamau mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad yma fel rhan o'u cyfrifoldebau yn unol a'r Cylch gorchwyl:<br><br>3.4.8.16.3 Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w Bwyllgor llywodraethu ac Archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Tachwedd 2025, cymerodd y Cyngor ran mewn Asesiad Panel Perfformiad yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Wedi'i hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), roedd yr asesiad yn gwerthuso i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau, defnyddio ei adnoddau a llywodraethu ei hun yn effeithiol.

1.2 Aeth y Cyngor ati'n rhagweithiol i sicrhau bod yr asesiad yn canolbwyntio ar y meysydd isod:

- **Ein trefniadau ar gyfer cyflawni'r amcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor - ydi'r trefniadau a roddwyd ar waith yn darparu sicrwydd bod Cynllun y Cyngor yn cael ei gyflawni'n effeithlon?**

- **Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda chymunedau a phartneriaid i gyflawni'r amcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor?**

1.3 Mae'r Asesiad yn darparu sicrwydd allanol, lefel uchel, bod Ynys Môn yn perfformio'n dda, ar adeg pan fo'r hinsawdd economaidd yn heriol, a daeth y Panel i'r casgliad bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau yn unol â'r dyletswyddau perfformiad.

1.4 Mae'r Adroddiad yn cynnwys 8 argymhelliad ac mae'r cynllun gweithredu (atodiad 2) yn nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â phob argymhelliad.

1.5 Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gyflawni chwe amcan strategol Cynllun y Cyngor.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn rhoi adborth i’r Pwyllgor Gwaith ar y cynllun gweithredu (atodiad 2).



Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel
Cyngor Sir Ynys Môn Tachwedd 2025

## Tabl Cynnwys

Cyflwyniad .......... 2

Casgliadau Cyffredinol .......... 3

Y Panel .......... 5

Cwmpas a Dull .......... 5

Sefydliad Gwleidyddol .......... 6

Sefydliad Corfforaethol .......... 7

Heriau Cenedlaethol a Lleol .......... 7

Cryfderau a Meysydd Arloesi .......... 8

Gofyniad Perfformiad: A yw'r cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol .......... 9

Gofyniad Perfformiad: I ba raddau y mae'r cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol .......... 11

Gofyniad Perfformiad: Mae ganddo lywodraethu effeithiol ar waith .......... 15

Trefniadau ar gyfer cyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor – a yw ein trefniadau yn rhoi sicrwydd ein bod yn cyflawni Cynllun y Cyngor yn effeithlon .......... 17

A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor .......... 17

Cydnabyddiaeth .......... 19

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Yn unol â’r dyletswyddau perfformiad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, comisiynodd Cyngor Sir Ynys Môn Asesiad Perfformiad Panel (APP) drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

1.2 Cwblhawyd yr asesiad ar y safle dros gyfnod o bedwar diwrnod, a ddaeth i ben ar 13 Tachwedd 2025 drwy gyflwyno adborth i’r Cyngor yn egluro’r prif argymhellion sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Cyhoeddwyd yr adroddiad i'r cyngor ym mis Chwefror 2026.

1.3 Cynhaliwyd yr asesiad yn seiliedig ar y ddogfen gwmpasu y bu i’r Cyngor gytuno arni a methodoleg APP CLlLC, a ddatblygwyd gyda’r sector. Mae methodoleg APP CLlLC yn darparu fframwaith cyffredinol i’r panel: nid yw pob trywydd holi wedi’u pennu’n bendant, ond maent yn rhoi arweiniad i’r panel ar y meysydd y gellid eu harchwilio i fodloni’r ddyletswydd statudol. Fodd bynnag, dylai’r graddau y mae’r panel yn archwilio’r meysydd hynny fod yn gymesur â chwmpas y Cyngor ond yn ddigonol i’r panel allu dod i gasgliad.

1.4 Yn unol â’r canllawiau statudol, nid archwiliad nac arolygiad yw’r APP ac nid yw’n ceisio dyblygu’r gwaith a wneir gan rheoleiddwyr a chyrff eraill. Er bod y panel wedi cynnal asesiad corfforaethol, nid oedd yr asesiad hwn yn un trylwyr a dylid ei ystyried ochr yn ochr â ffynonellau sicrwydd eraill fel hunanasesiad y Cyngor ei hun, adolygiadau archwilio mewnol ac adolygiadau archwilio a rheoleiddio allanol.

1.5 Wrth baratoi ar gyfer yr APP, bu i’r Cyngor fesur cwmpas eu gofynion er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cynnig y mwyaf o werth ac yn cael yr effaith fwyaf bosib ar y Cyngor. Mae’r meysydd penodol roedd y Cyngor eisiau canolbwyntio arnynt i’w gweld ym mharagraff 4.2.

1.6 Mae’r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cryno o gasgliadau’r panel a adroddir yn ôl eithriadau.

**Crynodeb Gweithredol**

## 2.0 Casgliad Cyffredinol

2.1 Ar y cyfan, yng nghyd-destun cefndir economaidd heriol, daeth y panel i'r casgliad bod y Cyngor yn arfer ei swyddogaethau yn unol â’r dyletswyddau perfformiad a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae’r Cyngor yn dangos mesurau llywodraethu cadarn, perthnasoedd adeiladol rhwng Aelodau a Swyddogion, a llwybr gwelliant pendant ers 2018. Mae’r llwybr hwn yn galluogi’r Cyngor i hyrwyddo ei waith da yn ogystal â magu’r hyder y mae ei angen i gyfleu ei rôl fel arweinydd dibynadwy ar gyfer yr ynys, sy’n canolbwyntio ar yr ardal leol.

2.2 Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sy’n fwyfwy cyfyngol a heriau di-baid o ran y gweithlu, sy’n tanlinellu’r angen i drawsnewid y sefydliad ar fyrder. Mae’r panel yn argymell ehangu effaith Bwrdd y Rhaglen Wella a Moderneiddio drwy gynllun moderneiddio trawsbynciol lefel uchel sy’n cefnogi’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Bydd hyn yn magu gwydnwch ac yn galluogi’r Cyngor i addasu i gyfyngiadau ariannol yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd am dwf cynaliadwy.

2.3 Daeth datblygiad economaidd i’r amlwg fel blaenoriaeth bwysig. Dylai’r Cyngor gyfleu naratif economaidd grymus a datblygu strategaeth economaidd uchelgeisiol sy’n manteisio ar gyfleoedd cenedlaethol arwyddocaol fel gorsaf bŵer niwclear SMR Wylfa, Porthladd Rhydd Ynys Môn a’r Ganolfan Ddata AI arfaethedig. Bydd cysylltu’r naratif hwn â monitro perfformiad a Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn atgyfnerthu atebolrwydd ac yn dangos cynnydd ar flaenoriaethau strategol.

2.4 Mae gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig gyda'r sector gwirfoddol, yn gryfder nodedig i'r cyngor. Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl, dylai'r cyngor nawr ddyfnhau cydweithio rhanbarthol i ddylanwadu a llunio'r amodau sy'n angenrheidiol ar gyfer adnewyddu economaidd hirdymor. Gyda chyfleoedd mawr yn dod i'r amlwg, gan gynnwys datblygiad SMR Wylfa, Porthladd Rhydd Ynys Môn a mentrau twf ehangach Gogledd Cymru, bydd angen i'r cyngor fynnu ei flaenoriaethau'n hyderus o fewn cynlluniau rhanbarthol. Bydd cryfhau'r partneriaethau hyn yn helpu i sicrhau bod anghenion Ynys Môn yn cael eu cydnabod, cynnal momentwm y tu ôl i'w huchelgeisiau economaidd, ac atgyfnerthu rôl y cyngor fel arweinydd dylanwadol sy'n seiliedig ar le.

2.5 Gyda’i gilydd, daeth y panel i’r casgliad bod Ynys Môn mewn sefyllfa gref i adeiladu ar ei chynnydd ac ymateb yn effeithiol i’r heriau sydd o’i blaen. Mae’r cyngor yn elwa o lywodraethu cadarn, gweithlu ymgysylltiedig, partneriaethau uchel eu parch, a synnwyr clir o hunaniaeth sy’n seiliedig ar le. Fodd bynnag, mae pwysau ariannol, newid demograffig, prinder gweithlu a graddfa’r cyfleoedd economaidd sy’n dod i’r amlwg yn golygu y bydd cam nesaf taith y cyngor yn gofyn am arweinyddiaeth hyderus, moderneiddio cyflymach, a mynegiant cliriach o’i uchelgeisiau hirdymor.

2.6 Drwy weithredu’r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn, cryfhau hyder sefydliadol, datblygu cynllun moderneiddio lefel uchel, mynegi strategaeth

economaidd uchelgeisiol, mireinio monitro perfformiad, a dyfnhau cydweithio rhanbarthol, mae'r panel yn gobeithio y gall y cyngor wella ei wydnwch a chynyddu ei effaith. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliad i hyrwyddo ei gyflawniadau yn fwy hyderus, arwain adnewyddu economaidd, a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, hirdymor i drigolion a chymunedau Ynys Môn.

## 3.0 Y Panel

3.1 Comisiynwyd y cymheiriaid canlynol gan CLILC i gynnal yr asesiad. Cytunwyd ar y detholiad o gymheiriaid yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar sail addasrwydd eu sgiliau a'u profiad:

- Cadeirydd Annibynnol: Emlyn Dole (Cyn Arweinydd Cyngor: Cyngor Sir Gâr)
- Uwch Aelod y Cymheiriaid: Catrin M S Davies (Aelod Cabinet: Cyngor Sir Ceredigion)
- Uwch Swyddog y Cymheiriaid: Rob Thomas (Prif Weithredwr: Cyngor Bro Morgannwg)
  Cymar o'r Sector Cyhoeddus, Preifat neu Wirfoddol Ehangach: Sara Powys (Ymgynghorydd)

Cefnogwyd y panel gan Joseph Lewis (Uwch Swyddog Polisi: Gwella).

## 4.0 Cwmpas a Dull

4.1 Roedd gofyn i'r panel asesu i ba raddau y mae'r Cyngor:

- Yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- Yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; ac
- Yn gweithredu mesurau llywodraethu effeithiol i sicrhau'r uchod.

4.2 Nododd y Cyngor y cwestiynau canlynol i'r panel eu hystyried fel rhan o'r asesiad:

a. **Trefniadau ar gyfer cyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor – a yw'n trefniadau ni'n cynnig sicrwydd ein bod yn cyflawni Cynllun y Cyngor yn effeithlon?**

b. **A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor?**

4.3 Fel rhan o'r asesiad, cynhaliodd y panel adolygiad o ddogfennau, data, adroddiadau allanol a gwybodaeth berthnasol arall y Cyngor. Roedd y rhan honno o'r adolygiad a gynhaliwyd ar y safle'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd unigol a grwpiau ffocws gyda'r budd-ddeiliaid canlynol:

- Arweinydd y Cyngor a'r Cabinet
- Y Prif Swyddog Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth, gan gynnwys y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151
- Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion Allweddol y Cyngor
- Aelodau o'r Gwrthbleidiau
- Cynrychiolwyr Staff
- Undebau Llafur
- Y Fforwm Fusnes
- Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)
- Prif Swyddogion Gweithredol Rhanbarthol
- Cadeirydd/Is-gadeirydd: Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Cadeirydd/Is-gadeirydd: Pwyllgorau Sgriwtini

- Trigolion
- Cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned

## 5.0 Trefniadaeth Wleidyddol

5.1 Adeg Asesiad Perfformiad y Panel, dyma oedd cyfansoddiad y Cyngor:

| Enw'r Grŵp | Nifer |
|---|---|
| Plaid Cymru | 20 |
| Llafur | 3 |
| Y Grŵp Annibynnol | 4 |
| Annibynwyr Môn | 8 |
| **Cyfanswm** | **35** |

5.2 Adeg Asesiad Perfformiad y Panel, dyma oedd cyfansoddiad Bwrdd Gweithredol y Cyngor:

| Swydd | Enw | Ymlyniad Gwleidyddol |
|---|---|---|
| Arweinydd a Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd | Y Cynghorydd Gary Pritchard | Plaid Cymru |
| Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer | Y Cynghorydd Robin Wyn Williams | Plaid Cymru |
| Deilydd Portffolio Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones | Plaid Cymru |
| Deilydd Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Y Cynghorydd Nicola Roberts | Plaid Cymru |
| Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion | Y Cynghorydd Neville Evans | Plaid Cymru |
| Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd | Y Cynghorydd Ieuan Williams | Y Grŵp Annibynnol |
| Deilydd Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol | Y Cynghorydd Carwyn Elias Jones | Plaid Cymru |
| Deilydd Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol | Y Cynghorydd Alun Roberts | Plaid Cymru |
| Deilydd Portffolio Addysg a'r Gymraeg | Y Cynghorydd Dafydd Roberts | Y Grŵp Annibynnol |

5.3 Mae gan y Cyngor y Pwyllgorau Craffu canlynol;

- Pwyllgor Craffu Corfforaethol

- Pwyllgor Craffu Partneriaeth ac Adfywio

Cefnogir y rhain gan dri phanel thematig sy’n canolbwyntio ar Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adnoddau.

## 6.0 Trefniadaeth Gorfforaethol

6.1 Prif Weithredwr y Cyngor yw Dylan Williams

6.2 Mae'r Prif Weithredwr yn arwain Tîm Arweinyddiaeth sy’n cynnwys:

- Y Prif Weithredwr
- Y Dirprwy Brif Weithredwr
- Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a’r Swyddog Monitro
- Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151
- Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

6.3 Gweledigaeth y Cyngor yw “Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu”.

## 7.0 Heriau Cenedlaethol a Lleol

7.1 Mae’r Cyngor yn gweithredu o fewn amgylchedd cymhleth a newidiol, gyda phwysau cenedlaethol a lleol yn dylanwadu arno. Ar lefel genedlaethol, mae’r cyfyngiadau ariannol parhaus ar draws llywodraeth leol Cymru yn cynnig heriau sylweddol i gynaliadwyedd hirdymor. Mae’r Setliad Llywodraeth Leol yn parhau i fod yn un o benderfynyddion hanfodol sefyllfa ariannol y Cyngor, ond mae rhagolwg y sector cyfan yn cael ei nodweddu gan gyllidebau mwy tynn, mwy o alw am wasanaethau, a phwysau chwyddiannol sy’n effeithio ar gostau craidd. Mae’r ffactorau hyn yn tanlinellu’r angen am drawsnewidiad rhagweithiol a chynllunio ariannol cadarn i gynnal gwydnwch ac ansawdd gwasanaethau.

7.2 Yn lleol, mae tueddiadau demograffig yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau. Mae poblogaeth sy’n heneiddio yn cynyddu’r galw am ofal cymdeithasol i oedolion, ac mae heriau recriwtio yn effeithio gallu’r Cyngor i sicrhau a chadw aelodau staff medrus mewn swyddi allweddol. Mae amodau economaidd hefyd yn cyflwyno darlun cymysg: er bod cyfleoedd strategol fel datblygiad niwclear Wylfa a Phorthladd Rhydd Ynys Môn yn cynnig cyfleoedd am dwf, rhaid cydlynu’r cynllunio, buddsoddiad ac ymgysylltiad â phartneriaid er mwyn gwireddu eu manteision yn llawn.

7.3 Mae cludiant a chysylltedd yn parhau i fod yn themâu sy’n codi dro ar ôl tro gan y Cyngor a budd-ddeiliaid fel ei gilydd. Mae isadeiledd cyfyngedig a chyfyngiadau cysylltedd yn peryglu datblygiad economaidd sydd ar y gweill a mynediad at wasanaethau, gan atgyfnerthu pwysigrwydd cydweithrediad rhanbarthol i sicrhau buddsoddiad mewn gwelliannau cludiant.

7.4 Yn y cyd-destun hwn, rhaid i'r Cyngor gydbwyso pwysau gweithredol uniongyrchol â'r angen i roi ei hun mewn sefyllfa i gyflawni llwyddiant hirdymor. Bydd cryfhau gwydnwch sefydliadol, cyflymu moderneiddio, a manteisio ar gyfleoedd strategol yn hanfodol er mwyn lliniaru risgiau a chyflawni canlyniadau cynaliadwy ar gyfer trigolion Ynys Môn.

**8.0 Cryfderau a Meysydd Arloesi**

8.1 Nododd y panel feysydd cryfder ar draws y cyngor, gan gynnwys tystiolaeth glir o welliant a datblygiad sefydliadol yr oedd y panel yn teimlo a gyfrannodd at gadernid y sefydliad a'i allu i ymdopi â newidiadau yn y dyfodol. Gweithlu cryf ac angerddol, sy'n rhannu ymdeimlad o hunaniaeth y cyngor, ac sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i drigolion yr ynys.

8.2 Gwnaeth partneriaethau lleol cryf y cyngor argraff hefyd ar y panel, yn enwedig gyda'r sector gwirfoddol, rhywbeth y mae'r cyngor wedi'i ddangos yn ei Gynllun Llunio Lleoedd, a ddatblygwyd ar y cyd â Medrwn Môn, gan alluogi fframwaith o'r gwaelod i fyny ar gyfer nodi blaenoriaethau lleol a sirol.

**<u>Astudiaeth Achos:</u> Ymarfer sy'n Seiliedig ar Drawma**

Mae Ynys Môn wedi bod yn rhan o brosiectau a rhaglenni ystyriol o drawma a chodi ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) ers nifer o flynyddoedd. Mae'r rhain yn cynnwys Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yr Heddlu a Phartneriaid a chymryd rhan mewn prosiect peilot aml-safle yn holi am ACE mewn Meddygfeydd Teulu yn 2018, dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd ac Ynys Môn ar gyfer 2023-28 yn ymrwymo'r BGC i fod yn ystyriol o drawma a chodi ymwybyddiaeth yn y system am effeithiau ACE a thrawma ar blant a phobl ifanc, a'r cyfleoedd i atal hyn rhag digwydd, lliniaru'r risgiau a mynd i'r afael â niwed.

**Trosolwg o’r Canfyddiadau**

**9.0 Gofyniad Perfformiad: Mae’n arfer ei swyddogaethau’n effeithiol**

9.1 Daeth adolygiad y panel o'r adroddiadau rheoleiddio dros y pedair blynedd ddiwethaf, a chyfweliadau ar y safle, i'r casgliad bod tystiolaeth yn dangos bod y Cyngor yn arfer ei swyddogaethau statudol yn effeithiol. Mae’r panel wedi cyflwyno nifer o argymhellion sy’n canolbwyntio ar feysydd anstatudol, ymdrechion moderneiddio a datblygu economaidd y Cyngor yn benodol, y mae’n credu y byddant yn helpu’r Cyngor i fodloni ei amcanion corfforaethol.

9.2 Gwelodd y panel dystiolaeth glir o'r daith wella y mae'r cyngor wedi bod arni ers 2018, a theimlai y dylai'r cyngor fod yn fwy hyderus wrth amlygu ei waith arfer da, gan atgyfnerthu ei werth corfforaethol o hyrwyddo'r cyngor a'r ynys. Cydnabu'r panel fod profiad hanesyddol y cyngor o gael ei roi o dan Fwrdd Adfer gan Weinidogion Cymru wedi cyfrannu'n ddealladwy at ddiwylliant sefydliadol gofalus, gyda swyddogion ac aelodau weithiau'n betrusgar i hyrwyddo eu cyflawniadau. Fodd bynnag, mae'r cynnydd a ddangoswyd trwy ganfyddiadau rheoleiddio diweddar ac adborth gan randaliad yn dangos bod y cyngor bellach mewn sefyllfa dda i gyfleu ei gryfderau yn fwy rhagweithiol a hyderus.

9.3 Roedd y panel yn ystyried bod gan y Cyngor gyfle i gyfleu naratif mwy eglur a grymus sy’n mynd i’r afael â heriau demograffig ac yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, wedi’i seilio ar fodel gweithredu ddiffiniedig ar gyfer y dyfodol. Dylai’r naratif hwn fanteisio ar gyfleoedd economaidd yr ynys, y mae’r Cyngor wedi bod yn rhan o’u datblygu, a hunaniaeth gref yr ynys, gan feithrin ymddiriedaeth, dangos atebolrwydd, a dwysau ymgysylltiad cymunedol. Drwy rannu ei gyflawniadau, ei heriau a’i uchelgeisiau at y dyfodol yn effeithiol, gall y Cyngor helpu trigolion i ddeall gwerth ei waith ac effaith ei benderfyniadau. Bydd naratif cadarn hefyd yn atgyfnerthu rôl y Cyngor fel arweinydd sy’n canolbwyntio ar yr ardal leol ac fel conglfaen ar gyfer buddsoddiad a phartneriaeth.

**Moderneiddio**

9.4 Fel y nodwyd ym mharagraff 10.4, mae’r Cyngor wedi defnyddio £10.2 miliwn o’i gronfeydd wrth gefn dros y tair blynedd diwethaf i fantoli ei gyllideb. Mae hyn yn tanlinellu’r heriau cynaliadwyedd y mae’r Cyngor, a llywodraeth leol yn fwy eang, yn eu hwynebu heb drawsnewidiad sefydliadol sylweddol. Fel y nodir hefyd yn 10.2, mae sefyllfa'r cyngor o ran ei gronfeydd wrth gefn yn parhau i fod yn iach o'i gymharu â sefyllfa'r sector ehangach. Er bod unrhyw ddibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn yn amlwg yn anghynaladwy yn y tymor canolig i'r tymor hir, mae'n cynrychioli cyfle i'r panel sy'n sensitif i amser i fuddsoddi yn y meysydd strategol a fydd yn cefnogi'r cyngor i wireddu ei fodel gweithredu targed.

9.5 Nododd y panel fod Bwrdd Rhaglen Wella a Moderneiddio’r Cyngor yn hyrwyddo amrywiaeth o fentrau cadarnhaol, sy’n arwydd o ymagwedd ragweithiol tuag at drawsnewid. Bydd datblygu ar y cynnydd hwn yn hanfodol i lunio model gweithredu ar gyfer y dyfodol sy’n cefnogi gwydnwch, cynaliadwyedd ariannol, a chyflawni amcanion strategol.

9.6 Mae gan y Cyngor gyfle i gryfhau'r rhaglen hon drwy gysylltu ei fodel gweithredu ar gyfer y dyfodol yn bendant â'i weledigaeth hirdymor. Drwy fapio uchelgeisiau Trawsnewid a moderneiddio'r cyngor yn erbyn ffyrdd o weithio yn y dyfodol, gall sicrhau ei fod yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

9.7 Dylid cydweddu'r cynllun moderneiddio hwn yn agos â Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor sydd wrthi'n datblygu, sy'n pennu themâu a blaenoriaethau allweddol ar gyfer newid. Dylai'r cynllun fod yn un lefel uchel a thrawsbynciol, a dylai model gweithredu'r Cyngor ar gyfer y dyfodol fod yn greiddiol iddo.

9.8 Er bod y Cyngor wrthi'n recriwtio ar gyfer swyddi strategol allweddol adeg asesiad y panel, dylai barhau i sicrhau fod ganddo'r gallu corfforaethol i fanteisio ar gyfleoedd newydd a datblygu ei raglen drawsnewid ar frys ac yn hyderus.

**Yr Economi**

9.9 Bu i'r panel ganfod Cyngor â synnwyr pendant o'i heriau, gyda'r rhai a oedd yn ymwneud â'r gyllideb a demograffeg yn dod fwyaf i'r amlwg. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio'n gyson yr ymdeimlad bod y Cyngor wedi cyrraedd 'croesffordd' o ran demograffeg a'r economi, a bod hyn i'w deimlo ar hyd a lled yr ynys, ond yn fwyaf dwys yn y gogledd. Bu i'r panel gydnabod bod Uwch Arweinwyr y Cyngor, yn gorfforaethol ac yn wleidyddol, yn cydnabod yn glir y byddai datblygiad economaidd y sir yn hanfodol ar gyfer llunio ei dyfodol a gwireddu gweledigaeth ac amcanion strategol y Cyngor.

9.10 Bu i'r panel gydnabod y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud ar yr economi drwy ei gynlluniau a'i raglenni strategol allweddol. Fodd bynnag, teimlai fod gan y cyngor gyfle nawr i ddefnyddio datblygiadau cenedlaethol arwyddocaol diweddar i gryfhau ei weledigaeth economaidd a sicrhau bod 'edau aur' economaidd cliriach yn rhedeg drwy ei gynlluniau strategol ac yn llywio'r dangosyddion perfformiad allweddol o fewn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol.

9.11 Er enghraifft, mae Strategaeth Rheoli Cyrchfan y Cyngor yn mynegi gweledigaeth gadarn am "economi ymwelwyr sy'n empathetig i ymdeimlad o le'r ynys." Er bod yr uchelgais yn glir, nid oedd y panel yn siŵr a oedd y Cyngor i gyd yn rhannu'r weledigaeth hon, a nododd fod diffyg Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol o fewn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn gysylltiedig â chyflawniad y Cynllun Rheoli Cyrchfan.

9.12 Fel mae'r cyngor yn cydnabod, mae Llywodraeth Leol yn gweithredu fel cynullwyr lle, gan lunio'r amodau ar gyfer twf trwy eu swyddogaethau cynllunio a chefnogi datblygiad seilwaith trafnidiaeth, ynni a digidol sy'n galluogi busnesau i ffynnu. Fodd bynnag, fel sydd hefyd yn amlwg, mae gallu Cynghorau i yrru twf cynhwysol yn cael ei lunio gan ffactorau systemig rhyngddibynnol sydd allan o reolaeth unrhyw gorff sengl, ac mae Cynghorau'n gweithredu mewn amgylcheddau deinamig a phenodol i'r cyd-destun, gan gydbwyso blaenoriaethau lleol â strategaethau rhanbarthol, cyfyngiadau adnoddau, a disgwyliadau Llywodraethau Cymru a'r DU.

9.13 Bydd cydnabod y dylanwadau ehangach hyn yn cefnogi'r cyngor i sicrhau bod ei ddangosyddion perfformiad allweddol nid yn unig yn adlewyrchu blaenoriaethau sefydliadol mewnol ond hefyd yn gosod y cyngor mewn sefyllfa dda i ymateb i gyfleoedd a chyfyngiadau allanol. Trwy alinio mesurau perfformiad â'r amodau ehangach sy'n galluogi twf lleol, megis cydweithio rhanbarthol effeithiol, trefniadau ariannu symlach ac arweinyddiaeth gref sy'n seiliedig ar le, gall y cyngor atgyfnerthu ei naratif strategol a dangos yn well sut mae ei Gerdyn Sgôr Corfforaethol yn cyfrannu at wydnwch economaidd hirdymor a thwf cynhwysol ar gyfer yr ynys.

**9.14 Argymhellion**

| | |
|---|---|
| 1 | Dylai'r Cyngor chwilio am gyfleoedd i atgyfnerthu a datblygu ei rôl fel arweinydd sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol ymhellach, gan hyrwyddo a chefnogi ei weledigaeth hirdymor ar gyfer yr ynys drwy geisio cryfhau ei ddull o gyfathrebu ac ymgysylltu, gan ganolbwyntio'n benodol ar hyrwyddo ei waith da. |
| 2 | Dylai'r Cyngor ddatblygu cynllun moderneiddio clir a chydlynol sy'n pennu ei themâu a'i flaenoriaethau allweddol ar gyfer newid. Dylai'r Cynllun:<br>• Fod yn gynllun lefel uchel trawsbynciol ar draws y sefydliad, a<br>• Chefnogi a sicrhau adnoddau drwy'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ac yn ei dro,<br>• Sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor y sefydliad. |
| 3 | Er mwyn cefnogi arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol a'i amcanion strategol mewn perthynas â'r economi, dylai'r Cyngor ddatblygu strategaeth ddatblygu economaidd uchelgeisiol sy'n tynnu sylw at gryfderau, cyfleoedd, a blaenoriaethau'r ardal ar gyfer twf.<br><br>Dylai'r Cyngor adlewyrchu'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag economi'r ynys yn ei Gofrestr Risgiau Gorfforaethol. |
| 4 | Dylai'r Cyngor gynyddu ei allu a'i wydnwch i gyflawni prosiectau a thrawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau, a hynny mewn cydweddiad llwyr â Chynllun y Cyngor, Risgiau Strategol a'r rhaglen Drawsnewid, drwy wreiddio arferion da mewnol sydd eisoes yn bodoli fel y mentrau cynyddu gallu gofal cymdeithasol. |

## 10.0 Gofyniad Perfformiad: Y graddau y mae'r Cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon

10.1 Ar y cyfan, daeth y panel i'r casgliad bod y Cyngor yn rheoli  ei adnoddau economaidd yn effeithiol er gwaethaf yr heriau sylweddol sy'n gyffredin i bob Cyngor yng Nghymru. Er bod mesurau llywodraethu a dealltwriaeth o'r sefyllfa tymor canolig yn gadarn, mae yna berygl y bydd diffyg fframwaith cytûn ar gyfer y tymor hirach yn

tanseilio gwydnwch y Cyngor yn y dyfodol, a dylai brysuro gyda'i ymdrechion yn y maes hwn.

10.2 Bu i Gyngor Sir Ynys Môn gychwyn 2025/26 mewn sefyllfa ariannol eithaf cadarn, ond un sy'n tynhau. Balansau cyffredinol y Cyngor ar ddechrau 2025/26 oedd £18.166 miliwn, sydd gyfwerth â thua 9.77% o gyllideb net y Cyngor.

10.3 Nododd y panel fod y Cyngor wedi dod â'r flwyddyn ariannol i ben gyda thanwariant o £3.873 miliwn, sy'n cryfhau'r cronfeydd wrth gefn ymhellach.

10.4 Fodd bynnag, nododd y panel hefyd fod y Cyngor wedi defnyddio £10.7 miliwn o'i gronfeydd wrth gefn dros y tair blynedd diwethaf i fantoli cyllidebau, sy'n pwysleisio her y Cyngor o ran cynaliadwyedd a'r angen am strategaeth gynhwysfawr i drawsnewid gwasanaethau.

10.5 Ar gyfer 2025/26, pennodd y Cyngor gyllideb refeniw net o £195.443 miliwn, a ariannwyd gan £135.881 miliwn o Gyllid Allanol Cyfun, £57.102 miliwn o Dreth y Cyngor (gan gynnwys y premiwm) a gan ddefnyddio £2.460 miliwn o Gronfeydd wrth Gefn Cyffredinol.

10.6. Mae monitro'r gyllideb ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill i Fehefin) 2025/26 yn awgrymu y rhagwelir tanwariant o £1.551 miliwn (0.79%), sy'n adlewyrchu cryfder parhaus yn y cyllidebau corfforaethol yn sgil mwy o enillion ar fuddsoddiadau a chostau benthyca is.

10.7 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn rhagweld pwysau pellach o £7.3 miliwn yn 2026/27 a £1.3 miliwn yn 2027/28, a thybio twf Cyllid Allanol Cyfun o 2% a chynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor, yn y ddwy flynedd. Awgryma hyn i'r panel fod parhau i ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn neu godiadau treth uwch na chwyddiant yn annhebygol o fod yn gynaliadwy heb drawsnewid neu ail-ddylunio gwasanaethau.

**Staff**

10.8 Nododd y panel gydnabyddiaeth gadarn a chyson ymysg Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Chabinet y Cyngor o rôl hanfodol y staff yn y gwaith o alluogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol.

10.9 Bu i'r panel gydnabod bod y Cyngor yn wynebu nifer o'r un heriau recriwtio â gweddill y sector. Nododd y panel hefyd bod y Cyngor yn wynebu heriau ychwanegol oherwydd ei leoliad daearyddol, her ddemograffig gyfarwydd iawn yn sgil pobl ifanc yr ynys yn allfudo, a'r angen am ofynion iaith Gymraeg mewn swyddi rheng flaen a swyddi strategol allweddol.

10.10 Nododd y panel bod Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor yn amlwg yn cydnabod yr heriau recriwtio hyn, a gwnaeth sylw o'r gwaith cadarnhaol y mae'r Cyngor yn rhan ohono i sefydlu llwybrau hyfforddiant a datblygiad pendant tuag at swyddi allweddol, drwy fentrau fel Dyfodol Môn.

10.11 Nododd y panel fod gan y Cyngor brosesau ar waith i ymgysylltu ei staff, gan gynnwys arolygon staff, cyfarfodydd adrannol a grwpiau trawsadrannol, fel Fforwm Môn, sy'n hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth ac arferion da ac yn galluogi unigolion i godi pryderon a chynnig atebion.

10.12 Bu i'r panel gyfarfod ag amryw o aelodau staff drwy grwpiau ffocws a drefnwyd gan y Cyngor. Ar y cyfan, teimlai'r panel fod gan staff y Cyngor ymdeimlad amlwg o falchder ynglŷn â gweithio i'r Cyngor, a dealltwriaeth o brif ddiben y Cyngor.

10.13 Awgrymodd yr aelodau staff fod y Cyngor yn elwa ar Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) eithaf amlwg ac agored. Ond roeddent hefyd yn teimlo y gallai'r sefydliad elwa ar ddulliau cyfathrebu mewnol mwy rheolaidd, fel newyddlenni, gwybodaeth ar y fewnrwyd, a nodiadau briffio wedi'u targedu. Byddai'r rhain oll yn darparu llif gwybodaeth mwy cyson ac yn lleihau ansicrwydd.

10.14 Roedd adborth gan y staff hefyd yn nodi bod heriau recriwtio di-baid ar lefel strategol yn amlwg wrth ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Roedd y staff yn cydnabod bod hyn yn risg bellach i gynaliadwyedd gwasanaethau'r Cyngor, ac yn faes o ddiffyg cydweddiad rhwng gallu sefydliadol ac uchelgeisiau strategol y Cyngor.

**Undebau Llafur**

10.15 Bu i'r panel hefyd gyfarfod â chynrychiolwyr yr Undebau Llafur a gydnabyddir gan y Cyngor. Ar y cyfan, teimlai'r cynrychiolwyr y gallai'r Cyngor fod yn gwneud mwy i fodloni egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol, a mwy i ymgysylltu ag Undebau Llafur ar faterion polisi, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion, y gweithlu, ac ymgysylltiad mwy ystyrlon ac amserol o ran y gyllideb.

| | |
|---|---|
| 5 | Dylai'r Cyngor gryfhau ei ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol drwy ddatblygu ar feysydd o arfer dda. |

**Trigolion**

10.16 Yn ystod ei ymweliad â'r safle, ymgysylltodd y panel â'r trigolion drwy grŵp ffocws a drefnwyd gan y Cyngor. Amlygodd y trigolion newid demograffig fel her ddifrifol, yn enwedig yr angen i gadw pobl ifanc ar yr ynys. Gwelwyd hyn yn hanfodol ar gyfer cynnal gwasanaethau lleol pwysig (fel clybiau ieuenctid), yr economi lleol a meithrin gweithlu'r dyfodol. Nododd y trigolion fod cyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig a chysylltedd cludiant yn dylanwadu ar allfudo.

10.17 Pwysleisiodd y trigolion bwysigrwydd y Gymraeg a chyfleoedd dysgu, gan gydnabod rôl y Cyngor o ran hyrwyddo'r defnydd o'r iaith a'i gysylltiad â chyfranogiad economaidd a rhwystrau i gyflogaeth. Nododd y panel ymdeimlad cryf o falchder cymunedol a pherthyn, ac roedd yn ystyried hyn yn ased sylweddol i'r Cyngor.

10.18 Mynegodd y trigolion gydnabyddiaeth amlwg o waith y Cyngor a'i bartneriaethau, yn enwedig gyda'r trydydd sector. Fodd bynnag, bu iddynt awgrymu y gellid cryfhau'r dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu drwy fynd ati i dargedu'n benodol a bod yn fwy rhagweithiol. Er y cydnabuwyd fod porth ymgynghori ar-lein y Cyngor yn fuddiol, teimlai'r trigolion y byddai dulliau ychwanegol – fel ymgysylltiad wyneb yn wyneb a mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol – yn ei wneud yn fwy cynhwysol ac effeithiol, yn enwedig wrth geisio cyrraedd cynulleidfaoedd iau.

10.19 Cododd y trigolion bryderon hefyd am natur fyr dymor y penderfyniadau, gan nodi y byddai rhoi mwy o bwyslais ar gynllunio hirdymor a chynaliadwyedd yn helpu'r Cyngor i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol yn fwy effeithiol.

**Y Fforwm Fusnes**

10.20 Cafodd y panel gyfle i gwrdd â busnesau lleol mewn grŵp ffocws a drefnwyd gan y Cyngor. Dylid nodi bod y panel wedi cwrdd â'r Fforwm Fusnes cyn i'r newyddion am agor safle SMR yn Wylfa gael ei gyhoeddi. Daeth y panel i'r casgliad bod y cydweddiad cadarn rhwng blaenoriaethau'r Cyngor a'r gymuned fusnes, ynghyd â hygyrchedd y Cyngor a'r mentrau economaidd sydd ar y gweill, yn darparu sylfaen cadarn ar gyfer rhagor o waith partneriaeth i gyflawni twf cynaliadwy ar gyfer yr ynys.

10.21 Nododd y panel fod y gymuned fusnes yn ailadrodd nifer o'r heriau a nodwyd gan y Cyngor a'i drigolion, gan atgyfnerthu cyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau'r ynys. Tynnodd y busnesau sylw at bryderon ynglŷn â phwysau economaidd, recriwtio a chadw, a phwysigrwydd gwella cysylltedd cludiant er mwyn cefnogi masnach a buddsoddiad. Bu iddynt hefyd bwysleisio'r angen am weithlu medrus sy'n cyd-fynd â'r sectorau sy'n dod i'r amlwg, gan gydnabod bod datblygu sgiliau a chadw pobl ifanc yn hanfodol ar gyfer cynnal mentrau lleol ac ysgogi twf economaidd hirdymor.

10.22 Nododd Cynrychiolwyr y Fforwm a gyfarfu â'r panel hefyd y gallai'r Cyngor wneud mwy i ddiffinio a chyfleu gweledigaeth economaidd glir ar gyfer yr ynys. Bu iddynt bwysleisio bod gweledigaeth a gaiff ei chyfleu'n dda yn hanfodol ar gyfer magu hyder buddsoddwyr, busnesau a chymunedau. Awgrymodd y cynrychiolwyr hefyd fod ymagwedd y Cyngor tuag at feysydd allweddol o'r economi lleol – yn enwedig ei gynnig rheoli cyrchfan – yn ymddangos yn dameidiog ar brydiau. Bu iddynt bwysleisio bod angen datrys hyn ar fyrder er mwyn sicrhau y gall yr ynys fanteisio ar ei photensial o ran twristiaeth a rhoi ei hun mewn sefyllfa gystadleuol o fewn economi'r rhanbarth.

10.23 Cydnabu cynrychiolwyr y Fforwm Fusnes fod yr ynys wedi wynebu cyfnod economaidd heriol, gan golli cyflogwyr pwysig fel Alwminiwm Môn a'r swyddi eilaidd yr oedd y diwydiannau hyn yn eu cefnogi. Fodd bynnag, bu iddynt hefyd gydnabod y gallai mentrau newydd diweddar y mae'r Cyngor yn eu cefnogi – fel rhaglen Ynni Môn – amrywio'r economi, denu buddsoddiad newydd a gosod sylfeini twf y dyfodol. Roedd y panel yn ystyried y cydweddiad hwn rhwng y Cyngor a'r gymuned fusnes yn blatfform cadarnhaol i weithredu ar y cyd i ysgogi adfywiad a gwydnwch economaidd.

10.24 Tynnodd y cynrychiolwyr busnes sylw at y ffaith fod y Cyngor yn gymharol agored i'r gymuned fusnes, gan bwysleisio'r ymgysylltiad ffurfiol rheolaidd gydag arweinyddiaeth y Cyngor, gan gynnwys y Prif weithredwr. Teimlant fod parodrwydd y Cyngor i ymgysylltu'n uniongyrchol â busnesau'n creu cyfleoedd i gyd-ddylunio atebion i heriau a rennir, fel datblygu'r gweithlu, buddsoddi mewn isadeiledd, ac amrywiaeth o ran sectorau.

**11.0 Gofyniad Perfformiad: Mae mesurau llywodraethu effeithiol ar waith**

11.1 Ar y cyfan, daeth y panel i'r casgliad fod gan y Cyngor fesurau llywodraethu effeithiol ar waith, gan nodi rhai meysydd i'w gwella o fewn swyddogaeth Graffu'r Cyngor.

11.2 Mae gan y Cyngor gyfansoddiad a chynllun dirprwyo sy'n amlinellu'n glir beth yw'r cyfrifoldebau o ran gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyngor hefyd yn gwerthuso ei berfformiad ei hun yn rheolaidd yn erbyn fframwaith hunanwerthuso.

11.3 Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun y Cyngor sydd wedi'i lywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cefnogi blaenoriaethau lles lleol. Arsylwodd y panel bod y staff yn gyfarwydd iawn â'r cynllun yn fewnol a'i fod yn cael ei gydnabod yn allanol, sy'n adlewyrchu cryfder brand 'Ynys Môn' yr ynys.

11.4 Teimlai'r panel fod safle arweinyddiaeth y cyngor ar yr ynys yn ei alluogi i fanteisio ar weledigaeth ar gyfer moderneiddio a datblygiad economaidd, y gellir ei rhannu ar draws yr ynys, gan gynnwys ei thrigolion, busnesau a phartneriaid yn y trydydd sector.

11.5 Nododd y panel fod mesurau llywodraethu cadarn ledled y Cyngor yn cael eu hatgyfnerthu gan berthnasoedd cydweithredol rhwng Aelodau a Swyddogion, a bod ymddiriedaeth, proffesiynoldeb, a chyd-ymrwymiad i gyflawni dros drigolion Ynys Môn yn rhai o nodweddion y perthnasoedd hyn.

11.6 Nododd y panel fod yr Aelodau Etholedig yn gyffredinol yn cydnabod bod Tîm Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor yn cael eu parchu am eu proffesiynoldeb, eu hymatebolrwydd, a'u cefnogaeth ddiduedd. Pwysleisiodd yr Aelodau fod y Tîm yn rhan hanfodol o alluogi llywodraethu effeithiol drwy sicrhau bod prosesau democrataidd yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth a bod y Cynghorwyr yn cael cyngor ac arweiniad cywir yn brydlon.


11.7 Bu i'r panel gydnabod bod trefniadau craffu'r Cyngor, er eu bod yn brin, wedi'u seilio ar strwythur clir ac ymrwymiad cadarn i lywodraethu effeithiol gan Swyddogion ac Aelodau Etholedig.

11.8 Mae'r Cyngor yn gweithredu gyda dau Bwyllgor Craffu, a gefnogir gan dri phanel thematig sy'n canolbwyntio ar Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, ac Adnoddau. Er bod y strwythur prin hwn yn ddealladwy o ystyried maint cyffredinol y Cyngor, teimlai'r panel y gallai arwain at risgiau llywodraethu i'r sefydliad gan ei fod yn cyfyngu ar y gallu i ddarparu mesurau craffu cadarn a phrydlon.

11.9 Er mwyn cryfhau llywodraethu a chynyddu gwerth craffu i'r eithaf, dylai'r cyngor flaenoriaethu ei gynnig hyfforddiant a datblygiad i aelodau pwyllgorau, yn enwedig cadeiryddion ac is-gadeiryddion, fel bod ganddynt y sgiliau, yr hyder a'r adnoddau i gyflawni craffu cynhwysfawr, cyson ac effeithiol.

11.10 Daeth y panel o hyd i gyfle i gryfhau rôl y prosesau craffu wrth lywio a chael trosolwg o uchelgeisiau economaidd y Cyngor. Drwy gryfhau'r cysylltiad rhwng craffu a blaenoriaethau strategol y Cyngor, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â datblygu economaidd, gall y Cyngor sicrhau bod materion hanfodol fel cludiant, isadeiledd, rheoli cyrchfan, a sgiliau yn cael eu herio mewn modd cadarn a thrawsbynciol.

11.11 Dylai'r Cyngor ystyried sefydlu Panel Economi pwrpasol a allai gynnig platfform wedi'i strwythuro ar gyfer y gwaith hwn, gan alluogi'r swyddogaeth graffu i wneud ei gwaith penodol o brofi tybiaethau, monitro cynnydd, ac ymgysylltu budd-ddeiliaid allanol.




11.12 Bu i'r panel hefyd ystyried trefniadau Rheoli Perfformiad lefel uchel y Cyngor, gan ganolbwyntio ar y rhai a oedd yn ymwneud â chyflawni ei gynllun corfforaethol ac wedi'u cynnwys yn ei Gerdyn Sgorio Corfforaethol.

11.13 Nododd y panel fod y dull Cerdyn Sgorio Corfforaethol a ddefnyddiwyd gan y Cyngor yn creu fframwaith tryloyw ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn amcanion strategol y Cyngor y mae Swyddogion a Chynghorwyr fel ei gilydd yn ei rannu a'i ddeall.

11.14 Mae'r fframwaith hwn yn sicrhau bod ymdrechion sefydliadol yn canolbwyntio ar y camau gweithredu sy'n cael yr effaith fwyaf, gan wella'r cydweddiad rhwng cyflawniad o ddydd i ddydd a blaenoriaethau hirdymor. Mae'r dull hwn yn gwella atebolrwydd drwy alluogi Aelodau, Swyddogion a budd-ddeiliaid i fonitro perfformiad yn gyson, gan gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ar yr un pryd.

11.15 Daeth y panel i'r casgliad bod y sgôr gerdyn Corfforaethol yn darparu fframwaith clir a hygyrch ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor. Gan adeiladu ar y sylfaen gref hon, mae gan y cyngor gyfle bellach i fabwysiadu dull mwy strategol a symlach drwy flaenoriaethu'r dangosyddion perfformiad allweddol sydd â'r effaith fwyaf ar gyflawni ei amcanion strategol. Nid yw pob dangosydd yn cyfleu 'r un pwysau, a byddai canolbwyntio ar set gryno o fesurau effaith uchel yn gwella eglurder adrodd, yn canolbwyntio ymdrech sefydliadol lle mae'n ychwanegu'r gwerth mwyaf, ac yn cryfhau'r llinell weledol rhwng gwybodaeth am berfformiad a gwneud penderfyniadau. Byddai'r mireinio hwn yn cefnogi dull mwy ffocws a chanlyniad-yrru o fonitro cynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor.

**11.16 Argymhellion**

| | |
|---|---|
| 6 | Dylai'r Cyngor geisio cryfhau ei brosesau craffu drwy:<br>• wella ei raglen datblygu Aelodau |

| | |
|---|---|
| | • ystyried o ddifrif yr angen i sefydlu Panel ar gyfer yr economi.<br><br>• Atgyfnerthu datblygiad y rhaglen waith, gan sicrhau ei bod yn cydweddu'n strategol ac yn ymateb i flaenoriaethau sefydliadol, a'i bod yn cael ei chyfleu'n effeithiol ar draws y Cyngor. |
| 7 | Dylai'r Cyngor fireinio ei ddull o Fonitro Perfformiad, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu â blaenoriaeth uchel sy'n cael yr effaith fwyaf yng nghyd-destun Cynllun y Cyngor, gan sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol. |

**12.0 Trefniadau ar gyfer cyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor – a yw'n trefniadau ni'n cynnig sicrwydd ein bod yn cyflawni Cynllun y Cyngor yn effeithlon?**

12.1 Daeth y panel i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i gynnig sicrwydd ei fod yn cyflawni ei gynllun corfforaethol. Fodd bynnag, i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach, mae'r panel wedi pennu cyfres o argymhellion sydd wedi'u dylunio i wella mesurau llywodraethu a gallu strategol. Mae'r rhain yn cynnwys gwella perfformiad craffu (Argymhelliad 6), datblygu strategaeth ddatblygu economaidd uchelgeisiol (Argymhelliad 3), sefydlu Cynllun Moderneiddio clir a chydlynol (Argymhelliad 4), cynyddu gallu sefydliadol (Argymhelliad 5), a mireinio prosesau monitro perfformiad i sicrhau cydweddiad â blaenoriaethau corfforaethol (Argymhelliad 7).

**13.0 A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni amcanion strategol Cynllun y Cyngor?**

13.1 Wrth ystyried effeithiolrwydd ymgysylltiad y Cyngor gyda'i gymunedau a'i bartneriaid, nododd y panel feysydd o arfer da yn enwedig ar lefel leol, ond bu iddo nodi cyfleoedd i ehangu ei ddylanwad hefyd. Mae angen iddo ymgysylltu'n fwy cadarn ar lefel ranbarthol i gyflawni blaenoriaethau lleol ar gyfer trigolion Ynys Môn.

13.2 Drwy ei gyfweliadau, daeth y panel ar draws Cyngor sy'n cael ei werthfawrogi a'i barchu gan ei bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, sy'n cydnabod rôl bwysig y Cyngor o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

13.3 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned, sy'n cynnig platfform wedi'i strwythuro ar gyfer trafodaethau gyda chynghorau tref a chymuned. Bu i adborth gan gynrychiolwyr ac Un Llais Cymru gadarnhau bod y fforymau hyn yn gweithio'n dda a'u bod yn fodel o arfer dda ranbarthol y gallai'r Cyngor ei ddosbarthu ar draws y sector.

13.4 Nododd y panel berthynas waith arbennig o gadarn gyda'r sector gwirfoddol, y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn bartner hanfodol i ddatblygu ei raglen atal. Tynnwyd sylw at ehangder yr ymgysylltiad a ddangoswyd drwy'r Cynllun Creu Lleoedd fel enghraifft o arfer dda.

13.5 Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, pwysleisiodd partneriaid o'r sector gwirfoddol y gallai'r Cyngor gryfhau ei ddull o gyfathrebu drwy ddefnyddio ymgysylltiad mwy amserol a rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys gwella cyfranogiad mewn ymgynghoriadau ffurfiol ac yn fforymau'r Cyngor, yn enwedig ar faterion sy'n bwysig i'r trydydd sector fel y gyllideb flynyddol a dyrannu grantiau'r Cyngor.

13.6 Bu i'r partneriaid gydnabod bod porth ymgynghori ar-lein y Cyngor yn ateb diben, ond roeddent yn argymell cryfhau'r ymgysylltiad drwy ddulliau cyflenwol fel mwy o ryngweithio wyneb yn wyneb wedi'i dargedu a mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

13.7 Roedd y panel yn rhannu barn y Cyngor na ellir cyflawni prosiectau isadeiledd hanfodol, fel gwella cysylltiadau cludiant a mynd i'r afael â chyfyngiadau cysylltedd, ar eu pen eu hunain. Clywodd y panel dro ar ôl tro fod gwell isadeiledd yn flaenoriaeth a rennir ymysg Swyddogion, Aelodau, trigolion a phartneriaid. Mae cydweithrediad rhanbarthol yn rhoi llais cryfach a chyfunol i'r Cyngor ddylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi a sicrhau cyllid gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Dylai'r cyngor gynnal ei fomentwm mewn gweithio gydag awdurdodau cyfagos a chyrff rhanbarthol, fel Uchelgais Gogledd Cymru (y Cyd-bwyllgor Corfforaethol), gall y Cyngor sefydlu Ynys Môn yn rhan annatod o strategaeth twf economaidd Gogledd Cymru, gan sicrhau bod prosiectau fel gwelliannau i'r pontydd yn cael eu blaenoriaethu o fewn cynlluniau cludiant a chysylltedd ehangach.

13.8 Fel y mae arweinyddiaeth y Cyngor yn ymwybodol iawn, mae'r Cyngor wedi cyrraedd croesffordd ddemograffig ac economaidd, gyda datblygiadau cenedlaethol arwyddocaol fel gorsaf bŵer niwclear SMR Wylfa a Phorthladd Rhydd Ynys Môn yn creu cyfleoedd amlwg ar gyfer twf. Fodd bynnag, dim ond gyda chefnogaeth isadeiledd cadarn y gellir gwireddu'r cyfleoedd hyn yn llawn. Mae cydweithrediad rhanbarthol yn galluogi'r Cyngor i gydweddu ei uchelgeisiau o ran isadeiledd â blaenoriaethau economaidd ar hyd a lled Gogledd Cymru, gan greu achos cymhellol dros fuddsoddiad sy'n cysylltu gwelliannau i gludiant â chreu swyddi, mewnfuddsoddi, a chynaliadwyedd hirdymor.

13.9 Mae gweithio'n rhanbarthol yn gwella gallu'r Cyngor i oresgyn cyfyngiadau a heriau o ran gallu. Mae prosiectau isadeiledd ar raddfa fawr yn gofyn am arbenigedd technegol, adnoddau ariannol, a dylanwad gwleidyddol sylweddol, sef elfennau sy'n cynyddu drwy bartneriaethau rhanbarthol. Drwy wreiddio dulliau cydweithredol sy'n amlwg mewn arferion da presennol, gall y Cyngor ehangu ei ddylanwad y tu hwnt i ffiniau lleol, a sicrhau bod anghenion yr ynys yn cael eu hadlewyrchu mewn strategaethau cludiant a cheisiadau am gyllid rhanbarthol.

| | |
|---|---|
| 8 | Dylai'r Cyngor geisio gwreiddio'r arferion da sy'n amlwg ar draws amrywiaeth o bartneriaethau sydd ar waith ar hyn o bryd drwy:<br><br>• Barhau i arwain y ffordd mewn partneriaethau rhanbarthol, gan ysgogi cydweithrediad a sicrhau bod gan Ynys Môn lais cryf a dylanwadol ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt. |

| | |
|---|---|
| | • Atgynhyrchu’r gwaith partneriaeth cadarn sy’n amlwg o fewn y trydydd sector a gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod y dulliau cydweithredol hyn yn cael eu hehangu i grwpiau a sefydliadau ar lefel gymunedol. |

**14.0 Cydnabyddiaeth**

14.1 Hoffai'r panel a CLILC ddiolch i'r Cyngor, ei Aelodau a'i Swyddogion am y gefnogaeth wrth gydlynu ceisiadau am ddogfennau, ymatebion i ymholiadau, trefnu cyfarfodydd a gweithdai a darparu cefnogaeth ymatebol ar y safle.

14.2 Hoffai’r Panel hefyd ddiolch i’r sefydliadau, y partneriaid a’r rhai a gyfwelwyd y cawsant gwrdd â nhw tra roeddent ar y safle.

**Atodiad 2**

## Asesiad Perfformiad Panel - Adroddiad Terfynol ac Ymateb y Cyngor

### 1. Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2025, cymerodd y Cyngor ran mewn Asesiad Perfformiad Panel (PPA) yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Wedi'i hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), roedd yr asesiad yn gwerthuso i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau, defnyddio ei adnoddau a llywodraethu ei hun yn effeithiol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ymateb arfaethedig y Cyngor i'w Asesiad Perfformiad cyntaf gan Banel.

Aeth y Cyngor ati'n rhagweithiol i sicrhau bod yr asesiad yn canolbwyntio ar y meysydd isod:

- **Ein trefniadau ar gyfer cyflawni'r amcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor - ydi'r trefniadau a roddwyd ar waith yn darparu sicrwydd bod Cynllun y Cyngor yn cael ei gyflawni'n effeithlon?**
- **Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda chymunedau a phartneriaid i gyflawni'r amcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor?**

Mae'r Asesiad yn darparu sicrwydd allanol, lefel uchel, bod Ynys Môn yn perfformio'n dda, ar adeg pan fo'r hinsawdd economaidd yn heriol, a daeth y Panel i'r casgliad bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau yn unol â'r dyletswyddau perfformiad.

### 2. Prif Ganfyddiadau

At ei gilydd, ar adeg pan fo'r hinsawdd economaidd yn heriol, mae trefniadau llywodraethiant y Cyngor yn gadarn, mae perthnasau adeiladol yn bodoli rhwng aelodau a swyddogion, ac mae trywydd gwelliant clir ers 2018.

Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i hyrwyddo'i waith da yn ogystal ag egluro'i rôl fel arweinydd seiliedig ar leoedd dibynadwy ar gyfer yr ynys.

Daeth i'r amlwg bod datblygu economaidd yn flaenoriaeth allweddol, ynghyd â datblygu naratif pendant a chynllun strategol uchelgeisiol ar gyfer y maes hwn. Nododd y Panel bod cyfleoedd sylweddol yn bodoli'n genedlaethol megis gorsaf niwclear newydd yn Wylfa ar gyfer Adweithyddion Modiwlar Bach, Porthladd Rhydd Ynys Môn a'r Ganolfan Data AI arfaethedig.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu rhagor o bwysau ariannol a heriau parhaus o ran y gweithlu. Mae'r Panel yn argymell datblygu cynllun strategol lefel uchel, trawsbynciol ar gyfer moderneiddio, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Bydd hyn yn cryfhau gwydnwch a galluogi'r Cyngor i addasu i gyfyngiadau ariannol a manteisio ar gyfleoedd i sicrhau twf cynaliadwy.

Daeth y Panel i'r casgliad bod Ynys Môn mewn sefyllfa gadarn i adeiladu ar ei gynnydd ac ymateb yn effeithiol i'r heriau sydd i ddod. Mae'r Cyngor yn elwa o lywodraethiant cadarn, gweithlu brwdfrydig, partneriaethau uchel eu parch a synnwyr clir o hunaniaeth sy'n seiliedig ar leoedd.

## 3. Y Camau Nesaf

Mae'r ymateb a chynllun gweithredu drafft wedi'i nodi yn adran 4.

Ar ol cael eu cymeradwyo, ac yn unol â'r canllawiau ar gyfer cynnal PPA, bydd y dogfennau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor er mwyn sicrhau tryloywder ac ymgysylltiad cyhoeddus.

Bydd copi o ymateb a chynllun gweithredu y Cyngor yn cael ei anfon yn ffurfiol at aelodau'r Panel, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Gweinidogion Cymru.

Bydd y camau gweithredu sydd wedi'u nodi mewn ymateb i'r argymhellion yn cael eu hymgorffori a'u monitro drwy'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a Chynlluniau Cyflenwi Gwasanaeth.

## 4. Cynllun Gweithredu

| Cyf | Argymhelliad y Panel | Ymateb y Cyngor (Cytuno / Anghytuno) | Camau Gweithredu Arfaethedig | Perchennog y Weithred | Swyddog/ion Cefnogi | Dyddiad Cwblhau Targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Dylai'r Cyngor geisio dod o hyd i gyfleoedd i **atgyfnerthu a datblygu ei rôl fel arweinydd sy'n seiliedig ar leoedd** , er mwyn hybu a hyrwyddo ei weledigaeth ar gyfer yr ynys ymhellach drwy weithio tuag at wella ei ddull cyfathrebu ac ymgysylltu, gan ganolbwyntio'n benodol ar hyrwyddo ei waith da. | Cytuno | Byddwn yn datblygu a mabwysiadu cynlluniau creu lleoedd ar gyfer y pum tref ar yr ynys.<br><br>Sefydlu a chyfathrebu canllaw seiliedig ar leoedd clir a chydgysylltiedig, sy'n atgyfnerthu arweinyddiaeth a gweledigaeth hirdymor y Cyngor, cysoni mentrau creu lleoedd a sicrhau ymgysylltiad parhaus â chymunedau a phartneriaid.<br><br>Byddwn yn gwneud gwell defnydd o ddata demograffig y Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth wneud penderfyniadau, er mwyn dod yn sefydliad sy'n cael ei lywio gan ddata. | Christian Branch | Fôn Roberts, Susan O Jones, Tîm Rheoli | Rhagfyr 2026<br><br>Gorffennaf 2027<br><br>Parhaus |

Tudalen 121

| Cyf | Argymhelliad y Panel | Ymateb y Cyngor (Cytuno / Anghytuno) | Camau Gweithredu Arfaethedig | Perchennog y Weithred | Swyddog/ion Cefnogi | Dyddiad Cwblhau Targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2. | Dylai'r Cyngor ddatblygu **cynllun moderneiddio** clir a chydlynol sy'n nodi'r themâu a blaenoriaethau allweddol ar gyfer newid. Dylai'r Cynllun:<br>• Fod yn gynllun lefel uchel a thrawsbynciol ar gyfer y sefydliad cyfan, a,<br>• Dylai fod yn gydnaws â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chael ei ariannu ganddo, er mwyn,<br>• Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sefydliad. | Cytuno | Byddwn yn datblygu a chyhoeddi cynllun strategol ar gyfer Moderneiddio. Bydd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer moderneiddio a gwella a phryd a sut y byddant yn cael eu gweithredu. Bydd yn gydnaws â'n cynlluniau ariannol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n cwrdd â'r ymrwymiadau yng Nghynllun y Cyngor nawr ac yn y dyfodol.<br><br>Bydd y Cynllun Strategol newydd ar gyfer Moderneiddio yn sail i'r amcanion ac ymrwymiadau strategol yng Nghynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2028 ymlaen. | Huw Ynyr | Rhys H Hughes,<br>Tîm Rheoli | Rhagfyr 2026 |

Tudalen 122

| Cyf | Argymhelliad y Panel | Ymateb y Cyngor (Cytuno / Anghytuno) | Camau Gweithredu Arfaethedig | Perchennog y Weithred | Swyddog/ion Cefnogi | Dyddiad Cwblhau Targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | Er mwyn cefnogi arweinyddiaeth seiliedig ar leoedd ac amcan strategol y Cyngor yn gysylltiedig â'r economi, dylai'r Cyngor **ddatblygu cynllun strategol clir ac uchelgeisiol ar gyfer y maes datblygu economaidd** sy'n amlygu'r cryfderau, cyfleoedd a blaenoriaethau twf ar gyfer yr ardal.<br><br>Dylai'r Cyngor adlewyrchu'r risgiau a chyfleoedd yn gysylltiedig ag economi'r Ynys yn ei Gofrestr Risgiau Strategol. | Cytuno | Byddwn yn adolygu ein gwaelodlin a chwblhau dadansoddiad SWOT er mwyn deall ein cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'n gysylltiedig â'r heriau economaidd presennol.<br><br>Adolygu ac adlewyrchu'r risgiau a chyfleoedd economaidd allweddol yng Nghofrestr Risgiau Strategol y Cyngor.<br><br>Datblygu cynllun strategol clir ac uchelgeisiol ar gyfer y maes datblygu economaidd sy'n amlinellu sut y bydd y Cyngor yn cyfrannu at wireddu'r cyfleoedd twf. Bydd yn sail i Gynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2028 ymlaen | Christian Branch | Tîm Rheoli | Rhagfyr 2026<br><br>Rhagfyr 2026<br><br>Gorffennaf 2027 |

Tudalen 123

| Cyf | Argymhelliad y Panel | Ymateb y Cyngor (Cytuno / Anghytuno) | Camau Gweithredu Arfaethedig | Perchennog y Weithred | Swyddog/ion Cefnogi | Dyddiad Cwblhau Targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | Dylai'r Cyngor gynyddu ei gapasiti a'i wydnwch o ran cyflawni prosiectau a thrawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, a hynny'n gwbl gydnaws â Chynllun y Cyngor, Risgiau Strategol a'r agenda Moderneiddio, drwy ymgorffori arferion da sydd wedi bod yn llwyddiannus yn fewnol megis mentrau gofal cymdeithasol i gynyddu capasiti. | Cytuno | Byddwn yn adolygu ein trefniadau llywodraethu ar gyfer prosiectau strategol yn unol ag amcanion strategol a Chynllun y Cyngor.<br><br>Yn unol â'n hymrwymiad i ddatblygu Cynllun Strategol newydd ar gyfer Moderneiddio byddwn yn cydnabod a blaenoriaethu adnoddau i gyflawni prosiectau strategol allweddol. | Huw Ynyr | Rhys H Hughes, Tîm Rheoli | Gorffennaf 2026<br><br>Rhagfyr 2026 |
| 5. | Dylai'r Cyngor gryfhau ei **ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol** gan adeiladu ar ei arferion da presennol. | Cytuno | Mae cynllun cyfathrebu mewnol newydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Unwaith y bydd wedi cael ei fabwysiadu, bydd yn cael ei ddefnyddio i wella cyfathrebiadau mewnol gyda'r holl staff. | Eurig Williams | Gethin Jones, Lee Jones,<br><br>Tîm Rheoli | Rhagfyr 2026 |

Tudalen 124

| Cyf | Argymhelliad y Panel | Ymateb y Cyngor (Cytuno / Anghytuno) | Camau Gweithredu Arfaethedig | Perchennog y Weithred | Swyddog/ion Cefnogi | Dyddiad Cwblhau Targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | Dylai'r Cyngor geisio cryfhau ei ddulliau craffu drwy:<br>• wella ei raglen datblygu aelodau<br>• ystyried sefydlu Panel ar gyfer yr economi.<br><br>• Cryfhau'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen waith, gan sicrhau ei fod yn strategol ac yn gydnaws â blaenoriaethau'r sefydliad, ac yn ymateb iddynt, a'i fod yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol ledled y Cyngor. | Cytuno | Byddwn yn gwella ein rhaglen datblygu aelodau fel rhan o'n proses gynefino ar gyfer aelodau yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2027.<br><br>Byddwn yn adolygu ein trefniadau llywodraethiant ar gyfer craffu ac yn ystyried sut y gellid graffu ar faterion economaidd yn well. | Dyfan Siôn | Lynn Ball | Mawrth 2027 |
| 7. | Dylai'r Cyngor fireinio'i ddulliau Monitro Perfformiad, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu blaenoriaeth uchel a fydd yn cael yr effaith fwyaf yng nghyd-destun Cynllun y Cyngor, er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n glir yn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol. | Cytuno | Byddwn yn adolygu ein fframwaith monitro perfformiad i sicrhau bod ein prosesu'n darparu sicrwydd ein bod ni'n gwneud cynnydd tuag at gyflawni Cynllun y Cyngor.<br><br>Byddwn yn cryfhau'r cyswllt rhwng y maes rheoli risg, rheolaeth ariannol a monitro perfformiad. | Huw Ynyr | Rhys H Hughes , Gwyndaf Parry, Dyfan Siôn, Susan O Jones | Rhagfyr 2026 |

| Cyf | Argymhelliad y Panel | Ymateb y Cyngor (Cytuno / Anghytuno) | Camau Gweithredu Arfaethedig | Perchennog y Weithred | Swyddog/ion Cefnogi | Dyddiad Cwblhau Targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd y ddau gynllun strategol a ddatblygwyd mewn ymateb i argymhellion rhif dau, tri a phedwar yn sail i'n hamcanion strategol diwygiedig fel rhan o Gynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2028 ymlaen a byddant hefyd yn sail i'n dangosyddion rheoli perfformiad allweddol diwygiedig. | | | Gorffennaf 2027 |
| 8. | Dylai'r Cyngor geisio ymgorffori'r **arferion da presennol sy'n bodoli ar draws pob math o bartneriaethau** drwy:<br><br>• Barhau i arwain y ffordd o ran partneriaethau rhanbarthol, ysgogi cydweithio a sicrhau bod gan Ynys Môn lais dylanwadol ledled Gogledd Cymru a thu hwnt. | Cytuno | Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid a phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn cynnwys cryfhau'n perthynas waith â Medrwn Môn a Môn CF er mwyn cyflawni'n Cynlluniau Strategol ar | Tîm Arweinyddiaeth | Tîm Rheoli | Parhaus |

| Cyf | Argymhelliad y Panel | Ymateb y Cyngor (Cytuno / Anghytuno) | Camau Gweithredu Arfaethedig | Perchennog y Weithred | Swyddog/ion Cefnogi | Dyddiad Cwblhau Targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Efelychu'r bartneriaeth waith glir sy'n bodoli o fewn y trydydd sector a'r maes gofal cymdeithasol, gan sicrhau bod y dulliau hyn yn cael eu hymestyn i grwpiau a sefydliadau cymunedol. | | gyfer y maes Oed-Gyfeillgar ac Ystyriol o Drawma.<br><br>Byddwn yn parhau i hyrwyddo ac annog cydweithio yn unol â gwerthoedd y Cyngor ar draws y Cyngor drwy'r tîm Arweinyddiaeth a'r Tîm Rheoli. | | | |

Tudalen 127

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 25 Mehefin 2026 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2026-27 f2 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2026-27 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae blaen raglen waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen ddatblygu yn Atodiad B.

1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2026-27 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

## Atodiad A – Blaen Raglen Waith 2026-27 f2

| Swyddogaeth Graidd | 25 Mehefin 2026 | 16 Gorffennaf 2026 | 28 Medi 2026 | 3 Rhagfyr 2026 | 11 Chwefror 2027 | 15 Ebrill 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2)** | | | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1)<br><br>Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5) |
| **Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3)** | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2025-26 (3.4.8.3.1/2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2027-28 (3.4.8.3.2) |
| **Llywodraethiant (3.4.8.4)** | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) (3.4.8.8.2) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.8.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2025-26 (3.4.8.4.4) | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 25 Mehefin 2026 | 16 Gorffennaf 2026 | 28 Medi 2026 | 3 Rhagfyr 2026 | 11 Chwefror 2027 | 15 Ebrill 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Trysorlys (3.4.8.5)** | | Adroddiad Blynyddol 2025-26 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2027-28 (3.4.8.5.1/3/4) | |
| **Gwerth am arian (3.4.8.6)** | *Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2025-26 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/ 14/15) (3.4.8.6.3)* | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Drafft 2025-26 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)* | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Terfynol 2025-26 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | | *Crynodeb Archwilio Blynyddol 2026 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | |
| **Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7)** | | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3) | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn Ysgolion 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3) | | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2026-27 (3.4.8.7.1/2/3) |

Tudalen 131

| Swyddogaeth Graidd | 25 Mehefin 2026 | 16 Gorffennaf 2026 | 28 Medi 2026 | 3 Rhagfyr 2026 | 11 Chwefror 2027 | 15 Ebrill 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Risg (3.4.8.8)** | | Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | | Adolygiad o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | |
| **Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9)** | | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-26 (3.4.8.9.4/5/6) | | *Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2025-26 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)* | | Canlyniadau'r Fenter Dwyll Genedlaethol 2026-28 – Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6) |
| **Archwilio Mewnol (3.4.8.10)** | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2025-26 (3.4.8.10.5/6/7/8/11 /14/15) (3.4.8.6.3)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2026-27 (3.4.8.10.1/2/4/ 5)<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Asesiad mewnol o gydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn y Sector Cyhoeddus yn y DU (3.4.8.10.1/2/8/ 11/13) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) |
| **Archwilio Allanol (3.4.8.11)** | | Recriwtio a Chadw (Adroddiad Lleol) (3.4.8.11.1/2/3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch1 2025) (3.4.8.11.2/3) | *Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.11.3) (3.4.8.13.1)* | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch3 2025) (3.4.8.11.2/3) | Cynllun Archwilio Blynyddol 2027 (3.4.8.11.1/3) |

| Swyddogaeth Graidd | 25 Mehefin 2026 | 16 Gorffennaf 2026 | 28 Medi 2026 | 3 Rhagfyr 2026 | 11 Chwefror 2027 | 15 Ebrill 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon<br>(3.4.8.11.2/3)<br>(3.4.8.6.3)<br>(3.4.8.12.4)<br><br>Cynllunio ariannol mewn gofal preswyl i oedolion (Adroddiad Lleol)<br>(3.4.8.11.2/3) | | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2026<br>(3.4.8.11.1/2/3)<br>(3.4.8.6.3) | |
| **Adrodd Ariannol (3.4.8.12)** | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2025-26<br>(3.4.8.12.1/2/3/ 5)<br>(3.4.8.6.1/2/3) | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2025-26<br>(3.4.8.12.1/2/3/ 5)<br>(3.4.8.6.1/2/3) | | | |
| **Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13)** | | | | Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig<br>(3.4.8.11.3)<br>(3.4.8.13.1) | | |
| **Delio â Chwynion (3.4.8.14)** | | | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2025-26<br>(3.4.8.14.1/2)<br><br>Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025-26 (3.4.8.14.1) | | |

| Swyddogaeth Graidd | 25 Mehefin 2026 | 16 Gorffennaf 2026 | 28 Medi 2026 | 3 Rhagfyr 2026 | 11 Chwefror 2027 | 15 Ebrill 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15)** | | | Adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Lles) Blynyddol Drafft 2025-26 (3.4.8.15.1/2/3) | | | |
| **Asesiad Perfformiad Panel (3.4.8.16)**[1] | Adroddiad Asesiad y Panel (3.4.8.16.1/2/3) | | | | | |
| **Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol (3.4.8.17)** [2] | | | | | | |
| **Eitemau sylweddol** | **5** | **8** | **9** | **8** | **7** | **7** |



[1] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

[2] Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## Atodiad B – Rhaglen Ddatblygu (3.4.8.2.10)

### Hyfforddiant i'r pwyllgor

| Maes | Dyddiad a ddarparwyd | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Wedi'i Drefnu |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risg | Chwefror 2025 | Sesiwn briffio | Prif Swyddog Digidol | |
| Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr | Mehefin 2023<br>Awst 2023 | Sesiwn hyfforddi<br>Sesiwn hyfforddi | CIPFA<br>CIPFA | |
| Rheoli Trysorlys | Medi 2023 | Sesiwn briffio | Richard Bason, Link Group | |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Hydref 2023 | Sesiwn hyfforddi | CLILC | |
| Atal Twyll a Llygredd | Rhagfyr 2023 | Sesiwn hyfforddi | Paul Stratton, 'The Fraud Nerd' | |
| Rheoli Risg | Mawrth 2024<br>Tachwedd 2025 | Sesiwn hyfforddi<br>Sesiwn hyfforddi | CLILC<br>Zurich Resilience Solutions | |
| Datganiad o'r Cyfrifon | Hydref 2025 | Sesiwn briffio | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 | |



### Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |

## Cyfarwyddiadau i'r pwyllgor

| Teitl | Arwynebedd | Canolig | Darparwr | Dyddiad Darparwyd |
|---|---|---|---|---|
| Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 40: Safonau Archwilio Mewnol Newydd | Newidiadau sydd ar ddod i'r safonau archwilio mewnol a sut y bydd hynny'n effeithio ar aelodau'r pwyllgor archwilio. | Nodyn Briffio | CIPFA | 24/12/24 |
| Cylchlythyr CIPFA Llywodraethu Gwell | Gwybodaeth i bwyllgorau archwilio ynghylch cyhoeddi Cod Ymarfer CIPFA i gefnogi awdurdodau i sefydlu a chynnal eu trefniadau archwilio mewnol, ynghyd â gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar yr Atodiad i Fframwaith Llywodraethu 2016 sy'n cwmpasu'r adolygiad blynyddol o lywodraethu a'r datganiad llywodraethu blynyddol. | Cylchlythyr | CIPFA | 07/02/25 |
| Archwilio Cymru - Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol a chanllawiau poced ar effaith gadarnhaol | Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi canllaw poced sy'n crynhoi arferion effeithiol ar gyfer pwyllgorau archwilio. | Canllaw poced | Archwilio Cymru | 25/02/25 |
| Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 42: Llywodraethu Archwilio Mewnol | Y Cod Ymarfer newydd ar Lywodraethu Archwilio Mewnol sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2025. | Nodyn Briffio | CIPFA | 17/04/25 |
| Erthygl Cyllid Cyhoeddus CIPFA – Gallai mabwysiadu AI 'arbed £8bn y flwyddyn i gynghorau Cymru a Lloegr' | Erthygl sy'n amcangyfrif y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr arbed £8bn bob blwyddyn trwy integreiddio deallusrwydd artiffisial yn eu gweithrediadau. | Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/05/25 |
| CIPFA / Solace Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Cyhoeddi Atodiad | Cyhoeddi canllawiau newydd ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethu a rheolaethau mewnol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol (AGS) sy'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. | Cyhoeddiad | CIPFA | 20/05/25 |
| Erthygl Cyllid Cyhoeddus – Rheolau technoleg: pwysigrwydd cael polisi DA | Erthygl ar bwysigrwydd sefydliadau sydd â pholisi Deallusrwydd Artiffisial (DA). | Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/07/25 |
| Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru - Cwestiynau Cyffredin | Gwybodaeth am rôl Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CCGC) ac is-bwyllgor y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | Cwestiynau cyffredin | CCGC | 02/12/25 |